

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 02/2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Adolygiad o batrymau ariannu y trydydd sector

Adolygiad o batrymau ariannu y trydydd sector

Old Bell 3

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cynulliad Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Enw: Siân Jones

Adran: Isadran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful,

Rhyd-y-Car,

Merthyr Tudful,

CF48 1UZ

Ffôn: 01685 729126

Ffacs: 01685 729546

E-bost: SJ&LGRsearch&InformationUnit@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

ADRAN	CYNNWYS	TUDALEN
	CRYNODEB GWEITHREDOL	3
1.0	CYFLWYNIAD	14
1.1	Rhaglen Waith	15
1.2	Strwythur yr Adroddiad	16
2.0	CANFYDDIADAU – ADOLYGIAD O DDEUNYDD	17
2.1	Diffiniad	17
2.2	Polisi a Deunydd yn cyfeirio at Gymru	18
2.2.1	<i>Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru</i>	18
2.2.2	<i>Adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol</i>	26
2.2.3	<i>Papur “Funding Paradigm” Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</i>	29
2.3	Cyd-destun y Deyrnas Unedig	33
2.4	Lloegr	35
2.5	Yr Alban	38
2.6	Gogledd Iwerddon	42
2.7	Casgliadau	46
3.0	CANFYDDIADAU – ADOLYGIAD DATA	48
3.1	Materion Diffiniadol	48
3.2	Lefelau Ariannu Cyffredinol	49
3.3	Ariannu a Maint y Sefydliad	52
3.4	Twf y Sector	56
3.5	Cyllid gan y Sector Cyhoeddus	57
3.6	Y Cymysgedd Cyllid	60
3.7	Cyllid Llywodraeth Leol	65
3.8	Ffynonellau Ewropeaidd a Rhyngwladol	68
3.9	Gwariant yn ôl Maes Gwasanaeth	70
3.10	Ffynonellau Eraill o Incwm	73

3.11	Lefelau Boddhad	76
3.12	Casgliadau	78
4.0	CANFYDDIADAU – YMCHWIL ANSODDOL	80
4.1	Y Berthynas rhwng Cyllidwyr a Derbynwyr Cyllid	80
4.1.1	<i>Lefelau Ariannu Cyffredinol</i>	80
4.1.2	<i>Manteision gweithio gyda'r Trydydd Sector</i>	81
4.1.3	<i>Canfyddiadau ac Agweddau</i>	83
4.2	Arferion Ariannu Presennol	88
4.2.1	<i>Amserlenni Ariannu</i>	88
4.2.2	<i>Systemau Ariannu</i>	92
4.2.3	<i>Y Cymysgedd Cyllid a Rôl Caffaeliad</i>	95
4.2.4	<i>Cefnogaeth Caffaeliad – Trydydd Sector</i>	100
4.2.5	<i>Cefnogaeth Caffaeliad – Sector Cyhoeddus</i>	103
4.3	Y Berthynas rhwng Cyllid a Deilliannau	105
4.4	Pwysigrwydd Monitro	109
4.5	Gweithredu Codau Ymarfer, Canllawiau a Chompactau	112
4.6	Effaith y Dirwasgiad a Chyfyngiadau ar Wariant Sector Cyhoeddus	114
4.7	Adeniliad Costau Llawn	117
4.8	Cydweithredu	118
4.9	Sicrhau Cynaliadwyedd	121
4.10	Casgliadau	124
5.0	CASGLIADAU AC ARGYMHELLION	129
5.1	Amserlenni Ariannu	129
5.2	Diffinio Deilliannau	132
5.3	Dulliau Ariannu	134
Atodiad 1	Rhestr Ymgylgoreion	140

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Adolygiad o Batrymau Ariannu y Trydydd Sector yng Nghymru a gynhaliwyd ar gyfer Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Old Bell 3 Cyf.

Comisiynwyd yr Adolygiad fel canlyniad i drafodaethau cyfredol gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2008, trafododd y Cyngor Partneriaeth faterion a amlygwyd mewn papur a baratowyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) dan y teitl: *"Economi wleidyddol cyllido'r Trydydd Sector yng Nghymru: Tuag at batrwm newydd?"*.

Cytunodd y Cyngor Partneriaeth fod y materion a amlinellwyd ym mhapur y WCVA yn haeddu eu hymchwilio ymhellach a bwriedir i'r Adolygiad hwn hysbysu trafodaethau pellach ar sut y dylai patrymau cyllido geisio cyflawni'r canlyniadau gorau i a gan y Trydydd Sector yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr Adolygiad rhwng Awst a Rhagfyr 2009 gyda'r amcanion penodol o:

- Adolygu deunydd presennol yn ymwneud â phatrymau ariannu yn y pedair cenedl ac effaith patrymau ariannu ar allbynnau, a chanlyniadau, ar gyfer cyrff Trydydd Sector yng Nghymru;
- Cynnal ymchwil ansoddol gyda chyllidwyr ar sut y newidiodd eu patrymau o ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru dros gyfnod;
- Casglu barn cyllidwyr y Trydydd Sector a derbynwyr grantiau o fewn y Trydydd Sector ar sut y dylid adeiladu patrymau cyllid i sicrhau'r canlyniadau ar gyfer, a gan, y Trydydd Sector;

- Ystyried dulliau newydd posibl o gyflawni cynaliadwyedd yn seiliedig ar y syniadau a gynigiwyd ym mhapur “Economi wleidyddol cyllido'r Trydydd Sector”;
- Gwneud argymhellion ymarferol am sut y medrid gweithredu unrhyw newidiadau mewn patrymau ariannu.

Roedd y rhaglen waith ar gyfer yr Adolygiad yn cynnwys adolygiad helaeth o ddeunydd a dadansoddiad o ddata yn ymwneud ag ariannu'r Trydydd Sector. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chyllidwyr Trydydd Sector a chyfres o bedwar grŵp ffocws gyda chyrff Trydydd Sector ar draws Cymru. Yn olaf, trefnwyd digwyddiad ymgynghori bychan gan ddod ynghyd â chynrychiolwyr asiantaethau ariannu'r sector cyhoeddus a chyrff Trydydd Sector i drafod canfyddiadau'r adroddiad a mireinio'r argymhellion a nodir yn Adran 6.

Mae canfyddiadau o'r **adolygiad deunydd** yn cynnwys:

- Mae'r cyd-destun polisi yn dilyn datganoli ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru yn gyffredinol ac yn benodol yn nhermau cyllid i'r sector wedi datblygu'n gyflym ac mae'n gefnogol iawn i'r sector.
- Ymddengys fod y materion a'r heriau sy'n ymwneud â dosbarthu cyllid i'r Trydydd Sector (megis amserlenni ariannu, y gwahanol ddulliau ariannu sydd ar gael a chynaliadwyedd ariannu) yn gyfarwydd iawn ac yn cael eu deall yn dda gan wneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at ymdrechion sylweddol a rhoi mesurau ar waith (megis y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu) i liniaru a cheisio goresgyn rhai o'r materion hyn. Mae'n glir, serch hynny, fod rhai o'r cynlluniau hyn yn eu camau cynnar ac fel y soniodd Pwyllgor Diwylliant a

Chymunedau y Cynulliad Cenedlaethol, mae peth ffordd i fynd o hyd tuag at weithredu polisi ac egwyddorion ariannu yn llawn;

- Medrid dadlau fod y cymysgedd cyllid yng Nghymru braidd yn geidwadol, gan gynnwys yn bennaf wahanol grantiau, cytundebau lefel gwasanaeth a dulliau caffaeliad. Ymddengys fod Cymru'n llusgo ar ôl yr Alban yn neilltuol lle mae'n edrych fod dulliau buddsoddi a gwaddol wedi datblygu llawer mwy fel dulliau ariannu prif ffrwd;
- Yn nhermau lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth a gynigir i gyllidwyr statudol, ymddengys fod Cymru mewn safle gystal o leiaf â'r gwledydd cartref eraill. Y mater i Gymru yw sicrhau y caiff y cyfeiriad polisi ei ddilyn trwodd yn llawn gyda ffocws cadarn a pharhaus ar weithredu'r egwyddorion a amlinellwyd ym mholisiâu ac arweiniad Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r canfyddiadau o'r **dadansoddiad data** yn cynnwys:

- Dengys tueddiadau ariannu diweddar ar draws y Deyrnas Unedig fod cyllid o ffynonellau statudol i'r Trydydd Sector wedi cynyddu'n gyson dros y degawd diwethaf.
- Rhwng 2005 a 2007, dengys y data diweddaraf, cyn i'r Deyrnas Unedig fynd i ddirwasgiad a'r cyfyngiadau arfaethedig ar wariant sector cyhoeddus, bod gwariant statudol drwy'r Trydydd Sector wedi cynyddu'n gyflymach na chyfanswm gwariant y Llywodraeth.
- Caiff cyllid statudol i'r Trydydd Sector ei wasgaru'n anwastad. Mae cyrff mwy yn y Trydydd Sector yn fwy dibynnol ar gyllid sector cyhoeddus ac yn cyfrif am fwyafrif helaeth gwariant y sector cyhoeddus ar a thrwy'r Sector. Mae hyn yn wir yng Nghymru ac i'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol;

- Mae cyllid fesul pen o boblogaeth i'r Trydydd Sector yn is yng Nghymru nag yw yn yr Alban ac i'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol ond yn uwch nag yw yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r gyfran o wariant sector cyhoeddus drwy'r Trydydd Sector yng Nghymru yn fras debyg i'r hyn yw yn yr Alban;
- Mae'r cymysgedd o gyllid o'r Sector Cyhoeddus i'r Trydydd Sector yn newid ar lefel y DU. Mae incwm grant cyhoeddus i'r sector yn gostwng tra bod refeniw o gontractau a ariannwyd yn gyhoeddus (caffaeliad) yn cynyddu. Hyd yma, fodd bynnag, ychydig sydd o ran data cadarn i awgrymu fod y newid yn neilltuol o amlwg yng Nghymru;
- Mae amrywiad gofodol amlwg yn nhermau lefel yr incwm o'r sector cyhoeddus ymysg cyrff Trydydd Sector yng Nghymru;
- Mae'r rhan fwyaf o wariant awdurdodau lleol gyda'r Trydydd Sector yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol;
- Yn nhermau'r DU, cyfran fechan iawn o gyfanswm refeniw'r sector yw cyllid Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae Cymru'n fwy dibynnol ar gyllid o'r Undeb Ewropeaidd na'r DU yn gyffredinol i ariannu'r Trydydd Sector;
- Yn nhermau rhoddi uniongyrchol, mae Cymru'n gwneud yn dda ac mae ganddi gyfran gyfartalog uwch o roddwyr o gymharu â'r boblogaeth na'r DU yn gyffredinol;
- Ymddengys mai ychydig iawn o ffynonellau cyllid benthyca a buddsoddi sydd ar gael i'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Mae'r canfyddiadau o **ymchwil gyda chyllidwyr a chynrychiolwyr y Trydydd Sector** yn cynnwys:

- Yn unol gydag ystadegau a gyhoeddwyd, mae rhanddeiliaid yn cytuno fod cyfanswm cyllid i'r sector wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf (hyd at y dirwasgiad diweddar);
- Mae'n amlwg bod gan y rhan fwyaf o gyllidwyr werthfawrogiad a pharch at waith y Trydydd Sector a'r gwerth ychwanegol a rydd y sector yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol ardderchog;
- Er y gwelwyd cynnydd wrth ddatblygu'r berthynas rhwng y cyllidwr - derbyniwr cyllid yng Nghymru, mae angen gwaith o hyd i broffesiynoli dulliau cyllidwyr a cyrff Trydydd Sector mewn nifer o feysydd allweddol. Yn sylfaenol i hyn mae'r angen i sicrhau y gwneir cynnydd ar y ddwy ochr wrth ddeall a bod eisiau goresgyn rhwystrau a heriau'r naill a'r llall;
- Erys amserlenni ariannu byr yn rhwystr allweddol i sefydlogrwydd a gallu i oroesi llawer o cyrff Trydydd Sector yng Nghymru. Er gwaethaf ymdrechion gwahanol haenau o lywodraeth (gyda Chodau Ymarfer, canllawiau a chompactau), mae tystiolaeth i awgrymu nad yw cyfnodau ariannu tair blynedd yn dal i gael eu trin gan rai fel isafswm ac nid yw arfer gwael (e.e. wrth gymryd penderfyniadau ariannu ar yr unfed awr ar ddeg) wedi eu dileu yn llwyr eto;
- Caiff amrywiaeth eang o ddulliau ariannu eu defnyddio i ariannu a chomisiynu gwasanaethau a gweithgareddau gan y Trydydd Sector yng Nghymru;

- Nid yw dewis y dull mwyaf addas o ariannu bob amser yn ymarferiad syml i gyllidwyr. Mae perygl dryswch eang ar ran cyllidwyr rhwng comisiynu a chaffaeliad;
- Mae hefyd gonsyrn y gwelir caffaeliad fel y sefyllfa ragosod wrth symud at gynyddu tryloywder a phroffesiynoldeb;
- Nid yw cyllidwyr yn croesawu cysyniad clustnodi neu ddyrannu cyfran o'u cyllidebau i unrhyw un sector penodol. Mae amheuan sylfaenol bod dull o'r fath yn groes i'r angen am dryloywder;
- Mae'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r Trydydd Sector yn nhermau caffaeliad yn ymarferol yn debyg iawn i'r rhai sy'n wynebu busnesau micro a busnesau bach ac mae angen cynyddu'r ymdrechion i helpu'r Trydydd Sector i 'werthu ei hunan' yn fwy effeithiol;
- Mae angen i gomisiynwyr wneud yn sicr pan fyddant yn caffael, eu bod yn defnyddio technegau priodol sy'n hyblyg, hylaw a chymesur;
- Ni fu diffinio deilliannau yng nghyswllt ariannu'r Trydydd Sector yn gryfder yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arwyddion bod hyn yn gwella a bod cyllidwyr a'r Trydydd Sector yn awr yn cymryd hyn fwy o ddifrif;
- Mae'n hollol dderbyniol i'r sector cyhoeddus gaffael gwasanaeth sy'n dynodi mewnbynnau - 'y sut' - yn ogystal â deilliannau mewn rhai amgylchiadau, ond dylai hyn fod yr eithriad yn hytrach na'r rheol;

- Mae systemau monitro yn sylfaenol i berthynas ariannu lwyddiannus sy'n cymryd canlyniadau o ddifrif. Mae arwyddion fod cyllidwyr a'r Trydydd Sector yn ymrwymedig i wella eu harferion;
- Mae tystiolaeth i awgrymu fod angen gwneud llawer mwy o ledaenu, a sicrhau gweithrediad, Cod Ymarfer a chanllawiau ariannu Llywodraeth y Cynulliad. Mae angen i lywodraeth leol hefyd gynyddu ei gwaith yn y maes yma;
- Mae negeseuon cymysg am effaith y dirwasgiad. Mae rhai yn y Trydydd Sector eisoes wedi profi toriadau sylweddol tra bod eraill yn gwybod am wasanaethau'n cael eu cymryd 'yn ôl yn fewnol' o fewn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hefyd dystiolaeth i awgrymu y bydd rhai cyllidwyr yn cyrchu mwy yn allanol fel canlyniad i'r dirwasgiad;
- Mae cyfleoedd sylweddol ac arbedion effeithiolrwydd ar gael i gyllidwyr a'r Trydydd Sector drwy gynyddu dulliau cydweithio;
- Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddulliau eraill, sy'n seiliedig yn helaethach ar fuddsoddiad yng Nghymru. Ymddengys bod angen a chyfle clir i egluro a datblygu mwy ar ddulliau cyllid seiliedig ar fuddsoddiad yn syth.

Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o 12 **argymhelliad** yn canolbwyntio ar amserlenni ariannu, canlyniadau cysylltiedig â chyllid a dulliau ariannu.

Ar **amserlenni ariannu**:

Argymhelliad 1

Lle mae angen tymor-canol clir (pump i saith mlynedd) ar gyfer gwasanaeth neilltuol a ddarperir gan y Trydydd Sector, lle mae

darpariaeth y gwasanaeth hwnnw'n cyd-fynd yn dda â pholisi sefydledig a lle mae consensws gwleidyddol clir am bwysigrwydd mynd i'r afael â'r angen a phriodolder y gwasanaeth wrth wneud hynny, dylai cyllidwr ymrwymo mewn egwyddor (h.y. drwy gontract sy'n rhwymo) i roi sefydlogrwydd dros y cyfnod. Dylid derbyn y bydd angen penderfynu ar ddyraniadau cyllideb manwl ar sail gylchol (efallai flynyddol neu ddwywaith y flwyddyn) o dan yr ymrwymiad tymor hwy yma. Dylid cynyddu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol a chyllidwyr eraill i sicrhau fod yr hyn sydd mewn gwirionedd yn egwyddor y cytunwyd arni eisoes yn dod yn ymarfer brif ffrwd.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynyddu ei hymdrechion i ledaenu a hyrwyddo Cod Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector ar draws adrannau mewnol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac yn fwy eang yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol barhau i arwain yn y cyswllt hwn, gan gynnig cyngor ac arweiniad yn rhagweithiol i gomisiynwyr gwasanaethau a'r Trydydd Sector i atodi'r Cod ei hunan ac yn neilltuo i ganolbwyntio ar weithredu ei hargymhellion yng nghyswllt amserlenni cyllid.

Argymhelliad 3

Mae angen i gyllidwyr gytuno, cyflwyno a gweithredu arferion monitro mwy effeithiol, gyda chymalau torri yn gysylltiedig â pherfformiad (e.e. tair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy arall) wedi'u cynnwys a'u cytuno ymlaen llaw gan y cyllidwr a'r derbynnydd. Yn ei dro, mae angen i'r Trydydd Sector finio'i'r ffordd y mae'n ymateb i ofynion monitro.

Argymhelliad 4

Lle mae cyfiawnhad dros gyllid tymor byrrach (e.e. cynlluniau peilot), mae angen i'r paramedrau a disgwyliadau deilliannau, a osodir gan

gyllidwyr, pa bynnag dull cyllido a ddewiswyd, fod yn gymesur ac mae angen i gyllidwyr roi eglurdeb am sut y bwriedir rhoi dulliau llwyddiannus yn y brif ffrwd.

Yn nhermau diffinio **canlyniadau cysylltiedig ag ariannu**:

Argymhelliad 5

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau eraill a chyllidwyr eraill y Trydydd Sector gynyddu eu hymdrechion i sicrhau fod comisiynwyr yn deall egwyddorion dull ariannu seiliedig ar ddeilliannau a nodwyd eisoes yn y Cod Ymarfer. Ni fydd dim llai na newid sylfaenol yn y cyswllt hwn yn ddigon i adfywio ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng cyllidwr-derbynnydd a'i phroffesiynoli. Nid oes angen comisiynu unrhyw waith newydd ar gyfer hyn gan fod yr egwyddorion eisoes wedi eu cytuno gan y rhanddeiliaid ac maent ar waith. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar weithredu rhaglen gyfathrebu yn gyson a rhagweithiol a lledaenu cyngor ac arfer da i gomisiynwyr sydd wedi'i hanelu'n benodol at gyflymu newid.

Argymhelliad 6

Lle mae cyllidwyr yn penderfynu eu bod yn cael gyrru gan ddeilliannau, dylent osgoi'r demtasiwn i or-fanylu **sut** mae pethau i gael eu cyflenwi. Dylid hefyd gofio fodd bynnag y gall fod yn ddilys a derbyniol i gyllidwyr gaffael gwasanaethau wedi'u diffinio'n dda sydd angen mewnbynnau penodol yn ogystal â deilliannau. Ni ddylid camddehongli hyn fel fod yn rhwystro arloesed.

Yng nghyswllt dulliau ariannu:

Argymhelliad 7

Gan dderbyn fod tryloywder yn hanfodol, dylai cyllidwyr osgoi ymateb difeddwl o ddefnyddio caffaeliad fel y dull rhagosod ar gyfer ymwneud gyda'r Trydydd Sector. Er bod caffaeliad yn helpu i hybu arferion ariannu seiliedig ar ddeilliannau, ni ddylid ei weld fel yr unig ffordd o

gyflawni'r nod yma. Dylid defnyddio canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn llawnach i helpu i hysbysu'r ffordd orau o ddewis y dulliau ariannu mwyaf addas. Mae angen i swyddogion caffaeliad gydnabod hyn a dylent adlewyrchu hynny'n llawnach yn y cyngor a roddant i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau gan y Trydydd Sector.

Argymhelliad 8

Lle mae caffaeliad yw'r dull ymrwymo mwyaf addas, mae angen i gyllidwyr ddefnyddio technegau addas sy'n gymesur a pherthnasol i'r math o wasanaethau sy'n cael eu comisiynu. Mae hyn yn golygu nad yw un maint yn ffitio pawb ac mae angen i swyddogion caffaeliad sicrhau fod y cyngor a roddant i gomisiynwyr gwasanaethau gan y Trydydd Sector yn adlewyrchu'n gywir natur a maint y gwasanaethau hynny sy'n cael eu caffael.

Argymhelliad 9

Mae angen i'r Trydydd Sector wella ei ymateb i'r agenda caffaeliad ac yn arbennig y ffordd y mae'n gwerthu ei hunan i gomisiynwyr a phwrcaswyr. Yn y cyswllt hwn, mae angen i gyrff ymbarél y sector ac asiantaethau eraill (megis Gwerth Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth) sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cefnogaeth y sector ac y caiff dulliau cefnogaeth eu defnyddio gan y Sector. Mae angen i'r gefnogaeth hon fod â ffocws cynyddol ar gael y sector i gydweithredu wrth gystadlu am a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ychydig o werth sydd mewn disgwyl canlyniad dull ennill cyflym o'r gwaith hwn. Mae angen cysondeb ac ymroddiad diamwys y Trydydd Sector i chwarae ei ran lawn. Heb hyn, caiff y Trydydd Sector ei adael ar ôl gan yr agenda caffaeliad.

Argymhelliad 10

Mae cadw portffolio cytbwys o gyllid yn bwysig i gyllidwyr a hefyd y Trydydd Sector ac mae angen i gyllidwyr gydnabod fod grantiau'n dal i fod â rôl sylfaenol i'w chwarae yn y tirlun cyllid ar gyfer y dyfodol. Lle'n bosibl, dylai cyllidwyr allweddol unrhyw gorff penodol sicrhau fod

llinellau cyfathrebu a threfniadau cydweithredu da rhyngddynt (yn cynnwys penodi cyllidwr arweiniol lle mae hynny'n addas), fel bod lefel uchel o ymwybyddiaeth strategol a chynllunio effeithlon yng nghyswllt comisiynu gwasanaethau.

Argymhelliad 11

Mae angen i gyllidwyr, yn cynnwys rhai sy'n gweithredu grantiau a Chronfeydd Ymddiriedolaeth, ystyried sut y medrant ostwng y nifer o geisiadau anghymwys neu amhriodol a gyflwynir - gan ddefnyddio modelau blaengar sy'n rhoi cefnogaeth datblygu i ddarpar ymgeiswyr. Mae angen gwneud mwy hefyd i helpu paratoi a hysbysu ymgeiswyr ymlaen llaw (er enghraifft drwy roi manylion deilliannau a disgwyliadau yn nhermau'r broses gwneud cais) fel bod y ceisiadau yn fwy perthnasol ac o ansawdd uwch.

Argymhelliad 12

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyllidwyr allweddol y Trydydd Sector a'r sector ei hunan ymchwilio dulliau ariannu seiliedig ar fuddsoddiad gyda mwy o awch a theimlad o frys. Dylai dirprwyaeth fechan yn cynnwys swyddogion allweddol o Lywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill (efallai fel is-grŵp i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector) drefnu a chynnal ymweliad astudio ymarferol i'r Alban i ymchwilio a dysgu gwersi y dulliau seiliedig ar fuddsoddiad a gwaddol at ariannu a fabwysiadwyd yno. Dylid manteisio'n llawn hefyd ar weddill cyfnod cyllid yr Undeb Ewropeaidd dros yr ychydig fisoedd nesaf, ynghyd â ffynonellau eraill (megis cyllid o gyfrifon banc segur) i ysgogi dynesiadau seiliedig ar fuddsoddiad gyda'r amcan clir y dylent ddod yn hunanddigonol fel rhan o seilwaith ariannu ehangach. Dylai Llywodraeth y Cynulliad osod amcanion clir a chael rhaglen weithgaredd i fynd â'r gweithgaredd hwn rhagddo a ddylai gynnwys enwebu swyddog arweiniol o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i hyrwyddo'r agenda ac i roi adroddiadau rheolaidd i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar y cynnydd.

1.0 CYFLWYNIAD

Comisiynwyd **Old Bell 3 Cyf.** gan Adran Cyfiawnder a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Awst 2009 i gynnal adolygiad o batrymau ariannu, sef ffynonellau, natur a bwriad ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru, o gymharu gyda'r gwledydd cartref eraill, a lle'n bosibl dod i gasgliadau p'un a sut mae gwahanol batrymau o ariannu yn effeithio ar y deilliannau ar gyfer a gan gyrff Trydydd Sector.

Comisiynwyd yr adolygiad yn dilyn trafodaethau parhaus gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth yma i alluogi gweithio effeithlon rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Trydydd Sector. Mae aelodau'r Cyngor yn cynnwys y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Trydydd Sector) a 25 cynrychiolydd a benodwyd gan y Trydydd Sector yn cynrychioli meysydd strategol neilltuol o ddiddordeb.

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2008, trafododd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector faterion a amlygwyd mewn papur a baratowyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru dan y teitl *“Economi wleidyddol cyllido'r Trydydd Sector yng Nghymru: Tuag at batrwm newydd?”*.

Cytunodd y Cyngor Partneriaeth fod y pwnc yn haeddu craffu pellach a bwriedir i'r ymchwil yma helpu i hysbysu trafodaethau pellach ar sut y dylai'r patrymau ariannu geisio sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer a gan y Trydydd Sector yng Nghymru.

Felly amcanion penodol yr ymchwil yw:

- Adolygu deunydd presennol yn ymwneud â phatrymau ariannu'r Trydydd Sector yn y gwledydd cartref ac effaith patrymau ariannu ar allbynnau a chanlyniadau Cyrff Trydydd Sector yng Nghymru.

- Cynnal ymchwil ansoddol gyda chyllidwyr am sut mae eu patrwm ariannu i'r Trydydd Sector yng Nghymru wedi newid dros gyfnod. Lle'n bosibl, dylai hyn ddadansoddi tueddiadau a dylai wneud cymariaethau gyda phatrymau ariannu'r Trydydd Sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Casglu barn cyllidwyr i'r Trydydd Sector a derbynwyr grantiau o fewn y Trydydd Sector ar sut y dylai patrymau ariannu'r Trydydd Sector gael eu llunio i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer, a gan, y Trydydd Sector.
- Ystyried ymagweddau newydd posibl at sicrhau cynaliadwyedd yn seiliedig ar y syniadau a gynigir ym mhapur "Economi wleidyddol cyllido'r Trydydd Sector.
- Gwneud argymhellion ymarferol am sut y medrid gweithredu unrhyw newidiadau mewn patrymau ariannu.

1.1 Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr adolygiad hwn wedi cynnwys y camau dilynol:

- Adolygiad desg o ddeunydd a data yn ymwneud ag ariannu'r Trydydd Sector ar draws y Deyrnas Unedig. Adolygwyd mwy na 50 o ffynonellau dogfennol a data/gwybodaeth.
- Cyfuniad o gyfweiliadau wyneb i wyneb a ffôn gyda 32 cynrychiolydd o gyrff trydydd sector yn ymwneud ag ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig;
- Cynnal cyfweiliadau a threfnu cyfres o bedwar grŵp ffocws gyda 23 cynrychiolydd o gyrff Trydydd Sector ar draws Cymru;

- Cyflwyno ein canfyddiadau i'w trafod mewn cyfarfod o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ystod mis Tachwedd 2008;
- Trefnu digwyddiad ymgynghori bychan ym mis Rhagfyr 2009, gan ddod ynghyd â chynrychiolwyr o asiantaethau ariannu trydydd sector a cyrff Trydydd Sector i drafod canfyddiadau'r adroddiad a mireinio'r argymhellion a nodir yn Adran 6.

1.2 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, adolygwn ddeunydd yn ymwneud ag ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru a rhannau eraill y Deyrnas Unedig (**Adran 3**). Wedyn awn ati i ddadansoddi gwahanol ffynonellau data ariannu (**Adran 4**) cyn amlinellu canfyddiadau ein hymchwil gyda chyllidwyr a cyrff Trydydd Sector (**Adran 5**). Yn olaf, cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion (**Adran 6**).

2.0 CANFYDDIADAU – ADOLYGIAD O DDEUNYDD

Yn yr adran hon, ystyriwn wahanol ffynonellau o ddeunydd yn ymwneud ag ariannu'r Trydydd Sector. Trafodwn:

- Y diffiniad o'r Trydydd Sector;
- Polisi a llenyddiaeth yn ymwneud â Chymru;
- Cyd-destun y Deyrnas Unedig;
- Cyd-destun Lloegr;
- Cyd-destun yr Alban;
- Cyd-destun Gogledd Iwerddon.

2.1 Diffiniad

Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Trydydd Sector yn grŵp eang iawn *“gan gwmpasu bron bob agwedd ar ddiddordeb dynol”*¹. Mae'n ffurfio rhan o *“gymdeithas sifil”*², y dosbarthiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol (NVCO), corff cydlynu'r Trydydd Sector yn Lloegr a Chymru.

Mae gwahanol ddiffiniadau o'r Trydydd Sector ar gael gan wahanol ffynonellau o fewn y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, diffinnir y sector yng nghymal 2.1 o'r Cynllun Sector Gwirfoddol (Llywodraeth Cynulliad Cymru)³ fel bod yn cynnwys:

“cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cyrff cydweithredol a mentrau cymunedol, cyrff crefyddol a cyrff nid er elw eraill sydd o fudd i gymunedau a phobl yng Nghymru.”

¹ Y trydydd dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

² UK Civil Society Almanac NCVO 2009

³ Y trydydd dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi fod y cyrff Trydydd Sector yn rhannu'r nodweddion dilynol:

- *“Cyrff annibynnol, nad ydynt yn gyrrff y llywodraeth;*
- *Wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu;*
- *Wedi'u gyrru gan werth a'u hysgogi gan y dymuniad i ddatblygu ymhellach amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw yn unig; ac*
- *Yn ymrwymedig i ail-fuddsoddi eu gwarged i ddatblygu ymhellach eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.”⁴*

2.2 Polisi a Deunydd yn cyfeirio at Gymru

Mae'r Trydydd Sector yn hanesyddol wedi gwneud cyfraniad economaidd-gymdeithasol pwysig, er y medrid dadlau nad yw'n cael ei gydnabod yn ddigonol bob amser, ar draws ystod o feysydd polisi a darparu gwasanaeth yng Nghymru.

Yn dilyn datganoli, mae polisiâu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn fwy diweddar bolisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn raddol wedi codi proffil y Trydydd Sector a medrid dadlau fod hynny wedi helpu i ffurfioli gwerth y cyfraniad a wnaiff yng Nghymru. Yn ogystal â dealltwriaeth ehangach a dyfnach o'r gwerth a ddaw'r Trydydd Sector, mae'r pwysau dydd i ddydd ac yn neilltuo yr heriau ariannu y mae cyrff Trydydd Sector yn eu hwynebu hefyd yn dod yn gynyddol amlwg i wneuthurwyr penderfyniadau a chyllidwyr yng Nghymru.

2.2.1 Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn fuan ar ôl ei sefydlu yn 1999, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y **Cynllun Sector Gwirfoddol** (2000) a oedd yn ymarferol yn rhoi'r Trydydd Sector a'r tua 30,000 o cyrff sy'n rhan o'r trydydd sector

⁴ Y trydydd dimensiwn;: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

yng Nghymru⁵ ar sail gyfartal gyda llywodraeth leol a'r sector busnes o'r hyn a ddaeth wedyn i gael ei galw yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi datganiad clir o fwriad yng nghyswllt Cyllid y Trydydd Sector, gan amlinellu:

“Ar draws amrediad ei swyddogaethau, mae'r Cynulliad wedi'i ymrwymo i sefydlu a chynnal gweithdrefnau er mwyn sicrhau'r arferion cydnabyddedig gorau wrth weinyddu ei gynlluniau grant ac o fewn yr asiantaethau sy'n gweinyddu cyllid ar ei ran . Mae'r meini prawf allweddol wedi eu cynnwys yn y Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol a bydd y Cynulliad yn eu cynnal, eu defnyddio a'u hybu”.⁶”

Fel canlyniad i'r Cynllun sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ym mis Hydref 2000. Rhoddodd y Cyngor Partneriaeth strwythur ffurfiol ar waith ar gyfer dialog a gwaith partneriaeth rhwng y sector a'r Cynulliad Cenedlaethol. Newidiwyd enw a chyfansoddiad y Partneriaeth yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru (2006): caiff bellach ei alw yn Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru (cadeirir gan Weinidog Llywodraeth y Cynulliad) a chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector.

Mae **“Y trydydd dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol”** (Ionawr 2008) yn ystyried blaenoriaethau allweddol yn cyfeirio at y Trydydd Sector gan eu rhoi yng nghyd-destun yn gyntaf esblygiad y Cynllun Sector Gwirfoddol, yn ail bwerau diwygiedig i Lywodraeth y Cynulliad dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2008 ac yn olaf wrth gwrs **‘Cymru'n Un’⁷** - y rhaglen pedair blynedd o lywodraeth ar gyfer y Weinyddiaeth Glymbleidiol bresennol ym Mae Caerdydd.

⁵ Mae'r rhain yn cynnwys cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol gwirfoddolwyr, grwpiau hunan-gymorth, mentrau cymunedol cydewithredol, cyrff crefyddol a cyrff eraill di-elw.

⁶ Cynllun Sector Gwirfoddol, 2000. Pennod 2.

⁷ Agenda blaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol 27 Mehefin 2007.

Mae'r Trydydd Dimensiwn hefyd yn crynhoi mai *“tri chylch diddordeb ar wahân sy'n gorgyffwrdd”* y Trydydd Sector yw:

- o Cymunedau Cryfach - sy'n cynnwys pobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol i *“fywyd ac adfywiad eu cymunedau”* ac sydd â chanlyniadau allweddol yn nhermau adeiladu *“hyder a sgiliau pobl”*;
- o Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus - sy'n cyfeirio at y rôl *“arloesol a thrawsnewidiol”* y gall y Trydydd Sector ei chwarae wrth wneud i wasanaethau cyhoeddus *gyrraedd mwy o bobl a dod yn fwy sensitif i'w hanghenion*;
- o Gwell Polisi - lle mae'r Trydydd Sector yn helpu i *“lunio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau”* yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad rheng-flaen⁸.

Thema sy'n cwmpasu'r dogfennau hyn yw ymrwymiad parhaus Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru i gyflawni o fewn y tri chylch yma, gyda Cymru'n Un yn neilltuoel yn gwneud yn glir y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gefnogi'r Cynllun Sector Gwirfoddol a hyrwyddo rôl y sector ymhellach wrth lunio polisi⁹.

Yn gysylltiedig â'r ymrwymiad yn Cymru'n Un, fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth fod y ffordd y caiff y sector ei hunan ei ariannu yn gymhleth a hefyd yn ansicr. Mae'r Trydydd Dimensiwn yn amlinellu prif ffynonellau cyllid i'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan sôn am o leiaf saith gwahanol ffynhonnell o gyllid sy'n bwydo'r sector, gyda llywodraeth, llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhyngddynt yn cyfrannu tua thraean o'r holl incwm¹⁰, er bod gwahaniaeth pwysig o fewn cyfran y *“llywodraeth”* (a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector) yw bod hyn yn cynnwys

⁸ Y Trydydd Dimensiwn. Tudalen 6.

⁹ Cymru'n Un.

¹⁰ Y Trydydd Dimensiwn. Tudalen 5.

grantiau yn ogystal â chaffaeliad - h.y. contractau gwasanaeth y caiff cyrff y Trydydd Sector, drwy dendr agored, eu hymrwymo i'w darparu.

Mae'r Trydydd Dimension hefyd yn sôn am rai o'r materion a phroblemau sy'n gysylltiedig gydag ariannu'r Trydydd Sector, gan ddweud *“dros y blynyddoedd mae nifer o arferion wedi datblygu rhwng comisiynwyr y sector cyhoeddus a darparwyr y trydydd sector y mae angen eu herio erbyn hyn”*.

Yn neilltuol, mae'r Trydydd Dimensiwn yn sôn am y defnydd o *“drefniadau ‘cyllid cyfyngedig’”* a ddefnyddir gan rai cyllidwyr, sy'n atal cyrff Trydydd Sector rhag gwario arian y tu allan i *“ddibenion a ddynodwyd yn gadarn”*. Dywedir *“Nid yw hyn yn cymell gwneud arbedion effeithlonrwydd ac mae'n amharu'n annerbyniol ar ymreolaeth cyrff annibynnol”*¹¹.

Ymhellach, mae'r Trydydd Dimensiwn hefyd yn cyflwyno achos, yng nghyd-destun refeniw a sicrheir o gaffaeliad agored, *“Fel unrhyw ddarparwr arall, dylai fod corff trydydd sector yn gallu cyflwyno cais am gontract ar sail pris”* ac o ba sector bynnag y mae cynigydd yn dod *“ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu, dylid barnu'r perfformiad ar allbynnau, deilliannau ac effaith y gwasanaeth a gyflwynwyd”*¹².

Yn nhermau ymchwilio modelau ac ymagweddau eraill o ariannu a buddsoddi yn y Trydydd Sector, mae'r Trydydd Dimensiwn yn dweud y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar gyflwyno *“Cronfa Buddsoddi i Wasanaethu”*¹³. Cyhoeddwyd y gronfa hon yn ddiweddarach gan Dr Brian Gibbons, Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, ym mis Awst 2009.

¹¹ Y Trydydd Dimensiwn. Tudalen 40.

¹² Y Trydydd Dimensiwn. Tudalen 40.

¹³ Y Trydydd Dimensiwn. Tudalen 38.

“Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £1 miliwn dros dair blynedd ar gyfer y gronfa ‘Buddsoddi i Wasanaethu’. Bydd y gronfa hon yn cael adnoddau ychwanegol hefyd o Gronfa Buddsoddi Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Banc Unity Trust a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru”.

Bwriedir i'r gronfa ddarparu benthyciadau i cyrff Trydydd Sector ar logau is na'r farchnad agored. Defnyddir y benthyciadau i helpu cyrff Trydydd Sector i *“ddatblygu eu gwasanaethau ac i ganiatau iddyn nhw gystadlu am contractau sector cyhoeddus a'u hennill”*.

Wrth gyhoeddi'r gronfa, dywedodd y Gweinidog: *“Bydd buddsoddi'r arian hwn yng nghyrrff y trydydd sector yn eu helpu i fod yn fwy cynaliadwy. Mae hyn yn golygu y bydd pawb yn elwa am y bydd modd iddyn nhw gynnig gwasanaethau i gyrff sector cyhoeddus ar gyfraddau mwy cystadleuol”*¹⁴.

Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad God Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol. Mae'r Cod yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i Lywodraeth y Cynulliad wrth ariannu'r Trydydd Sector a'r hyn y mae'n ei ddisgwyl yn ôl ganddynt. Mae'r egwyddorion a amlinellir yn y Cod Ymarfer yn *“orfodol ar bob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyllidwyr trydydd parti eraill.”*

Ynddo, mae Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu ei nod o ddarparu *“fframwaith ariannu effeithiol a chynaliadwy”* yn seiliedig ar y 12 egwyddor allweddol ddilynol:

¹⁴ Ffynhonnell::

<http://wales.gov.uk/news/topic/publicservices/2009/090820investtoserve/?jsessionid=5WSvLR Rcnqtk6XFW0hVDQZTSPHnGn5hT9YPH4snTCHb2cPRFQYp!686978193?lang=cy>

Cyflawni amcanion polisi strategol - cydnabod y rôl y gall y sector ei chwarae i gyflawni'r rhain.

Parch at annibyniaeth y sector – cydnabod y gall y sector yn aml gyrraedd grwpiau na all Llywodraeth y Cynulliad eu cyrraedd a chynnig arloesedd.

Trafodaeth gynnar ac adeiladol - cyfleoedd i drafod cynigion ymhell cyn terfyn amser ffurfiol y cais ac yn gynnar yn y cylch cynllunio cyllideb.

Penderfyniadau amserol – rhoi gwybod am gymeradwyaeth grant i bob blwyddyn ariannol erbyn 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, oni bo rhybudd eisoes wedi'i roi am derfyn amser gwahanol, mewn amgylchiadau eithriadol.

Sicrwydd cyllid - ymrwymïadau tymor hwy, yn amodol ar berfformiad i gefnogi agwedd gynaliadwy at gyllid: hyd at 5-7 mlynedd ar gyfer cyllid craidd strategol ac ymrwymiad am oes i unrhyw brosiectau penodol a ariennir, gan ddarparu cyllid pendant i flwyddyn un a llinellau sylfaen clir i'r blynyddoedd dilynol.

Lefelau cyllid teg - Ni ddylai lefelau cyllid i'r sector gael eu pennu'n ddim gwahanol i sectorau neu asiantaethau eraill lle mae codiadau ar gyfer chwyddiant a thwf sydd o leiaf yn cyfateb i godiadau chwyddiant i sectorau cyhoeddus yn gallu eu hadeiladu i mewn i'r bidiau.

Adenilliad Cost Llawn – Bydd lefelau'r cyllid yn cael eu seilio ar egwyddorion Adenilliad Cost Llawn ac yn adlewyrchu hynny.

Caffaeliad teg - bydd caffaeliad yn seiliedig ar bris, nid cost, a bydd yn dilyn y canllawiau arfer da a nodir gan Gwerth Cymru yn *Canllawiau ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru*.

Talu ymlaen llaw - darpariaeth ar gyfer talu'r grant ymlaen llaw, lle y profir angen ariannol amlwg, yn cynnwys y cynlluniau hynny a ddarparwyd gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a chyllid Ewropeaidd a ddarperir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Triniaeth deg a rhesymol - trafodaeth a rhybudd rhesymol ymlaen llaw cyn unrhyw newidiadau neu benderfyniadau polisi a fyddai'n arwain at dynnu grantiau'n ôl neu eu lleihau yn sylweddol.

Agwedd cydweithredol at fonitro a gwerthuso - y gweithdrefnau symlaf sy'n cyd-fynd â sicrhau'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Pwy sy'n gwneud beth orau - ymrwymiad i ganfod lle y gallai'r Trydydd Sector fod yn arwain neu'n cyfrannu at weithredu polisiau newydd a gwneud yn siŵr fod fframweithiau ariannu priodol mewn lle.

Er bod gweithredu'r Cod Ymarfer wedi ei gyfyngu i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau a noddir yn uniongyrchol (ac felly heb fod yn rhwymo llywodraeth leol na chyrff Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu yng Nghymru, er enghraifft), mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ehangach dan deitl Caffael a'r Trydydd Sector: Canllaw ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ym mis Mawrth 2008. Mae'r canllawiau hyn, sydd wedi eu hanelu at holl gyllidwyr a chomisiynwyr y Trydydd Sector, yn amlinellu nifer o heriau allweddol a rhwystrau sy'n wynebu'r sector, yn cynnwys:

- *“Diffyg ymgynghori cynnar ac effeithiol â mudiadau trydydd sector wrth ddatblygu polisi, rhaglenni a strategaethau comisiynu, gan arwain at enghreifftiau o gaffael a becynnwyd yn wael, neu a oedd yn anatyniadol.*
- *Methiant i asesu gallu mudiadau trydydd sector yn iawn a'u*

hystyried yn ymgeiswyr o ddifrif.

- *Rhoi cydnabyddiaeth annigonol i gryfderau a sgiliau'r sector yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth allweddol.*
- *Caffaelwyr nad ydynt am gymryd risg yn poeni nad oes gan fudiadau trydydd sector yr adnoddau, y drefniadaeth na'r sgiliau busnes i gyflawni eu gwaith.*
- *Trafferthion i ddod i wybod am gyfleoedd contractio a gweithdrefnau caffael y sector cyhoeddus, ac at bwy i fynd i holi ynglŷn â dod yn gyflenwr/darparwr.*
- *Gall y duedd i ddefnyddio contractau sylweddol, fel fframweithiau cenedlaethol neu ranbarthol, ac i resymoli'r sylfaen gyflenwi olygu bod llawer o fudiadau trydydd sector yn colli cyfle, yn enwedig os ydynt yn cael trafferth i ddod yn is-gontractwyr i brif contractwyr.*
- *Gall gweithdrefnau cyn-gymhwyso a thendro cymhleth a chostus ac amserlenni afrealistig, manylebau cyfarwyddol a thelerau contract gormodol olygu bod gwahoddiadau i dendro yn aml yn cael eu rhoi o'r neilltu.*
- *Weithiau hefyd, bydd tuedd i gaffaelwyr ffafrio darparwyr sy'n adnabyddus iddynt.*
- *Dyraniad/cydbwysedd risgiau amhriodol rhwng mudiadau trydydd sector ac awdurdodau contractio.*
- *Contractau tymor byr sy'n creu gormod o risg i fudiadau trydydd sector, am na fyddant o bosibl yn gallu adennill y costau cychwyn na'r arian a fuddsoddwyd ganddynt. Yn y tymor hir, bydd contractau tymor byr yn ei gwneud yn anodd i gynllunio a buddsoddi er mwyn datblygu'r gwasanaeth.*
- *Gofynion monitro, gwerthuso ac adrodd gormodol sy'n anghymesur o ystyried maint y contractau.*
- *Llawer o awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i ddarparu grantiau ac yn symud i gyfeiriad tendro cystadleuol, a hynny heb egluro wrth ddarparwyr y rheswm am y newid."*

Aiff y canllawiau ymlaen i ddynodi'r hyn a ddisgrifia fel *“ffactorau llwyddiant hanfodol”* wrth ddelio a chomisiynu (yn bennaf drwy gaffaeliad mae'n rhaid dweud) y Trydydd Sector, sef:

- *“Deallwch y farchnad trwy gynnal deialog parhaus. Ymglyfarwyddwch â'r mudiadau trydydd sector sydd ynddi, eu trefniadau a'u galluoedd, a'u problemau o ran delio â chi.*
- *Ymgynghorwch cyn gynted â phosibl ynglŷn â hyfywedd polisiau, rhaglenni a strategaethau caffael. Dylai hyn fod yn rhan o broses gomisiynu ehangach.*
- *Agorwch gyfleoedd contract â mudiadau trydydd sector drwy ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn gyflenwr, a thrwy hysbysu'n eang mewn cyfryngau hygyrch am contractau, hyfforddiant a chymorth.*
- *Canolbwyntiwch y caffael ar allbynnau canlyniadau yn hytrach na phrosesau i gymell mudiadau trydydd sector a manteisiwch ar eu harbenigedd a'u harloesedd.*
- *Cadwch bopeth yn syml ac yn gymesur – bydd lleihau cymhlethdod a biwrocratiaeth yn ei dro yn lleihau costau'r caffael i fudiadau trydydd sector.”*

2.2.2 Adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol

Ym mis Mai 2008, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygiad dan deitl Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru.

Yn yr adroddiad, mae'r pwyllgor yn gwneud cyfres o 25 argymhelliad. Mae llawer ohonynt bellach wedi eu gweithredu, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu hanelu at Lywodraeth y Cynulliad. Yn gryno, argymhellodd yr adroddiad y dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- *“Gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, drin y trydydd sector fel partner strategol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus;*
- *Noddi cynlluniau peilot i roi hyfforddiant a chymorth i gyrff llai i fod yn fwy hunangynhaliol;*
- *Comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu a chynnal porth canolog sy’n rhoi gwybodaeth ar gyllid;*
- *Adolygu ei meini prawf ariannu er mwyn cynyddu’r arian craidd ar gyfer prosiectau sydd wedi’u sefydlu eisoes, gan gydnabod bod angen hybu arloesedd;*
- *Cadarnhau a hybu’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel cyfrwng priodol i reoli a chodi gwerth asedau segur ac asedau nad oes neb yn eu hawlio, a chronfeydd segur o wahanol ffynonellau. Diben hyn fyddai i’r Sefydliad greu cronfeydd gwaddol i greu ffynhonnell ariannu gynaliadwy, hirdymor, annibynnol ar gyfer y trydydd sector, a byddai’r Sefydliad yn ychwanegu gwerth drwy gyfrwng cronfeydd y sector preifat (busnesau, unigolion ac ymddiriedolaethau) i gynyddu’r buddsoddiad hwn mewn grwpiau cymunedol, prosiectau ac elusennau lleol ar hyd a lled Cymru;*
- *Monitro i ba raddau y mae’n arferol dyrannu cyllid am gyfnod o dair blynedd, yn unol â’r cod ymarfer ar gyfer ariannu; a nodi mathau o brosiectau y byddai’n fwy priodol dyrannu cyllid iddynt am gyfnodau hirach;*
- *Adolygu gwahanol ffrydiau ariannu i weld a fyddai’n bosibl eu cyfuno;*
- *Comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu’r dulliau o ddarparu arian i gyrff sy’n cynnig gwasanaeth i Gymru gyfan, er mwyn dileu’r angen i wneud nifer o geisiadau gwahanol am grantiau;*
- *Adolygu ei god ymarfer ar gyfer ariannu, er mwyn i gyrff yn y trydydd sector fedru cynllunio’u gwaith yn fwy strategol;*

- *Comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal adolygiad o godau ymarfer presennol y sector cyhoeddus ar gyfer ariannu'r trydydd sector, er mwyn nodi a rhannu arfer da;*
- *Comisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu ffurflenni cais a gweithdrefnau cysylltiedig;*
- *Cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am y cyllid sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd a sut y caiff ei ddyrannu drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a phorth gwybodaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y we;*
- *Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i sefydlu canolfan gynghori i gynorthwyo cyrff y trydydd sector gyda'u ceisiadau am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd;*
- *Ar ôl sefydlu'r Cynllun Cyfrifon Segur, gwneud yn siŵr bod Cymru'n cael y gyfran briodol o'r cyllid a bod swm sylweddol yn cael ei gyfeirio at y trydydd sector;*
- *Cynnal trafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i archwilio sut y gellid symleiddio gweithdrefnau dosbarthu arian a rhannu arfer da;*
- *Adolygu ei gweithdrefnau staff i sicrhau bod dulliau cyfathrebu hygyrch rhwng adrannau perthnasol a'r trydydd sector;*
- *Gwneud yn siŵr bod cyrff y trydydd sector yn ymwybodol o God Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cwynion;*
- *Cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer cydraddoldeb ar gyfer aelodau sy'n gyfrifol am gyfathrebu gydag a chefnogi cyrff Trydydd Sector;*
- *Adolygu ei gweithdrefnau monitro a gwerthuso i wneud yn siŵr eu bod yn cyfateb yn well i faint y grant dan sylw a'u bod yn canolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau yn hytrach na gweithgarwch;*
- *Gydag awdurdodau lleol a chyrff ariannu, gynnwys 'cyllidebu ar sail rhyw' fel mater penodol yn eu cod ymarfer ac yn eu gweithdrefnau monitro;*
- *Adolygu'r broses o farchnata a brandio ffynonellau ariannu'r trydydd sector gan gynhyrchu strategaeth i godi ymwybyddiaeth y*

cyhoedd o ffynhonnell yr arian; sut y caiff ei ddyfarnu a'r canlyniadau."

Argymhellodd y pwyllgor hefyd:

"Dylai'r holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff ariannu statudol eraill) ddatblygu a gweithredu codau ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector (dyrannu grantiau a chaffael gwasanaethau) erbyn mis Rhagfyr 2009."

2.2.3 Papur "Funding Paradigm" Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn 2008, paratodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru bapur trafod byr dan y teitl **Beyond the Paradigm - The Political Economy of Funding the Third Sector** (a gyhoeddwyd yn Saesneg yn unig) sydd mewn llawer cyswllt yn canolbwyntio ar nifer o faterion a nodwyd eisoes yn y Trydydd Dimensiwn. Dywedwyd fod dwy nod i'r papur. Y nod gyntaf oedd adolygu tueddiadau presennol mewn ariannu ar gyfer y Trydydd Sector a chynnig ffyrdd y medrai gwahanol gyrff ariannu ddatblygu dulliau a allai gynhyrchu cyrff cymunedol annibynnol ac yn ail i awgrymu bod lle i ddatblygu polisiau ariannu presennol i sicrhau buddion mwy cynaliadwy.

Yn nhermau adolygu profiad y cyfnod diweddar, mae'r papur yn amlinellu fod pum nodwedd sylweddol yn economi gwleidyddol ariannu dros y degawd diwethaf.

Y cynnydd graddol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog i'r Trydydd Sector. Yr agwedd fwyaf sylweddol o ariannu llywodraeth ganolog yw ei "arian craidd strategol" - ymrwymiad hirdymor i ariannu craidd ar gyfer cyrff, rhwydweithiau neu bartneriaethau sy'n gweithredu ledled Cymru.

Y cynnydd mewn cyllid llywodraeth leol.

Er bod llywodraeth leol yn gyllidwr craidd sylweddol i gyrff lleol, y tueddiad fu sicrhau cytundebau gwasanaeth lleol, a fedrai fod yn hirdymor.

Pwysigrwydd rhoddi.

Mae rhoddi yn hollbwysig i weithredu ac annibyniaeth y sector. Adlewyrchwyd hyn mewn cynlluniau diweddar y llywodraeth i symleiddio a hyrwyddo rhoddi a thrwy i elusennau ddatblygu cyfleoedd newydd ar gyfer rhoi sy'n apelio at gyhoedd ehangach. Mae cynlluniau o'r fath wedi atal y gostyngiad mewn rhoddi ond dim ond cynnydd gweddol fach a welwyd.

Y twf mewn masnachu.

Mae gan lawer o gyrff Trydydd Sector fwy o ddealltwriaeth ac arbenigedd mewn creu eu ffrydiau refeniw eu hunain er mai ychydig fydd byth yn dod (nac yn anelu i ddod) yn hollol hunanddigonol yn ariannol.

Y twf mewn grantiau refeniw tymor byr

Mae rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd a rhaglenni loteri wedi buddsoddi'n helaeth (tua £500,000,000 ers 1990) mewn prosiectau refeniw uchel effaith uchel yn darparu prosiectau ond mae'n amheus a fu effaith tymor hir yn gymesur â maint yr adnoddau a ddarparwyd.¹⁵

Aiff y papur ymlaen i herio meddwl am nifer o fythau a chonfensiynau am ariannu, sydd yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnwys:

- Bod tair blynedd yn gyllid hirdymor;
- Dim ond gyda chyllid tymor byr y medrir sicrhau deilliannau a gwasanaethau hirdymor;

¹⁵ Funding Paradigm, Tud. 3

- Dim ond am dair blynedd ar y tro y gall Llywodraethau ariannu;
- Mae ariannu hirdymor yn gwneud i gyrff orffwys ar eu rhwyfau a mynd yn ddiog;
- Mae llawer o ffynonellau o arian hirdymor/parhad;
- Mae arian Ewropeaidd, loteri neu ymddiriedolaeth yn strategaeth adael gynaliadwy;
- Mae bob amser gronfa ar hap yn dod;
- Ni all y Llywodraeth fforddio ariannu'r sector ¹⁶.

Mae'r papur wedyn yn amlinellu ei weledigaeth ar gyfer patrwm ariannu newydd yn seiliedig ar y chwe chynnig dilynol:

- Byddai pob ymgeisydd a chyllidwyr yn cymryd safbwynt tymor hwy – beth maent yn ceisio ei gyflawni erbyn 2015 neu 2020 dyweder.
- Dylai prosesau cais roi cymaint o sylw i'r tymor hwy ag i'r hyn sy'n digwydd yn syth.
- Dylai cyllidwyr fod yn glir p'un ai ydynt yn gyllidwyr tymor byr neu hirdymor
- Byddai swyddogaethau a gwasanaethau hirdymor yn cael eu hariannu dros gyfnodau hirdymor cylchol yn yr un ffordd â gwasanaethau statudol.
- Byddai ymrwymiad y Llywodraeth i ddarpariaeth y Trydydd Sector yn cael ei gefnogi a'i farnu gan % o'r gyllideb gynhwysfawr a aiff i'r sector (e.e. 1% o gyllideb iechyd).
- Byddai cyllidwyr tymor byr yn ystyried targedu eu cyllid tymor byr ar fudd, asedau a galluoedd, hirdymor, sy'n cryfhau cymdeithas sifil annibynnol, grymuso cymunedau, cynyddu cymhelliant a sicrhau canlyniadau boddhaol a chynaliadwy.

Yn olaf, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cyflwyno achos dros raglenni arloesedd a fyddai'n rhoi syniadau a dulliau y medrid eu copïo, eu ffranseisio neu eu cynyddu mewn ardaloedd eraill gan roi

¹⁶ Funding Paradigm. Tud. 5.

llwybr tarw i gyllid prif ffrwd posibl megis Croesffyrdd neu Homestart.

Yn ôl y papur, byddai rhaglenni arloesedd o'r fath yn gwahodd ceisiadau am grantiau, benthyciadau a gwaddol¹⁷ a fyddai'n helpu i greu ffrydiau cyllid anstatudol neu adnoddau a fyddai yn eu tro yn cynnal gweithgaredd neu sefydliad a medrent gynnwys:

- Grant/benthyciad i brynu adeiladau neu dir ond dim ond os medrai defnyddio'r ased honno arddangos ffrwd refeniw y medrid un ai ei dychwelyd mewn benthyciad neu ei defnyddio i ariannu gweithgaredd neu wasanaeth (refeniw);
- Grant/benthyciad i hwyluso trosglwyddo a defnyddio asedau o'r sector cyhoeddus i'r Trydydd Sector;
- Grant/benthyciad i brynu offer neu gyfarpar (e.e. generaduron, melinau gwynt, print, technoleg gwybodaeth) a fedrai, yn ei dro, gynhyrchu ffrwd refeniw;
- Gwaddol i greu ffrwd refeniw diogel a pharhaus a gwasanaeth (e.e. dan gynllun refeniw-dwys presennol, medrai ymgeiswyr wneud cais am £1m dros 3 blynedd i ddatblygu gwasanaethau yn cyflogi 4 o staff datblygu. Po fwyaf y grant refeniw, y lleiaf tebygol yw o barhau ar ôl 3 blynedd. Dull arall fyddai rhoi'r £1m fel gwaddol ac ariannu swydd datblygu rhan-amser o'r llog am byth);
- Cynlluniau sy'n gynaliadwy yn ôl dyluniad yn cynnwys cymorth cydfuddiannol, gwirfoddoli a chynlluniau banc amser;
- Gwaddol i greu cynlluniau grantiau bach annibynnol am byth¹⁸.

¹⁷ Gwaddol ariannol yw trosglwyddiad arian neu eiddo a gyfrennir i sefydliad, fel arfer gyda'r amod ei fod yn cael ei fuddsoddi, a bod y prif swm yn parhau'n gyfan am byth neu am gyfnod a ddiffiniwyd. Mae hyn yn galluogi'r cyfraniad i gael effaith dros gyfnod hirach na phe gwerid y cyfan ar unwaith. Gelwir cyfanswm gwerth buddsoddiadau sefydliad fel gwaddol y sefydliad. Ffynhonnell: Wikipedia.

¹⁸ Funding Paradigm. Tudalen 7.

2.3 Cyd-destun y Deyrnas Unedig

Bu nifer o ddatblygiadau polisi neu ddeddfwriaeth, na chawsant eu hysgogi yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd serch hynny wedi effeithio ar y Trydydd Sector yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- **Deddf Cyfrifon Segur Banciau a Chymdeithasau Adeiladu 2008.** Cafodd Deddf Cyfrifon Segur Banciau a Chymdeithasau Adeiladu ei phasio drwy Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2008. Un o brif egwyddorion y ddeddf yw ail-fuddsoddi arian heb ei hawlio mewn cyfrifon yn ôl i'r gymuned.
- Cafodd cyfraith elusennau eu diwygio gan **Y Ddeddf Elusennau**, Tachwedd 2006. Ei nod oedd gwella rheoleiddio codi arian elusennol a gostwng rheoleiddiad y sector, yn arbennig i elusennau bach. Anelai roi diffiniad clir o statws elusennol gyda phwyslais ar fudd y cyhoedd. Roedd y Ddeddf hefyd yn moderneiddio swyddogaethau a phwerau'r Comisiwn Elusennau.
- Yn 2005, lansiwyd y **Cwmni Budd Cymunedol** gan Lywodraeth y DU, gan roi dull cyfreithlon a reoleiddir yn ysgafn ar fenter gymdeithasol.
- Mae'r pecyn **Cael Prydain i Roddi** a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2000 yn cyflwyno nifer o newidiadau i'r fframwaith er mwyn gwneud rhoi treth-ffeithiol yn fwy hyblyg a dilynwyd hyn gan gyfres o newidiadau technegol a gwaith hyrwyddo, yn cynnwys yr **Ymgyrch Rhoddi** a'r **Cynllun Grantiau Rhoddi Cyflogres** i annog mwy o ddiwylliant rhoi.
- Roedd **Building the Future Together - Labour's policies for partnership between Government and the Voluntary Sector**

(1997) yn nodi'r cyd-destun polisi ar gyfer compactau rhwng y Llywodraeth a'r Trydydd Sector. Yn 1998 cytunwyd ar Gompact yn cytuno ar y rheolau sylfaenol ar gyfer cysylltiadau rhwng Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol. Rhoddodd fframwaith i lywio gwaith partneriaeth rhwng y wladwriaeth a'r Trydydd Sector.

Mae Compactau lleol yn awr ar waith neu'n cael eu datblygu yn 99% o ardaloedd awdurdodau lleol Lloegr ac mae hefyd gytundebau lefel lleol ar gyfer gwaith partneriaeth. Penodwyd Comisiynydd ar gyfer y Compact yn Lloegr yn 2007. Roedd fersiwn newydd o'r Compact yn Lloegr ar fin ei gyhoeddi adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'r darlun yn wahanol yng Nghymru. Mae amcanion y Cynllun Sector Gwirfoddol yng Nghymru yn cynnwys sicrhau cefnogaeth llywodraeth leol drwy hyrwyddo compactau lleol a chytuno ar lefelau o gyfraniadau ariannol i brosiectau adfywio sector gwirfoddol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnal arolwg yn rheolaidd yng nghyswllt gweithredu Compactau yng Nghymru ac adroddwyd y diweddaraf i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym mis Tachwedd 2009. Dangosodd canfyddiadau allweddol Arolwg Compact Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2009:

- *“Ni cheir dim trefniant cyswllt strategol a chompact-seiliedig cyffredinol effeithiol rhwng y trydydd sector a'r llywodraeth leol yn Abertawe, Torfaen na Phen-y-bont ar Ogwr, fel y flwyddyn ddiwethaf, na chwaith yn Rhondda Cynon Taf erbyn hyn. Bydd angen i effeithiolrwydd y trefniadau yn Sir Fynwy gael ei werthuso'n lleol.*
- *Pryd bynnag y mae Cydbwyllgorau Cyswllt yn bodoli, ceir cynrychiolaeth dda o lywodraeth leol a'r Byrddau Iechyd Lleol.*

- *Ym mhob ardal ond un mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn aelod craidd o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac mae 8 yn cynnwys cyrff eraill o'r trydydd sector.*
- *Nid yw'r Codau Ymarfer Cyllido wedi cael eu mabwysiadu'n ddigon eang o hyd mewn awdurdodau unedol, er bod hyn yn flaenoriaeth i'r trydydd sector.*
- *Y mae bron y cyfan o'r ymatebwyr yn ystyried bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, partneriaethau, cyllid Ewropeaidd, gwirfoddoli, craffu a chomisiynu'n bwysig. Rhoddir sylw iddynt, i raddau amrywiol gan Gydbwyllgorau Cyswllt.*
- *Gwnaeth Sir Ddinbych, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr sylw fod angen gwella'r berthynas â'r awdurdod lleol."*

2.4 Lloegr

Er bod llawer o bethau'n debyg ac yn gorgyffwrdd rhwng y Trydydd Sector yn Lloegr a Chymru, mae cryn wahaniaeth yn y cyd-destun polisi. Caiff agwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig at y Trydydd Sector ei nodweddu gan gydlynw gwaith y llywodraeth drwy adnodd canolog penodol.

Mae **Swyddfa'r Trydydd Sector** yn rhan o Swyddfa'r Cabinet. Mae'n arwain gwaith ar draws y llywodraeth i gefnogi a hyrwyddo amgylchedd lle bydd y Trydydd Sector yn ffynnu. Ei briff yw galluogi'r sector i ymgyrchu dros newid, darparu gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo menter gymdeithasol a chryfhau cymunedau. Mae'n cynnig cyswllt gweinidogol uniongyrchol ar bob mater Trydydd Sector ac mae wedi datblygu'r rhaglenni cyllido strategol presennol.

“The OTS was created at the centre of government in May 2006 in recognition of the increasingly important role the Third Sector plays in both society and the economy.”¹⁹

Yn 2002 a 2004, cynhaliwyd **adolygiadau trawsbynciol** yn Lloegr ar rôl y Trydydd Sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Datblygodd yr adolygiadau hyn gydnabyddiaeth o rôl y sector wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus (yn cynnwys fel ffordd arall o ddarparu gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd o fewn y sector cyhoeddus) ac yn nodi pwysigrwydd buddsoddi yng ngalluedd y sector.

Cyhoeddwyd **cynllun gweithredu ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus gan y Trydydd Sector** ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n nodi mesurau i wella'r tirlun comisiynu a chaffaeliad ymhellach, gan ddod â gweithgaredd o bob rhan o'r Llywodraeth ynghyd. Y pedair prif raglen yn y Cynllun Gweithredu oedd: Futurebuilders, Capacitybuilders, y rhaglen Asedau Cymunedol a'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Comisiynwyr Trydydd Sector (a gaiff ei rhedeg gan IDeA, yr asiantaeth gwella a datblygu).

Mae **FutureBuilders** yn rhoi mynediad i gyfalaf benthyg ar gyfer cyrff y Trydydd Sector. Mae cyfrifoldeb y Llywodraeth am Futurebuilders yn gorwedd o fewn Swyddfa'r Trydydd Sector a chaiff ei oruchwyllo gan y Gweinidog dros y Trydydd Sector. Craidd y rhaglen yw'r Gronfa Futurebuilders (Lloegr) o £125 miliwn a gaiff ei rhedeg ar hyn o bryd gan Futurebuilders England Cyf. Gwnaed £25 miliwn ychwanegol o gyllid ar gael yn 2007/08 gan ddod â'r Gronfa i gyfanswm o £150 miliwn. Roedd £65 miliwn arall ar gael ar gyfer parhad y rhaglen o 2009.

Caiff **Capacitybuilders** a'i raglenni hefyd ei hariannu gan Swyddfa'r Trydydd Sector. Dros y cyfnod 2008-2011 mae Swyddfa'r Trydydd

¹⁹ Ffynhonnell: OTS.

Sector wedi dyrannu hyd at £88.5 miliwn. Mae Capacitybuilders yn buddsoddi hyn mewn amrywiaeth o raglenni sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth i'r Trydydd Sector. Mae gwasanaethau yn cynnwys gwefan a rhaglen allgymorth. Bydd Capacitybuilders yn cynnig cyllid uniongyrchol drwy raglen foderneiddio sy'n werth £8m mewn partneriaeth gyda Futurebuilders. Mae Capacitybuilders hefyd yn rhedeg rhaglen £17.5m i gyflawni anghenion cefnogaeth y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau mewn ardaloedd ymylol. Mae'n debyg i'r rhaglen "Buddsoddi i Wasanaethu" a gaiff ei datblygu yng Nghymru.

Nod y rhaglen £30 miliwn **Asedau Cymunedol**, a gaiff ei harwain gan y Gronfa Loteri Fawr, yw grymuso cymunedau drwy annog trosglwyddo asedau awdurdodau lleol na chaiff eu defnyddio'n llawn i gyrrff lleol. Mae'r gronfa yn darparu grantiau ar gyfer adnewyddu adeiladau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff gofodau a chyfleusterau ansawdd uchel eu trosglwyddo i berchnogaeth y Trydydd Sector. Lansiodd y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru Raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru ym mis Hydref 2009.²⁰

Mae'r **rhaglen genedlaethol ar gyfer comisiynwyr y Trydydd Sector**, a gaiff ei threfnu gan IDeA (yr asiantaeth gwella a datblygu) yn anelu i wella dealltwriaeth comisiynwyr o botensial y Trydydd Sector wrth gynllunio, cyflwyno a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhaglen yn cysylltu gyda hyd at 2,000 o gomisiynwyr sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y gall y Trydydd Sector ei wneud wrth gomisiynu gwasanaethau cyhoeddus.

Cyflwynodd **strategaeth ar gyfer llwyddiant 2002 a chynllun gweithredu menter gymdeithasol 2006** weledigaeth ar gyfer sector menter cymdeithasol cynaliadwy. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys ymrwymadau gan 12 adran a chyff llywodraeth. Adolygir y Cynllun

²⁰ Ffynhonnell: http://www2.biglotteryfund.org.uk/prog_community_asset_transfer

Gweithredu yn flynyddol a rhoddir adroddiad ar gynnydd adrannau ar eu hymrwymadau. Er enghraifft, un cam gweithredu oedd ymgynghori ar ddefnydd £10m i'w gyd-fuddsoddi mewn menter gymdeithasol. Rhoddir adroddiad blynyddol ar ddiweddariadau gweithredu.

Ar lefel leol yn Lloegr, mae partneriaethau strategol lleol yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno cynlluniau cymunedol. Mae'r Trydydd Sector yn ymwneud yn llawn gyda'r partneriaethau hyn. Fe'u cyflwynwyd fel canlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Caiff arian ei dynnu lawr o lywodraeth ganolog drwy'r awdurdod lleol, a'r system o gytundebau ardal lleol. Mae rhai ohonynt wedi datblygu rôl gomisiynu strategol.

Yn ôl adroddiad diweddar gan y Comisiwn Archwilio, mae aeddfedrwydd partneriaethau yn ffactor sy'n cyfrannu at y gallu i gynnwys eraill a chynnal comisiynu strategol. Mae partneriaethau aeddfed yn fwy tebygol o gytuno i rannu'r adnoddau (yn cynnwys i gyrrff y Trydydd Sector). Er enghraifft, mae Partneriaeth Oldham yn rhannu £15 miliwn o'r Grant Ardal ar draws pum thema yn unol â blaenoriaethau a gytunwyd yn lleol.²¹

2.5 Yr Alban

Caiff y dull o ariannu'r Trydydd Sector yn yr Alban ei nodweddu gan bwyslais diweddar cryf ar gefnogaeth i raglenni buddsoddi.

Mae **strategaeth economaidd y Llywodraeth** (2007) yn sôn am y Trydydd Sector fel rhan hollbwysig o'r dull cyflwyno strategaeth.: *"It is only by working together – across government and across the public, private and Third Sectors – that we can achieve our purpose"*.²² Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu dwy system ariannu sylweddol yn yr Alban, Cronfa Buddsoddi'r Alban a Chronfa Menter Trydydd Sector, sy'n cefnogi cyflenwi'r strategaeth.

²¹ Comisiwn Archwilio Working Better Together

²² Government Economic Strategy Llywodraeth yr Alban 2007

Mae **The Enterprising Third Sector Action Plan** yn nodi'r amodau cywir ar gyfer i fenter yn y Trydydd Sector ffynnu gan alluogi'r Trydydd Sector i fod â rôl lawn wrth ddatblygu, cynllunio a chyflwyno polisi a gwasanaethau yn yr Alban. Mae'n nodi pwysigrwydd y Trydydd Sector wrth helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei nod o dwf economaidd cynaliadwy ac fe'i bwriedir i helpu i gyrraedd dangosydd cenedlaethol Llywodraeth yr Alban i gynyddu trosiant yr economi cymdeithasol. Mae'n cynnwys cyfres o gamau gweithredu i gael eu cyflwyno dros gyfnod 2007-11 yn canolbwyntio ar saith amcan:

- Agor marchnadoedd i fenter y Trydydd Sector;
- Buddsoddi mwy deallus;
- Hyrwyddo entrepreneuriaeth gymdeithasol;
- Buddsoddi mewn sgiliau, dysgu ac arweinyddiaeth ar draws y Trydydd Sector;
- Darparu cefnogaeth ar gyfer twf busnes;
- Codi proffil menter yn y Trydydd Sector;
- Datblygu'r sylfaen tystiolaeth.

Ariannir y cynllun gweithredu drwy £8.75 miliwn o'r £93 miliwn a ddynodwyd ar gyfer datblygu a chefnogi'r Trydydd Sector yng nghyllideb Llywodraeth yr Alban ym mis Tachwedd 2007. Yn ychwanegol at hyn, dyrannwyd £30 miliwn i Gronfa Buddsoddi'r Alban a £12 miliwn ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol mewn mentrau Trydydd Sector drwy Gronfa Fenter y Trydydd Sector.

Mae'r ymagwedd yn cynnwys y mesurau allweddol dilynol:

- **Gostwng biwrocratiaeth.** Mae Cam Gweithredu 2.4 yn y cynllun gweithredu yn ymrwmo'r Llywodraeth i weithio mewn modd cydlynol gyda rheoleiddwyr a'r arianwyr hynny sy'n cefnogi menter a chynaliadwyedd ariannol o fewn y Trydydd Sector. Bydd hyn yn cynnwys arianwyr sydd wedi sefydlu eisoes megis y Loteri Fawr

yn ogystal â chynlluniau newydd yn cynnwys Inspiring Scotland ac unrhyw ddosbarthydd sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar gyfrifon banc segur. Byddant yn parhau i weithio gyda phob lefel o Fforwm Cyllidwyr yr Alban, gan adeiladu ar waith megis yr adroddiad Turning the Tables a gyhoeddwyd yn ddiweddar.²³

- **Ysgogi cyllid newydd ar ran y Trydydd Sector.** Cam Gweithredu 2.5 yw annog datblygu cyllid newydd ar gyfer gweithgaredd menter. Dywedir y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda darparwyr cyllid benthyca yn cynnwys Social Investment Scotland a'r banciau masnachol i annog mwy o fuddsoddiad yn y Trydydd Sector ac i sicrhau fod ystod o gyfleoedd ar gael i'r sector. Dylai hyn gynnwys cynnyrch megis cyfalaf 'amynedd', lle medrir rhoi 'gwylliau' ad-dalu i'r sawl sy'n derbyn benthyciadau, a chyllid math ecwiti, lle mae'r buddsoddwr yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y fenter. Defnyddir yr ysgogiad a roddir gan ariannu uniongyrchol y Llywodraeth (drwy Gronfa Buddsoddi'r Alban a'r Gronfa Menter Trydydd Sector) i gynyddu i'r eithaf y swm o gyllid benthyca a gymerir gan gyrff unigol.
- Mae **Cronfa Buddsoddi'r Alban (The Scottish Investment Fund)** yn gronfa £30miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth yr Alban i gael ei chyflwyno dros y cyfnod 2008-2011. Prif nod y gronfa yw meithrin gallu, galluedd a chynaliadwyedd ariannol yn y Trydydd Sector i'w helpu i gyflawni ei botensial ac i gyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol cyffredinol Llywodraeth yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi penodi Social Investment Scotland (SIS) yn bartner cyflenwi arweiniol ar gyfer y Gronfa. Mae'r gronfa yn darparu cymysgedd o fuddsoddiad strategol a hefyd gyllid benthyca i gyrff a ystyrir i fod yn barod ar gyfer buddsoddiad. Mae'r rhain yn gyrff mwy yn y Trydydd Sector sydd angen buddsoddiad o fwy na £100,000. Gan mai dim ond yn ddiweddar y

²³ Enterprising Third Sector Action Plan Llywodraeth yr Alban 2007

sefydlwyd hyn, ni chynhaliwyd unrhyw waith gwerthuso i asesu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y gronfa hon wrth gyflawni amcanion.

- Mae **Cronfa Menter y Trydydd Sector (The Third Sector Enterprise Fund)** yn gronfa £12 miliwn i helpu cyrff presennol y Trydydd Sector i ddod yn fwy cynaliadwy a chynyddu eu gallu a'u galluedd. Mae cyrff cymwys ar gam cynharach o ddatblygu menter nag ymgeiswyr i'r Scottish Investment Fund. Mae'r gronfa yn cynnig dyfarniadau o rhwng £25,000 a £100,000 i gyrff Trydydd Sector a all ddangos sut y bwriadant wneud y newidiadau sylweddol trawsnewidiol i'w capasiti, gallu a chynaliadwyedd. Nid oedd y gronfa hon wedi ei hadolygu na'i gwerthuso adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
- **Partneriaethau Cynllunio Cymunedol (Community Planning Partnerships).** Llofnodwyd concordat yn 2007 rhwng Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Leol. Roedd Cytundebau Deiliant Sengl yn elfen allweddol. Y cytundebau hyn yw'r modd ar gyfer i'r Partneriaethau gytuno ar eu blaenoriaethau strategol ar gyfer eu hardal leol. Caiff y blaenoriaethau hyn eu mynegi fel deilliannau i gael eu cyflawni gan y partneriaid, un ai'n unigol neu ar y cyd, tra'n dangos sut y dylai'r canlyniadau hynny gyfrannu at Ddeilliannau Cenedlaethol perthnasol Llywodraeth yr Alban. Drwy'r Partneriaethau hyn, mae arweinwyr lleol yn gweithio gyda chymunedau, y trydydd sector a'r sector preifat i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal a gweithio at y weledigaeth honno. Gall cyrff Trydydd Sector ymwneud gyda'r cynllunio lefel leol yma i gael mynediad i gyllid lleol.
- **Cronfa Cadernid y Trydydd Sector (Third Sector Resilience Fund.).** Lansiodd Llywodraeth yr Alban gronfa gadernid arbennig

£1.7 ym mis Medi 2009 miliwn i helpu cyrff gwirfoddol ac elusennau i wrthsefyll effeithiau'r dirwasgiad.

2.6 Gogledd Iwerddon

Mae ffocws polisi'r Llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon yng nghyswllt y Trydydd Sector wedi canolbwyntio i raddau helaeth mewn blynyddoedd diweddar ar ddatblygu perthynas fwy cadarnhaol rhwng Llywodraeth a'r sector ei hunan.

Ffurfiwyd tasglu yn 2003 i ymchwilio adnoddau i'r sector gwirfoddol a chymunedol. Cyhoeddodd y tasglu bapur safbwynt *Pathways for Change* ²⁴. ddiwedd 2003. Adeg lansio'r papur, siaradodd John McGrath, cadeirydd y tasglu, am y cyd-destun ar gyfer gwaith y tasglu:

*"There are real anxieties and concerns... across the sector about the future of services, projects, organisations and jobs. Short-term funding programmes delivered through grants or contracts, many providing support for only one year, has made it difficult for organisations to plan properly and to develop work of a high quality. There are also concerns about less money being available from 2006, partly due to the ending or restructuring of EU funding"*²⁵

Ar ôl cyfnod o ymgynghori, cyhoeddwyd adroddiad y tasglu ym mis Hydref 2004 dan deitl *"Investing Together"*²⁶. Ymatebodd y llywodraeth i hyn wedyn gyda pholisi dan enw "Positive Steps".

Mae **Positive Steps** yn strategaeth draws adrannol sy'n cydnabod cyfraniad gwerthfawr y sector at gyflawni amcanion y Llywodraeth ac yn ymrwymo'r Llywodraeth a'r sector fel ei gilydd i ddatblygu'r

²⁴ Pathways for Change – a consultation document Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon 2003

²⁵ Datganiad i'r Wasg 2 Rhagfyr 2003 Adran Datblygu Cymdeithasol

²⁶ Investing Together. Report of the Task Force on Resourcing the Voluntary and Community Sector, Hydref 2004. Ar gael o www.taskforcecvcsni.gov.uk

bartneriaeth ymhellach er budd y gymuned ²⁷

Prif fyrdwn y polisi oedd gostwng biwrocratiaeth a darparu sicrwydd cyllid ar gyfer grwpiau oedd yn gwneud gwaith hanfodol wrth wella cymdeithas yng Ngogledd Iwerddon. Addawodd Positive Steps hwyluso ymgyfraniad y sector gwirfoddol a chymunedol mewn cyflwyno gwasanaeth.

Sefydlwyd grŵp gweithredu Positive Steps ym mis Tachwedd 2005 yn cynnwys uwch swyddogion o fewn pob adran gyda chyfrifoldeb am oruchwylio'r berthynas gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol. Cadeiriwyd y Grŵp Gweithredu gan y Gweinidog Datblygu Cymdeithasol a oruchwyliodd weithredu'r ymrwymadau a wnaed yn Positive Steps.

Roedd nodweddion allweddol Positive Steps yng nghyswllt cyllid y Trydydd Sector yn cynnwys:

- **Adennill costau llawn:** mae'n rhaid i cyrff gwirfoddol a chymunedol fedru cynnwys gorbenion llawn yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth sydd wedi'i contractio;
- **Ariannwr arweiniol:** dywedir ei bod yn arfer da i gefnogi cyllidwr arweiniol lle mae derbynwyr yn derbyn cyllid o fwy nag un corff ariannu. Rôl y cyllidwr arweiniol fyddai symleiddio a chydlynu trefniadau monitro ac arolygu. Byddai un archwiliad wedi'i gydlynu gan y cyrff ariannu gyda'r nod amlwg o atal defnydd adnoddau diangen ar gyfer arianwyr a'r rhai a ariennid;
- **Cyllid tymor hwy:** ymrwymodd Positive Steps y Llywodraeth i hyrwyddo dull saith i ddeng mlynedd at raglenni gan ganolbwyntio

²⁷ POSITIVE STEPS The Government's Response to Investing Together: Report of the Task Force on Resourcing the Voluntary and Community Sector Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon 2005.

ar ddeilliannau. Mae'r ddogfen bolisi yn cydnabod ei fod yn bolisi a fyddai'n cymryd amser i'w weithredu ac y byddai angen cadw rhai rhaglenni ariannu tymor byr i gefnogi grwpiau neu ddulliau newydd a fedrai, pe byddent yn llwyddiannus, fod â'r potensial i ddenu cyllid tymor hwy. Roedd y newid i'r cyllid tymor hwy hwn yn cynnwys proses adolygu dair-blyneddol;

- **Trefniadau monitro mwy cadarn:** Dywed yr adroddiad y bydd y Llywodraeth yn monitro a gwerthuso perfformiadau wrth symud tuag at ganlyniadau tymor hwy gydag adolygiadau rheolaidd o leiaf bob tair blynedd yn unol gyda chylch chyllideb arferol y Llywodraeth²⁸;
- **Cyllid cysylltiedig â deilliannau:** Gwnaed cysylltiad clir rhwng cyllid a deilliannau. Roedd y dull seiliedig ar ganlyniadau yn seiliedig ar y gred fod gan ddangosyddion cyfalaf cymdeithasol y potensial i fesur gwerth ychwanegol gweithgaredd gwirfoddol a chymunedol a bod angen eu hymwreiddio mewn perthynas ariannu o'r cychwyn cyntaf²⁹.

Roedd gwerthuso ac adolygu rheolaidd yn rhan bwysig o Positive Steps ac roedd yn cynnwys arolwg panel rheolaidd. Dengys yr adroddiadau gwerthuso fod yr ymagwedd Positive Steps wedi ysgogi effeithiau cymysg. Ymddengys fod llawer o'r elfennau heb fod yn gysylltiedig ag ariannu wedi gwneud cynnydd rhesymol. Dywedodd y Gweinidog, pan gyhoeddwyd y gwerthusiad yn 2008, fod gweithredu cynllun Positive Steps wedi arwain at newid sylweddol a mwy o gysondeb o ran ymarfer mewn ymwneud â'r sector.³⁰

²⁸ POSITIVE STEPS The Government's Response to Investing Together: Report of the Task Force on Resourcing the Voluntary and Community Sector Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon 2005 tudalen 5

²⁹ POSITIVE STEPS The Government's Response to Investing Together: Report of the Task Force on Resourcing the Voluntary and Community Sector Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon tudalen 6

³⁰ Datganiad i'r Wasg 4 Mehefin 2008 Adran Datblygu Cymdeithasol Councillor Richie report 'positive steps' progress

Fodd bynnag, ni fu ymateb y Trydydd Sector mor gadarnhaol. Dim ond 7.9% o'r ymatebwyr mewn arolwg yn 2008 o aelodau Cyngor Gweithredu Gogledd Iwerddon (NICVA) a deimlai y byddai gan Positive Steps effaith mawr dros y pum mlynedd nesaf, oedd yn is nag arolygon blaenorol. Yn ôl NIVCA, roedd hyn yn dangos erydiad mawr mewn hyder.³¹ Dim ond un mewn pum ymatebydd a gredai fod Positive Steps wedi cael llawer iawn neu ryw effaith ar sut y maent yn gweithredu ac yn rhyngweithio gyda llywodraeth.

Ar yr elfennau hynny sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at gyllid, canfu'r arolwg mai dim ond 5.1% o cyrff oedd wedi gweld newid sylweddol yn y berthynas gyda Llywodraeth ar gyllid tymor hwy. Fodd bynnag, teimlai bron draean yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi sicrhau adenilliad cost llawn.

Canfu'r arolygon cynharaf ymhlith aelodau fod nifer gynyddol o ymatebwyr yn credu y bu llawer iawn neu beth newid cadarnhaol yng nghyswllt cyflwyno ymagwedd cyllidwr arweiniol. Fodd bynnag roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol erbyn 2008, gyda nifer yn cynyddu'n raddol (55.3%) o ymatebwyr y panel yn credu na fyddai dim yn newid mewn gwirionedd er gwaethaf yr hyn a argymhellir yn Positive Steps.

Yn ogystal â hybu polisi Positive Steps, mae Adran Datblygu Cymdeithasol Gogledd Iwerddon hefyd yn ymwneud â dwy raglen arall nodedig yn gysylltiedig ag ariannu'r Trydydd Sector, sef:

- **Cronfa Buddsoddi Canolog Gogledd Iwerddon (The Northern Ireland Central Investment fund for Charities).** Nodwyd fod llawer o elusennau yng Ngogledd Iwerddon yn canfod fod grym prynu'r incwm a dderbynient o fuddsoddiadau wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd. Er bod ymddiriedolwyr yn awr yn cael

³¹ Thornbury A [How positive was positive steps?](#) NICVA 2008

pwerau ehangach i fuddsoddi, nid oes gan rai elusennau ddigon o gyfalaf i'w galluogi i gadw eu hincwm tra nad yw eraill eisiau dod yn gysylltiedig â phroblemau buddsoddi. Sefydlwyd Cronfa Buddsoddiad Ganolog Gogledd Iwerddon ar gyfer Elusennau i helpu. Mae'r Gronfa yn rhoi cyfle i ymddiriedolwyr fuddsoddi'r cyfan neu ran o'u hasedau gyda budd goruchwyliaeth arbenigol. Caiff ei rheoli gan yr Adran Datblygu Polisi drwy reolwyr cronfeydd cydnabyddedig, ond caiff ei pholisi buddsoddi ei lywio gan Bwyllgor Ymgynghorol. Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn gwarantau llog sefydlog a chyfranddaliadau cyffredin dethol. Caiff y dyraniad rhwng gwarantau llog sefydlog a chyfranddaliadau ei newid o bryd i'w gilydd i gyfateb â newidiadau mewn amgylchiadau.

- Roedd **Y Gronfa Moderneiddio (The Modernisation Fund)** yn rhaglen a weinyddwyd gan yr Adran drwy 2007 a 2008. Amcan y gronfa foderneiddio oedd cefnogi cyrff gwirfoddol a chymunedol i foderneiddio a rhoi cyfle iddynt ddod yn fwy cynaliadwy a darparu gwasanaethau newydd a gwell. Sefydlwyd rhaglen gyfalaf £15 miliwn i annog cydweithio a rhannu adnoddau ymysg cyrff gwirfoddol a chymunedol drwy ddatblygu seilwaith ffisegol. Rhoddodd y rhaglen flaenoriaeth neilltuol ar fynediad i wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig. Roedd y bartneriaeth cyflenwi yn cynnwys tri sefydliad: Co-Operation Ireland, Community Evaluation Northern Ireland a Community Technical Aid.

2.7 Casgliadau

I grynhoi, dangosodd deunydd yr adolygiad bod:

- Y cyd-destun polisi yn dilyn datganoli ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru yn gyffredinol ac yn benodol yn nhermau ariannu'r sector wedi datblygu'n gyflym ac yn gefnogol iawn i'r sector;

- Y materion a'r heriau sy'n ymwneud â dosbarthu cyllid i'r Trydydd Sector (megis amserlenni ariannu, y cymysgedd o ddulliau cyllid sydd ar gael a chynaliadwyedd ariannu) yn ymddangos yn gyfarwydd i wneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Arweiniodd hyn at ymdrechion sylweddol a rhoi mesurau ar waith (megis y Cod Ymarfer Ariannu) i liniaru a cheisio goresgyn rhai o'r materion hyn. Fodd bynnag, mae'n glir fod rhai o'r cynlluniau hyn yn eu dyddiau cynnar ac, fel y mae Pwyllgor Diwylliant a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi, mae peth ffordd i fynd o hyd tuag at sicrhau gweithredu egwyddorion polisi ac ariannu yn llawn.
- Medrid dadlau fod y cymysgedd ariannu yng Nghymru hyd yma braidd yn geidwadol, ac wedi ei ffurfio'n bennaf o wahanol grantiau, cytundebau lefel gwasanaeth a chaffaeliad. Er fod arwyddion (e.e. gyda'r Gronfa Buddsoddi i Wasanaethu) bod Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau partner yn awyddus i roi cynnig ar ddulliau newydd, sy'n seiliedig yn fwy ar fuddsoddiad ac efallai flaengar (ac felly o bosibl gyda risg uwch, megis benthyciadau a gwaddolion), nid yw'r rhain wedi dwyn gwir ffrwyth yn y brif ffrwd hyd yma. Yn y cyd-destun yma, ymddengys fod Cymru'n llusgo tu ôl i'r Alban yn neilltuol lle ymddengys fod dulliau buddsoddi a gwaddol wedi datblygu llawer mwy fel dulliau ariannu prif ffrwd;
- Yn nhermau lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth a gynigir i gyllidwyr statudol, ymddengys fod Cymru o leiaf mewn safle cystal â'r gwledydd cartref eraill. Y mater i Gymru yn awr, fel y dangosir gan adroddiad Pwyllgor Diwylliant a Chymunedau y Cynulliad, yw sicrhau y caiff y cyfeiriad polisi ei ddilyn trwodd yn llawn gyda ffocws cadarn a pharhaus ar weithredu'r egwyddorion a amlinellir ym mholisiau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

3.0 CANFYDDIADAU - ADOLYGIAD DATA

Yn yr adran hon dadansoddwn wahanol ffynonellau data yn cyfeirio at ariannu'r Trydydd Sector o ffynonellau o Gymru a'r Deyrnas Unedig.

Ynnddi trafodwn:

- Materion diffiniadol yn effeithio ar ddadansoddiad data;
- Lefelau ariannu cyffredinol i'r Trydydd Sector;
- Perthnasedd maint sefydliad yng nghyd-destun ariannu;
- Gwariant sector cyhoeddus;
- Cymysgedd cyllid;
- Cyllid Llywodraeth Leol;
- Ffynonellau cyllid Ewropeaidd a rhyngwladol;
- Gwariant yn ôl maes gwasanaeth;
- Ffynonellau eraill o incwm;
- Lefelau boddhad cyrff sy'n derbyn cyllid gyda'r ffynonellau cyllid sydd ar gael.

3.1 Materion Diffiniadol

Un o brif ffynonellau data'r Deyrnas Unedig ar y Trydydd Sector yw'r NCVO (Cyngor Cenedlaethol Sefydliadu Gwirfoddol). Y diffiniad sector a ffafrir gan NCVO yw "*Cymdeithas Sifil*", sy'n cwmpasu diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r Trydydd Sector ond yn gyffredinol yn fwy eang. Er na chynigiwn ymchwilio yn fanwl rai o'r heriau a ddaw yn sgil gwahanol ddiffiniadau o ddehongli setiau data, mae'n bwysig deall y gall wneud gwahaniaethau sylweddol yn nhermau dadansoddi pan fo is-sectorau mawr megis cymdeithasau tai, prifysgolion, undebau llafur, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau budd cymunedol un ai'n cael eu cynnwys neu'n cael eu hallgau o wahanol ddiffiniadau.

3.2 Lefelau Ariannu Cyffredinol

Yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae tua 30,000 o gyrff Trydydd Sector yng Nghymru³². Roedd tua 870,000 o gyrff cymdeithas sifil³³ yn y Deyrnas Unedig yn 2006/07. Mae tua'r un nifer o gyrff fesul pen o boblogaeth ag sydd yn yr Alban ond yn sylweddol llai nag sydd yn Lloegr.

Amcangyfrif Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw bod incwm y Trydydd Sector yng Nghymru yn ystod 2007 tua £1.2bn y flwyddyn³⁴. Cafodd y swm yma ei amcangyfrif drwy ddadansoddi data arolwg ac adroddiadau blynyddol a baratowyd gan wahanol ddarparwyr cyllid i'r sector. Mae'r gwledydd cartref eraill yn cymryd ymagwedd debyg at gasglu data. Fel arwydd o faint y lefel yma o incwm, roedd y cyfanswm Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yng Nghymru yn yr un flwyddyn (2007) yn £44.3bn.

Mae cyfanswm incwm y Trydydd Sector yng Nghymru yn gyfwerth â thua £46,000 ar gyfer pob corff Trydydd Sector, er, fel y dangoswn yn ddiweddarach, nid yw'r adnoddau hyn wedi eu lledaenu'n wastad.

Dywed yr NCVO fod adnoddau'r sector wedi eu dosbarthu'n anwastad ar draws y Deyrnas Unedig:

“Although London and the South East are home to a disproportionate number of organisations... regions such as the North East and Wales benefit from a greater level of charitable expenditure than estimates previously expected”³⁵.

Mae'r tabl isod (Ffigur 1) yn rhoi trosolwg o faint y sector a'r cyllid a dderbyniwyd yn defnyddio data o bob un o'r gwledydd cartref. Mae

³² Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008

³³ UK Civil Society Almanac NCVO 2009

³⁴ Arolwg Ariannu Cynaliadwy WCVA 2007

³⁵ UK Civil Society Almanac NCVO 2009

angen gofal wrth gymharu'r data ar gyfer gwahanol wledydd oherwydd yr amrywiadau mewn diffiniadau o'r sector (a nodwyd eisoes), ond mae'r tabl yn cynnig dadansoddiad diddorol o sefyllfa cyllid Trydydd Sector y gwledydd cartref.

Ffigur 1: Crynodeb o'r data sydd ar gael ar gyfer y Trydydd Sector (neu'r diffiniad agosaf) yn ôl gwlad gartref (Data o 2006/07 os na nodir yn wahanol)

	Y Deyrnas Unedig	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer cyrff	870,000	4,700	45,000	26,000
Cyfanswm incwm	£116bn (cymdeithas sifil) neu £33.2bn (elusennau)	£570.1m	£4.1bn (2008)	£1.29bn
Asedau	£210bn	£737.5m	£8.6bn	
Incwm cymedrig	£38,000 (elusennau)	£121,000	£91,000	£46,000
Incwm fesul pen o boblogaeth	£540 (elusennau)	£321	£793	£431
Cyflogaeth	634,000	26,737	D/G	46,600
Cyfanswm cyllid statudol	£12bn	£349.8m	£1.56bn	£441m
% cyllid sy'n gyllid statudol	36%	61%	39%	44%
Cyllid statudol fesul sefydliad	£13,700	£73,800	£35,500	£17,000
Cyllid statudol fesul pen o boblogaeth	£195	£197	£309	£147
Amcangyfrif poblogaeth ganol 2008 (000oedd)	61,383	1,775	5169	2,993
Cyrff fesul 1000 o boblogaeth	14.2	2.6	8.7	8.6

*Ffynonellau: Almanac 2008 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru*³⁶ *NCVO Almanac 2009*³⁷, *SCVO*³⁸, *NICVA*³⁹

Byddai ein cyfrifiadau, o gofio am y cafeatau hyn, yn awgrymu fod gan Gymru nifer debyg o gyrff Trydydd Sector i'r Alban (yng nghyswllt nifer

³⁶ Collis B, *Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (drafft)*

³⁷ *UK Civil Society Almanac NCVO 2009*

³⁸ *The Third Sector Evidence Library Third Sector dataset* Llywodraeth yr Alban/ SCVO

³⁹ *State of the Sector V 2009 NICVA*

fesul pen o boblogaeth). Byddai'n ymddangos fod gan Ogledd Iwerddon nifer cymharol lai o gyrff Trydydd Sector fesul pen o boblogaeth.

Ymddengys fod cyllid cyfartalog cyrff Trydydd Sector yng Nghymru yn is nag ar gyfer cyrff Trydydd Sector yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae diffiniad yr Alban yn cynnwys cymdeithasau tai ac mae hyn yn cyfrif am bron draean (30%) o'r holl incwm, ond hyd yn oed ar ôl tynnu dyraniad cymdeithasau tai, mae cyllid cyfartalog fesul sefydliad yn parhau ychydig yn is yng Nghymru. Mae cyllid fesul corff elusennol yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ychydig yn is nag ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru.

Dengys cyllid ar gyfer y Trydydd Sector fesul pen o boblogaeth fod yr holl Drydydd Sector yng Nghymru yn derbyn tua £431 ar gyfer pob person, o gymharu â £793 yn yr Alban (ar ôl tynnu'r 30% ar gyfer cymdeithasau tai, mae'r ffigur yn nes ar £555 y pen). Mae'r nifer llawer llai o gyrff Trydydd Sector yng Ngogledd Iwerddon yn rhannu £321 fesul pen o boblogaeth. Mae elusennau cofrestredig (yn hytrach na'r grwpïad Cymdeithas Sifil ehangach) ar draws y Deyrnas Unedig yn derbyn £540 y pen o bob ffynhonnell. Byddai hyn yn awgrymu fod cyllid fesul pen o boblogaeth yng Nghymru yn isel o gymharu â'r gwledydd cartref eraill gan fod y diffiniad o'r Trydydd Sector yng Nghymru yn fwy eang nag yn unrhyw un o'r gwledydd cartref eraill (unwaith fod diffiniadau cymdeithas sifil a chymdeithasau tai yr Alban wedi'i heithrio).

Gan gadw mewn cof yr holl gafeatau am wahaniaethau mewn diffiniadau, mae'r cyfraniadau gan y sector statudol hefyd yn ymddangos yn gymharol isel yng Nghymru o'r gymhariaeth fynegol yma. Er bod y cyfanswm cyllid o 44% yn ymddangos i ddechrau yn fras debyg i ffigur yr Alban ar 39%, mewn termau llwyr, mae hyn mewn gwirionedd yn cynrychioli £17,000 fesul corff o gymharu â £35,500 fesul corff yn yr Alban a £73,800 yng Ngogledd Iwerddon. Ar draws y

Deyrnas Unedig, mae'r swm a werir yn £13,700 fesul corff neu £195 y person yn byw yn y Deyrnas Unedig. Gwerir £147 y person yng Nghymru a £309 yn yr Alban.

3.3 Ariannu a Maint y Sefydliad


Mae maint cyrff Trydydd Sector yn ystyriaeth bwysig wrth ddadansoddi patrymau ariannu. Mae sefyllfa ariannu cyrff yn amrywio i gymaint o raddau fel ei bod yn anodd dod i unrhyw gasgliad bras am y sector cyfan yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Yng Nghymru, mae gan 65% o gyrff incwm o lai na £10,000 a llai na 2 y cant sydd ag incwm o dros £1miliwn.⁴⁰ Yn yr Alban, sy'n nodweddiadol o'r gwledydd cartref yn y cyswllt hwn, mae gan 64% o gyrff Trydydd Sector drosiant o lai na £25,000 y flwyddyn a, gyda'i gilydd, mae'r cyrff hyn yn cyfrif am lai na 2% o gyfanswm incwm y sector. Yn y cyfamser, mae gan ddau y cant o gyrff Trydydd Sector yr Alban drosiant o fwy na £1 miliwn, ac yn mwynhau cyfran o 62% o holl incwm y sector.⁴¹

Yn ei Adroddiad Ariannu Cynaliadwy yn 2007, dengys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod y sefyllfa yng Nghymru yn eithaf tebyg, gyda nifer fach o gyrff gwirfoddol mawr yn derbyn y gyfran fwyaf o ddigon o'r holl refeniw i'r sector.

⁴⁰ Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (drafft)

⁴¹ Scottish Voluntary Sector Statistics SCVO 2007

Ffigur 2: Dosbarthiad incwm yn ôl dosbarth maint incwm⁴²



Caiff yn gymesur lai o gyrff mawr y Trydydd Sector eu lleoli yng Nghymru o gymharu â Lloegr ac mae'r un peth yn wir am ymddiriedolaethau dyfarnu grantiau⁴³.

Yng Nghymru, mae 4% o gyrff Trydydd Sector yn gyrff cenedlaethol, 5% yn gyrff rhanbarthol a 88% yn gyrff lleol. Mae 3% arall yn swyddfeydd cangen neu brosiect. Ni chyfeirir at y gwahaniaeth hwn yn gyffredinol yn nata'r gwledydd cartref ond mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ei ddefnyddio i ddangos rhai nodweddion diddorol am y Trydydd Sector yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf (dau draean) o'r gyrff cenedlaethol mawr wedi'u lleoli yng Nghaerdydd neu ardaloedd awdurdodau lleol De Cymru. Dim ond un ym mhob deg o'r gyrff mwy hyn sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae'r gyrff mwy hyn (a ddiffinnir fel bod â throsiant o fwy na £500,000, yn denu dros hanner holl incwm y Trydydd Sector yng Nghymru).⁴⁴


⁴² Prosiect Ariannu Cynaliadwy, Arolwg Llinell Sylfaen, Tachwedd 2007

⁴³ Y Trydydd Dimension: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

⁴⁴ Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (drafft) tudalen 32

Mae Ffigur 3 islaw yn dangos, o fewn y Deyrnas Unedig, bod cyrff llai yn llawer mwy tebygol o fod yn ddibynnol ar gefnogaeth gan ffynonellau heblaw'r llywodraeth megis rhoddion unigol. Mae Swyddfa'r Trydydd Sector yn amcangyfrif na chaiff 117,000 o gyrff sector gwirfoddol Lloegr, 75% o'r sector, eu hariannu gan y llywodraeth nac yn derbyn incwm contract. Mae llawer o'r rhain yn gyrff bach neu ficro (gydag incwm o dan £100,000).

Ffigur 3: Dadansoddiad o fath cyllid yn ôl maint corff (maint wedi'i ddiffinio gan gyfanswm incwm).



Byddai'n ymddangos fod y darlun ar draws y Deyrnas Unedig yn awgrymu nad yw cyrff bach a micro un ai'n ceisio cyllid y Llywodraeth neu heb fod yn neilltuol o lwyddiannus yn ei ddenu. Mae'r 16,772 o gyrff bach yn y Deyrnas Unedig gyda chyfanswm incwm o tua £1.7bn yn denu £324m o ffynonellau statudol neu 18% o'u cyllid. O gymharu, mae'r 2,609 o gyrff mawr gyda chyfanswm incwm o £10.6bn yn derbyn

£3.9 biliwn neu 36% o'u hincwm o'r sector statudol.

Mae hyn yn golygu yr aiff 32% o gyllid statudol i gyrff mawr sy'n ffurfio 6.5% o boblogaeth y sector.

Ffigur 4: Cyfanswm incwm, incwm statudol a nifer o gyrff derbyn yn ôl maint y sefydliad derbyn, y Deyrnas Unedig

	Cyfanswm incwm (£miliwn)	Incwm statudol (£miliwn)	Nifer cyrff derbyn
Micro	269.7	13.0	6,813
Bach	1,795.4	324.3	16,772
Canolig	6,305.5	2,492.8	13,196
Mawr	10,611.2	3,901.5	2,608
Prif	14,190.6	5,296.2	298
Cyfanswm	33,172.5	12,027.8	39,687

NCVO⁴⁵

Gofynnodd NCVO i Debra Allcock Tyle, Prif Weithredwr Directory of Social Change, i roi sylwadau ar y patrwm yma mewn adroddiad diweddar⁴⁶:

“My concern is the gobbling up of ...contracts by large national organisations at the expense of local providers and their connection to the local communities they support and are part of. Over recent years government’s response to the demands of the sector has been to throw money at it. That it’s been thrown with strings and has been thrown to the biggest in the name of efficiency has altered some parts of the sector beyond recognition”.

Yn ddiddorol, mae cyrff llai y medrid dweud fod ganddynt ffocws mwy

⁴⁵ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 5

⁴⁶ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 5

lleol yn fwy tebygol o gael eu cyllid cyhoeddus, os cânt beth o gwbl, gan lywodraethau *cededlaethol*, nid gan awdurdodau lleol. Caiff cyrff micro a bach fwyaf eu cyllid statudol (55%) gan lywodraeth ganolog a llai na thraean gan lywodraeth leol⁴⁷. Ar y llaw arall, daw hanner yr incwm statudol a dderbynnir gan gyrff canolig i fawr yn y Deyrnas Unedig o ffynonellau llywodraeth leol, tra nad yw tri chwarter cyrff gwirfoddol yn derbyn unrhyw incwm gan gyrff statudol⁴⁸.

3.4 Twf y Sector

Mae peth tystiolaeth i awgrymu, yn gyffredinol, fod y Trydydd Sector wedi mwynhau twf sylweddol yn ddiweddar - yn nhermau derbyniadau cyllid a chyfanswm nifer y cyrff. Wrth gyfeirio at y sector elusennol, dywed yr NCVO yn Almanac 2009 bod 2006/07 yn flwyddyn arall o ehangu i'r sector gydag ychwanegiad net o 6,800 elusen⁴⁹. Fel arwydd pellach o'r tueddiad twf, mae tua 34% o'r Trydydd Sector yng Nghymru yn elusennau cofrestredig a bu'r nifer sy'n cofrestru am statws elusennol yn cynyddu'n gyson. Cynyddodd nifer yr elusennau gan 6.6% rhwng cyhoeddi Almanac Cymru 2003 ac Almanac 2008⁵⁰.

Bu cyllid i'r sector hefyd yn cynyddu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yng Nghymru a hefyd yn rhannau eraill y Deyrnas Unedig. Dengys y tabl dilynol sut mae cyllid y sector wedi newid dros gyfnod yn y Deyrnas Unedig.

⁴⁷ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 6

⁴⁸ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 5

⁴⁹ UK Civil Society Almanac NCVO 2009

⁵⁰ Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (*drafft*)

**Ffigur 5: Ffynonellau incwm y Deyrnas Unedig i'r Trydydd Sector
2000/01 - 2006/07 (£bn)**

	2000/01	2005/06	2006/07
Ffynonellau statudol (yn cynnwys y Loteri Genedlaethol)	8.4	11.5	12.0
Unigolion	9.0	12.0	12.6
Sector gwirfoddol	1.6	3.6	3.0
Sector preifat	1.4	1.4	1.7
Cynhyrchwyd yn fewnol	3.7	3.7	3.8
Cyfanswm	24.2	32.1	33.2

NCVO⁵¹

Mae dadansoddiad diweddar o ddata'r Comisiwn Elusennau gan yr NCVO⁵² yn awgrymu y bu twf cyflym ymhlith llawer o elusennau mawr ond gostyngiad yn incwm llawer o elusennau bach neu ganolig eu maint:

*“at a UK level [bu] a 10% increase in income to the sector, this hides the fact that 60% of the smaller organisations have cut expenditure. The income of the sector is changing, for the first time earned income exceeded that of trusts.”*⁵³

3.5 Cyllid gan y sector cyhoeddus

Mae cyllid gan y sector cyhoeddus, a elwir weithiau yn gyllid statudol, yn hollbwysig i'r Trydydd Sector. Rydym eisoes wedi trafod y cyfraniadau cymharol a wneir gan y sector cyhoeddus ym mhob un o'r gwledydd cartref. Edrychwn yn ar rai o'r themâu a thueddiau sy'n sylfaen i'r elfen hon o gyllid Trydydd Sector.

Mae'r graff islaw'n dangos sut y cynyddodd cyllid sector cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig o gymharu â lefelau 2001 ynghyd â'r cyfraniad a wnaed i'r sector gwirfoddol.

⁵¹ UK Civil Society Almanac NCVO 2009

⁵² Charity Forecast 7 NCVO

⁵³ The Funding Challenge dim cyhoeddwy, dyddiad

Ffigur 6: Cyfanswm gwariant llywodraeth ac incwm statudol i dwf y sector gwirfoddol⁵⁴

Error! Objects cannot be created from editing field codes.

Er y bu gwariant y Llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu'n gyson ers dechrau'r ddegawd, felly hefyd y cynnydd ym maint a chwmpas darpariaeth gwasanaeth gan y sector gwirfoddol. Yn y cyddestun hwn, mae'n bosibl gweld fod cyfraniad y sector cyhoeddus i'r Trydydd Sector wedi cynyddu'n gymesur gyflymach na chyfanswm gwariant y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, fel y dywed yr NCVO yn eu papur diweddar ar y Wladwriaeth a'r Sector Gwirfoddol, rhaid cofio er bod incwm y sector wedi tyfu'n sylweddol, nad yw ond cyfran fach o gyfanswm gwariant y llywodraeth. Yn 2000/01 roedd yn 2% ac yn 2006/07 roedd wedi cynyddu i 2.2%.⁵⁵

Mae cyllid statudol i'r Trydydd Sector hefyd wedi cynyddu uwchben a thu hwnt i lefel y cyfanswm twf yn y Trydydd Sector. Mae'r gyfran o gyllid y mae'r sector yn ei derbyn o ffynonellau statudol felly wedi cynyddu'n gyson dros gyfnod. Dengys dadansoddiad o'r cyllid a dderbyniwyd gan y sector fod grantiau a chontractau'r Llywodraeth yng Nghymru yn cyfrif am £441m neu 44% o gyfanswm cronfeydd yn 2006/07 (y data diweddaraf y mae dadansoddiad ar gael), newid o 10 pwynt canran ers 2003⁵⁶. Mae'r graff islaw, yn seiliedig ar ddata ar draws y Deyrnas Unedig, yn dangos sut y newidiodd cyllid cyhoeddus, mewn termau gwirioneddol, dros gyfnod.⁵⁷

Medrir dadansoddi cyllid Statudol neu Sector Cyhoeddus ymhellach i

⁵⁴ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009


⁵⁵ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 3

⁵⁶ Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (drafft)

⁵⁷ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009

gyfraniadau llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, Ewropeaidd a loteri. Roedd cyfraniadau cyfun awdurdodau lleol y DU yn 2006/07 yn £5.7 biliwn (47%) a llywodraeth ganolog yn £5.1 biliwn (43%). Dengys Ffigur 7 sut mae cyllid llywodraeth leol a chanolog wedi cynyddu ers 2003, tra bod cyllid y Loteri ac Ewropeaidd wedi parhau'n weddol sefydlog ar tua hanner biliwn o bunnoedd yr un.

Ffigur 7: Cyllid statudol i sector gwirfoddol y Deyrnas Unedig yn ôl haen llywodraeth 2004/05 - 2006/07 (£ biliwn)



Mae cyrff statudol yn defnyddio dulliau grant a contract i drosglwyddo adnoddau i'r sector gwirfoddol. Dyfarnwyd grantiau gwerth tua £4.2 biliwn a contractau gwerth £7.8 biliwn i'r Deyrnas Unedig i'r Trydydd Sector yn 2006/07.⁵⁸


3.6 Y Cymysgedd Cyllid

Yng Nghymru, mae Arolwg Cyllid Cynaliadwy 2007 a gynhaliodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cadarnhau'r i ba raddau y mae'r

⁵⁸ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 11

Trydydd Sector yn ddibynnol ar gyllid sector cyhoeddus.

Ffigur 8: Ffynonellau cyllid: canran cyrff yn manteisio o ffynhonnell⁵⁹



Dengys y graff uchod yn union pa mor sylweddol yw cyllid grant fel ffynhonnell i'r Trydydd Sector yng Nghymru, gyda mwy na hanner y cyrff yn manteisio o'r ffynhonnell yma. Ar y llaw arall, dim ond 8% o'r cyrff o fewn sampl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a dderbyniodd incwm o contractau. Bydd yn neilltuol o ddiddorol gweld os (yn unol gyda'r graff islaw) y bydd y canran o incwm Trydydd Sector o contractau (o gymharu gyda grantiau) wedi cynyddu pan fydd WCVA yn cyhoeddi canfyddiadau ei arolwg diweddaraf ar Gyllid Cynaliadwy yn 2010.

Wrth ddadansoddi cyllid Trydydd Sector, gwahaniaethir yn aml rhwng incwm a enillwyd ac incwm heb ei ennill. Mae incwm a enillwyd yn cynnwys contractau ond hefyd daliadau eraill am wasanaethau, ffioedd mynediad ac weithiau hefyd yn cynnwys ffioedd aelodaeth. Fel arfer caiff

⁵⁹ Arolwg Llinell Sylfaen Ariannu Cynaliadwy WCVA 2007. Tudalen 17. Sylfaen sampl 471 corff.


incwm heb ei ennill ei ddiffinio fel bod yn cynnwys grantiau, cyfraniadau a chymynroddion.

Cynyddodd y gyfran o'r holl incwm a enillwyd gan gyrff Trydydd Sector yng Nghymru o 26% i 36% yn 2005-06⁶⁰. Mae incwm wedi'i ennill yn awr yn ffurfio dros hanner incwm elusennau'r Deyrnas Unedig, gan fod yn gyfwerth â £17 biliwn, gan barhau tueddiad hirdymor, sy'n edrych fel petai'n cael ei hybu i raddau helaeth gan ddarpariaeth lefelau uwch o wasanaethau cyhoeddus dan gontract.

Fel yr awgrymir yn y paragraffau uchod, bu'r cydbwysedd rhwng cyllid grant a chyllid contract yn newid ar lefel y DU. Fel y dengys y tabl islaw, mae incwm grant cyhoeddus yn y DU wedi gostwng gan tua £400 miliwn ers 2004 tra bod incwm i'r Trydydd Sector o gontractau a ariannwyd yn gyhoeddus wedi cynyddu gan £4 biliwn dros yr un cyfnod.

Ffigur 9: Y newid yn rôl grantiau a chontractau yn y DU 2000/01 - 2006/07 (£ biliwn)

⁶⁰ Collis B, Almanac: The Third Sector in Wales 2008 (drafft)



Mae gwaith darogan y NCVO yn awgrymu bod y symud o lywodraeth sy'n darparu gwasanaethau i lywodraeth sy'n prynu gwasanaethau gan y sectorau preifat a gwirfoddol a chymunedol wedi gyrru cynnydd sylfaenol mewn cyllid gwladol i'r sector gwirfoddol a chymunedol⁶¹. Mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd y tueddiad yma'n parhau wrth i'r rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol prif ffrwd nodi eu hymrwymiad i gyrchu mwy o wasanaethau cyhoeddus yn allanol.

Fodd bynnag, mae hefyd dystiolaeth i awgrymu fod systemau ariannu'r Trydydd Sector wedi dod yn fwy cymhleth a soffistigedig, ac y gall hynny roi cyllid cychwynnol allan o gyrraedd grwpiau eginol nad oes ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i drechu'r gystadleuaeth.⁶²

⁶¹ Williams N, Griffith M, Future Focus 1: What will our funding be like in five years time? NCVO 2009

⁶² Y trydydd dimension: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

Mae Dadansoddiad Strategol Sector Gwirfoddol WCVA⁶³ yn cynnwys gwybodaeth yn dynodi rhai tueddiadau sylfaenol megis cynnydd yn nisgwyliadau defnyddwyr a phendantwydd yng nghyswllt gwasanaethau, pwyslais cynyddol ar dystiolaeth o werth am arian ac effeithiolrwydd a gwelliannau araf mewn ymarfer caffaeliad. Un mater neilltuol o berthnasol oedd y teimlai Cyngorau Gwirfoddol Sirol nad oedd ganddynt yr wybodaeth fanwl i roi'r gefnogaeth contract angenrheidiol yng nghyswllt tendro a chaffaeliad.

Mae'r siart islaw'n dangos mai'r cefndir i gaffaeliad cyhoeddus ddod yn elfen fwy yn y cymysgedd cyllid Trydydd Sector yw cynnydd ym maint a chyfran y gwariant statudol a gaiff ei contractio allan.

Ffigur 10: Newidiadau mewn caffaeliad o sectorau preifat a gwirfoddol (£Bn prisiau 2006/07)

	Caffaeliad gwasanaethau	Cyfanswm gwariant statudol	Caffaeliad fel cyfran o wariant statudol
1995/96	40.7	411.8	9.90%
1996/97	43.7	404.2	10.80%
1997/98	43.7	400.3	10.90%
1998/99	46.7	401.1	11.60%
1999/00	49.3	407.5	12.10%
2000/01	53.7	426.7	12.60%
2001/02	55.7	445.3	12.50%
2002/03	62.5	467.3	13.40%
2003/04	68.7	491.3	14.00%
2004/05	70.5	517.1	13.60%
2005/06	73.8	538.6	13.70%
2006/07	76.1	549.7	13.90%
2007/08	76.9	568.2	13.50%

Ffynhonnell: BERR, The Public Services Industry in the UK (2008), PESA 2008⁶⁴

O dan y darlun cyffredinol hwn, mae hefyd wahaniaethau rhwng dosbarthiad grantiau cyhoeddus a chontractau gan wahanol haenau o lywodraeth. Mae Ffigur 11 islaw yn edrych ar hyn dros gyfnod ac yn

⁶³ Prosiect Ariannu Cynialadwy WCVA 2007

⁶⁴ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 (data crai)

dangos sut, o fewn y newidiadau i'r fantol rhwng llywodraeth ganolog a lleol (a ddangosir yn Ffigur 7 uchod), bod y gyfran o gyfanswm incwm statudol a ddaw o gaffaeliad llywodraeth ganolog wedi cynyddu'n sylweddol, tra bu gostyngiad cymharol yng nghyllid grant awdurdodau lleol.

Ffigur 11: Dadansoddiad o grantiau cyhoeddus a chontractau yn ôl haen llywodraeth

Cyllidwr / Math o Gyllid		£ (biliwn)		% o gyfanswm incwm (gan llywodraeth ganolog a lleol)	
		2004/05	2006/07	2004/05	2006/07
Llywodraeth ganolog	Grantiau	2.1	2.1	24.2	19.1
	Contractau	1.8	3.1	20.2	28.6
Is-gyfanswm		3.9	5.2	44.4	47.7
Llywodraeth Leol	Grantiau	1.6	1.3	18.0	11.9
	Contractau	3.3	4.4	37.6	40.4
Is-gyfanswm		4.9	5.7	55.6	52.3
Cyfanswm incwm (gan llywodraeth ganolog a lleol)		8.8	10.9	100.0	100.0

Ffynhonnell: NCVO⁶⁵

Yn ôl ffynhonnell y data hwn, NCVO, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod cyrff lleol, llai yn ei chael yn anos cael cyllid grant. Dywed y dengys eu tystiolaeth mai llywodraeth leol sy'n gyfrifol i raddau helaeth am y gostyngiad mewn cyllid grant ers 2004/05 a bod cyllid grant llywodraeth ganolog wedi aros yn ei unfan.

Gofynnwyd i Julia Unwin o Sefydliad Joseph Rowntree ystyried y data hwn a daeth i'r casgliad: *“Over the years, grants were replaced by contracts. Government threw away its identity as a kindly godparent and instead became a more demanding shopper, specifying the return that they sought for their funding. The shape of the sector changed, as new organisations came into the funding circle, others lost their place. The*

⁶⁵ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 adran 11

voluntary sector became one of competition and margins, and the funders - now retitled commissioners – talked about the need for cost comparisons and unit prices. Just as the voluntary sector did not flourish in an environment dominated by gift giving, so the harsh commercial reality of contracting is not aiding the development of a healthy thriving sector..... funders need to decide if they want to give gifts or go shopping.. the sector needs both. These figures suggest that the pendulum has swung too far”⁶⁶

Hyd yma, fodd bynnag, ymddengys nad oes fawr fel data cadarn i awgrymu fod y ‘symud pendil’ yng Nghymru a ddisgrifiwyd gan Julia Unwin unrhyw beth mor sylweddol ag mae ei dadansoddiad yn awgrymu, neu yn wir ei fod mor amlwg â’r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, er yn amlwg gall y sefyllfa hon fod wedi newid ers Arolwg Cyllid Cynaliadwy 2007 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

3.7 Cyllid Llywodraeth Leol

Mae edrych yn agosach ar gyllid llywodraeth leol o’r Trydydd Sector hefyd yn dangos nifer o faterion diddorol eraill.

Er bod cyrff Trydydd Sector yng Nghymru yn derbyn cyfran gymharol uwch o’u cyllid o ffynonellau statudol, dengys data fod hyn yn amrywio’n sylweddol ar draws Cymru gyda rhai siroedd yn derbyn cyfrannau isel iawn o gyllid o ffynonellau cyhoeddus, megis Gwynedd 8%, yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig, i gyfrannau uchel yn Wrecsam a Sir y Fflint, sydd ar 48% y chweched ardal uchaf yn y DU.⁶⁷

Gwyddom yn nhermau dosbarthiad daearyddol, fod grwpiau Trydydd Sector wedi’u cysylltu i raddau helaeth gyda ffiniau gweinyddol presennol a’r gorffennol. Wrth i ffiniau gweinyddol newid, maent yn

⁶⁶ Fel uchod, yn dyfynnu Julia Unwin CBE Prif Weithredwr Sefydliad Joseph Rowntree

⁶⁷ Data a gedwir ar gronfa ddata Gwion, Gwefan Lledaenu Uned Data Llywodraeth Leol 2009

gadael anomaleddau gofodol yn y Trydydd Sector fel GAVO (Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent) pan nad yw Gwent yn bodoli mwyach. Mae'n bwysig ystyried fod y lleoliad a ddynodir yn gyfeiriad swyddfa neu berson arweiniol yn hytrach nag ardal budd. Serch hynny mae gwahaniaethau enfawr mewn cyfraniad awdurdodau lleol.

Mae Uned Data Cymru yn cadw data ar wariant llywodraeth leol gyda'r sector gwirfoddol. Dengys y tabl islaw fod lefel uchel o wariant yng Nghaerdydd ar £155 fesul pen o boblogaeth, 9% o gyfanswm gwariant refeniw'r awdurdod lleol. Yng Nghasnewydd mae'n £20 y person ac yn ddim ond 1% o gyfanswm gwariant refeniw.

Ffigur 12: Tabl i ddangos gwariant cymharol gan Awdurdodau Lleol ar y Sector Gwirfoddol 2005/06⁶⁸

	Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd (£000oedd)	Cyfanswm taliad am wasanaethau (£000oedd)	Cyfanswm cyllid i'r sector gwirfoddol (£000oedd)	Cyfanswm cyllid y sector gwirfoddol fesul pen o boblogaeth (£)	Cyfanswm cyllid y sector gwirfoddol fel % o wariant refeniw (%)	Cyfanswm gwariant refeniw (£000oedd)
Caerdydd	26,572	22,964	49,536	155	9	574,634
Powys	2,176	10,973	13,150	100	5	243,070
Ceredigion	835	6,075	6,911	88	5	136,876
Rhondda Cynon Taf	1,659	18,380	20,039	87	4	453,892
Torfaen	2,036	2,892	4,929	55	3	174,016
Pen-y-bont ar Ogwr	420	6,335	6,755	52	3	236,933
Conwy	1,881	3,117	4,998	45	2	206,794
Sir Benfro	918	3,524	4,442	38	2	202,063
Abertawe	2,083	6,614	8,697	38	2	412,325
Ynys Môn	1,617	724	2,342	34	2	130,992

⁶⁸ Data a gedwir ar gronfa ddata Gwion, Gwefan Lledaenu Uned Data Llywodraeth Leol 2009

Sir Ddinbych	2,038	1,231	3,269	34	2	182,629
Sir Fynwy	1,958	712	2,670	30	2	139,966
Sir Gaerfyrddin	1,842	3,282	5,124	29	2	313,598
Blaenau Gwent	568	1,444	2,012	29	1	142,894
Caerffili	1,044	2,848	3,892	23	1	324,502
Wrecsam	50	2,734	2,784	21	1	210,757
Casnewydd	916	1,882	2,798	20	1	267,572
Bro Morgannwg	650	0	650	5	0	211,804
Castell-nedd Port Talbot	Ni dderbyniwyd data llawn					267,388
Merthyr Tudful	Ni dderbyniwyd data llawn					118,054
Sir y Fflint	Ni dderbyniwyd data llawn					246,309
Gwynedd	Ni dderbyniwyd data llawn					220,308

Gan ddefnyddio'r data ar gronfa ddata yr Uned Data Llywodraeth Lleol, mae'n bosibl cynnal dadansoddiad o gyllid o wahanol feysydd gwasanaeth llywodraeth leol. Mae'n ddiddorol nodi y daw dros hanner gwariant awdurdodau lleol o gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol.

Ffigur 13: Dadansoddiad o gyllid i'r sector gwirfoddol yn ôl sector gwasanaeth llywodraeth leol yng Nghymru 2006/07⁶⁹

	(£1000oedd)	fel % o'r cyfanswm
Gwasanaethau canolog	5295	3.30
Gwasanaeth llys a gwasanaeth prawf	0	0.00
Diwylliant a gwasanaethau cysylltiedig	3909	2.44
Gwasanaethau amgylcheddol	2210	1.38
Gwasanaethau cynllunio a datblygu	10045	6.26
Gwasanaethau addysg	5511	3.43
Gwasanaethau priffyrdd, ffyrdd a thrafnidiaeth	856	0.53
Gwasanaethau tai	39395	24.55
Gwasanaethau cymdeithasol	91772	57.18
Pob maes gwasanaeth	160493	100.00

Dengys dadansoddiad o'r sector gwasanaethau cymdeithasol y caiff 74% o'r holl gyllid o wasanaethau cymdeithasol a werir gyda'r sector gwirfoddol ei ddynnu i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Mae'r data felly'n dangos y gwerir o leiaf 42% o'r holl gyllid a werir gan awdurdodau lleol ar wasanaethau ar gyfer pobl ifanc.

Ffigur 14: Dadansoddiad o gyllid Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol i'r sector gwirfoddol 2005/06⁷⁰

	£1000oedd	% o gyllid Gwasanaethau Cymdeithasol	% o holl gyllid gwasanaethau
Gwasanaethau i blant	19544	21.30	12.18
Gwasanaethau i oedolion iau	67917	74.01	42.32
Gwasanaethau i bobl hŷn	8281	9.02	5.16
Gwasanaethau eraill	612	0.67	0.38
Cyfanswm gwasanaethau cymdeithasol	91772	100.00	57.18

3.8 Ffynonellau Ewropeaidd a Rhyngwladol

Cyfran fach o'r cyfanswm cyllid cyhoeddus sydd ar gael i'r Trydydd Sector yn y Deyrnas Unedig yw cyllid Strwythurol Ewropeaidd - rhwng

⁶⁹ Data a gedwir ar gronfa ddata Gwion, Gwefan Lledaenu Uned Data Llywodraeth Leol 2009

⁷⁰ Data a gedwir ar gronfa ddata Gwion, Gwefan Lledaenu Uned Data Llywodraeth Leol 2009

1% a 3%. Fodd bynnag, daw cyfran uwch o gyfanswm cyllid cyhoeddus y Trydydd Sector o ffynonellau Ewropeaidd nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Daw bron 3% o gyllid y Trydydd Sector o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru o gymharu â 1% yn yr ardal uchaf agosaf, Gogledd Orllewin Lloegr, gan ddangos ein dibyniaeth gymharol ar y ffynhonnell hon o gyllid, a fydd ym mhob tebyg yn gostwng ar ôl 2013.

Ffigur 15: Canran o incwm Trydydd Sector o ffynonellau rhyngwladol⁷¹

		UE	Rhyngwladol arall
Lloegr	Gogledd Ddwyrain	0.5%	0.0%
	Gogledd Ddwyrain	1.4%	0.0%
	Swydd Efrog a Humber	1.0%	0.0%
	Dwyrain Canoldir	0.2%	0.1%
	Gorllewin Canoldir	0.6%	0.4%
	Dwyrain Lloegr	0.4%	0.0%
	Llundain	1.1%	1.8%
	De Ddwyrain	0.9%	0.7%
	De Orllewin	0.3%	0.1%
Cymru		2.8%	0.0%
DU		0.9%	0.9%

Mae effaith gyffredinol a maint cyllid Ewropeaidd a'r swm a gyrchwyd gan y Trydydd Sector ar lefel y DU yn sylweddol ond yn dal i fod yn eithaf isel o gymharu gyda ffynonellau domestig.

Dywedodd Oli Henman, Rheolwr Ymgyrchoedd y DU a Rhyngwladol yr NCVO am Gyllid Strwythurol Ewropeaidd bod y mathau o gynigion sydd ar gael mor fawr fel bod cyrff gwirfoddol yn gynyddol yn methu gwneud cais fel prif gontractwyr.

Targedwyd y cyllid at yr ardaloedd daearyddol mwyaf amddifadus a bydd atal y cyllid hwn ar ôl 2013 yn cael effaith anghymesur yn yr

⁷¹ Ffynhonnell: NCVO, GuideStar Data Services yn Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009

ardaloedd hynny. “Daw rhaglenni ariannu graddfa fawr yr UE yng Nghymru i ben 2013 ac mae angen dynodi llwybrau eraill o gyllid tymor hwy”.⁷²

3.9 Gwariant yn ôl Maes Gwasanaeth

Mae amrywiadau amlwg rhwng gwariant ar y Trydydd Sector rhwng meysydd gwasanaeth mewn llywodraeth genedlaethol yn ogystal â llywodraeth leol. Ar lefel Llywodraeth y DU, yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n gwario'r gyfran fwyaf o'r gyllideb ar y sector (ar 19%), a dilynir hyn gan y Swyddfa Gartref (16.9%), Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (11.9%), a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (11.6%)(Ffigur 16a).

Ffigur 16a: Gwariant ar y Sector Gwirfoddol a Chymunedol gan Adrannau'r Llywodraeth Ganolog (Whitehall) fel cyfran o'u cyfanswm gwariant

(nid yw'n cynnwys Llywodraethau Datganoledig neu'r rhai na gyflwynodd ddata)

	Gwariant ar yrff gwirfoddol a chymunedol £m	% o gyfanswm gwariant ar y Trydydd Sector
Addysg a Sgiliau	621	19.0
Swyddfa Gartref	551	16.9
Diwylliant, cyfryngau a chwaraeon	388	11.9
CLG Cymunedau	379	11.6
Datblygu Rhyngwladol	269	8.2
Gwaith a Phensiynau	269	8.2
Yr Alban	229	7.0
Gogledd Iwerddon	120	3.7
Cymru	116	3.6
Masnach a Diwydiant	108	3.3
Arall	216	6.6

Ffynhonnell: NCVO⁷³

⁷² Y trydydd dimensiwn: Cynllun gweithredu strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

⁷³ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009

Ffigur 16b: Cyllid Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Sector Gwirfoddol 2007-08⁷⁴

Adran y Cynulliad	
Materion Cyfansoddiadol	£1,059,582
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	£131,018,397
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (cyn Ebrill 2008)	£44,097,498
Economi a Thrafnidiaeth	£42,728,557
Adran y Prif Weinidog	£387,854
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£12,566,871
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	£695,879
Iechyd y Cyhoedd a Phroffesiynau Iechyd	£1,804,897
Adnoddau Dynol	£252,112
Materion Gwledig a Threftadaeth	£25,481,118
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	£35,275,883
Cyfanswm 2007/08	£294,568,646

Yng Nghymru, mae'r WCVA wedi cynnal dadansoddiad o wariant adrannau Llywodraeth y Cynulliad ar y Trydydd Sector yn defnyddio adroddiadau cynllun y Sector Gwirfoddol. Dangosir y symiau a werir fesul adran o'r diweddaraf o'r adroddiadau hyn uchod (ni chyhoeddir canrannau). Tai a chymunedau yw'r ddau faes mwyaf sylweddol o wariant Llywodraeth y Cynulliad ar y Trydydd Sector gyda Thai yn cyfrif am ymhell dros hanner yr holl wariant⁷⁵. Mae cyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer tai a chymunedau wedi amrywio'n sylweddol rhwng 2001/02 a 2005/06 heb unrhyw batrwm clir i'w weld.


Dengys Ffigur 17 y gwariant statudol yn ôl thema cyrff Trydydd Sector, gan roi darlun cyflawn o'r cyllid i'r Trydydd Sector Nghymru.⁷⁶

⁷⁴ Adroddiad Blyneddol Cynllun Sector Gwirfoddol 2007/08

⁷⁵ Jon Matthews The Funding Challenge 2008

⁷⁶ Jon Matthews The funding Challenge 2008

**Ffigur 17: Cyllid yn ôl math o sefydliad Trydydd Sector yng Nghymru
2006/07**



Mae'r tabl dilynol yn rhoi dadansoddiad mwy manwl.

Ffigur 18: Dadansoddiad o ffynonellau cyllid Trydydd Sector yng Nghymru yn ôl thema'r corff

	% gan ffynonellau statudol	% gan unigolion	% gan y sector gwirfoddol	% gan y sector preifat	% a gynhyrchir yn fewnol
Cyflogaeth a hyfforddiant	72	10	4	10	5
Y gyfraith ac eiriolaeth	54	22	11	7	5
Addysg	52	34	6	3	5
Tai	51	23	10	6	10
Gwasanaethau cymdeithasol	51	32	7	4	6
Cyrff ymbarél	47	14	18	8	13
Iechyd	47	41	5	2	6
Datblygu	43	25	19	8	5
Diwylliant a hamdden	30	39	15	6	9
Rhyngwladol	24	51	18	2	4
Amgylchedd	19	58	9	3	12
Crefydd	16	62	8	2	13
Ymchwil	8	50	11	6	24
Cyrff dyfarnu grant	3	41	6	12	38

Er bod yn rhaid cymryd gofal wrth gymharu lefelau gwariant Adrannau Llywodraeth y DU gyda data ar gyllid a dderbyniwyd yn ôl thema cyrff Trydydd Sector yng Nghymru, y mae o leiaf yn bosibl gweld nifer o dueddiadau tebyg rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn neilltuol, ymddengys fod meysydd gwasanaeth cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a sgiliau, y gyfraith ac eiriolaeth a gwasanaethau cymdeithasol yn feysydd lle ymddengys fod gan Gymru, yn yr un modd â'r Deyrnas Unedig, lefelau cymharol uchel o wariant wedi'u sianelu drwy'r Trydydd Sector. Ar y llaw arall, ymddengys o gymharu, y medrai gwariant ar weithgareddau diwylliant, addysg, hyfforddiant a sgiliau, y gyfraith ac eiriolaeth a gwasanaethau cymdeithasol fod yn feysydd lle ymddengys fod gwariant yn y DU yn gymesurol fwy nag yw yng Nghymru.

3.10 Ffynonellau Eraill o Incwm

Mae arolwg Rhoddi Unigol y DU⁷⁷ yn amcangyfrif fod 56% o oedolion, bron 28 miliwn o bobl, yn rhoddi arian i elusen bob mis yn 2007/08. Yn

⁷⁷ UK Giving Survey 2009 Charities Aid Foundation a NCVO 2009

ychwanegol at gynnydd bychan yn y gyfradd cyfranogiad, mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu i'r cyfraniad cyfartalog gynyddu i £33 fesul rhoddwr gyda'r rhodd ganolrif gan gyfranwyr bob mis yn £11.

Yn 2006/07 rhoddodd y cyhoedd £9.5 biliwn i elusen, cynnydd bychan dros y flwyddyn flaenorol. Cyn dyfodiad y dirwasgiad, disgwylid y byddai rhoddi unigol yn parhau i gynyddu'n raddol.

Dengys yr arolwg⁷⁸ mai'r swm cyfartalog a roddir gan bobl yng Nghymru yw £14 mis fesul pen o boblogaeth (£20 fesul rhoddwr) o gymharu â chyfartaledd y DU o £15 y mis y pen (£27 y rhoddwr). Fodd bynnag roedd y *canran* o roddwyr yng Nghymru yn 67% (yr uchaf ar gyfer unrhyw ranbarth) o gymharu â chyfartaledd y DU o 58%.

Un maes arall posibl o dwf mewn ariannu yw cyfraniadau mawr gan unigolion unigol, y cyfeirir atynt weithiau fel y "dyngarwyr newydd". Ar y llaw arall, disgwylir y bydd rhoddi corfforaethol yn parhau'n isel iawn oherwydd symudiad hirdymor ymaith o roi o blaid cysyniadau ehangach arferion busnes cymdeithasol gyfrifol.

Dengys *The Funding Challenge*⁷⁹ fod patrymau rhoddi wedi newid ac mae ymchwil yn awgrymu fod y newidiadau hyn yn debyg o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod: *"The last decade has seen single donations made in excess of £1 million to organisations, and donors have more choice and information than ever before on who to give to, and they are also expecting more in return. Fundraising has also become harder work, the amount of money spent compared to the income received has reduced in all areas over the last five years, the one exception being local fundraising"*.

Hyd yma, ymddengys fod rhywfaint o ansicrwydd am effeithiau'r dirwasgiad ar ariannu preifat. Cafodd y Comisiwn Ariannu newydd, a

⁷⁸ [UK Giving Survey 2009](#) Charities Aid Foundation a NCVO 2009

⁷⁹ [The Funding Challenge](#) ni roddir enw cyhoeddwr na dyddiad

sefydlwyd gan yr NCVO, y dasg o ymchwilio lle medrai incwm y sector ddod yn y degawd nesaf. Dywedodd ei gadeirydd, Rachel Lomax, y bydd y Comisiwn Ariannu yn edrych ar faterion megis yr hyn a wnaiff y gostyngiad mewn prisiau tai i gymynroddion, a sut y bydd y cwymp mawr mewn marchnadoedd yn effeithio ar gyrff gwaddol.⁸⁰ I raddau helaeth, ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd effeithiau hyn.

Er bod adroddiad Y Trydydd Dimensiwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru⁸¹ yn nodi mai dim ond ychydig o ymddiriedolaethau dyfarnu grantiau sydd yng Nghymru, yn ymarferol ymddengys yn debygol y bydd ymddiriedolaethau a chyrff dyfarnu grantiau yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r cyfuniad cyllid ac yn chwaraewyr egniol mewn trafodaethau polisi yng Nghymru.

Mae Grant-making by UK Trusts and Charities⁸² yn rhoi ystadegau am ddyfarnwyr grantiau anllywodraethol yn y DU a natur a maint y grantiau a roddant. Bu'r swm o arian sydd ar gael gan yr Ymddiriedolwyr yn cynyddu'n barhaus (cyn y dirwasgiad): yn 1994/5 roedd yr incwm yn £915 miliwn (grantiau o £746 miliwn) ac yn 2005 yn £4,526 miliwn (grant o £2,728 miliwn).

Dengys yr adroddiad hefyd y nifer enfawr o geisiadau anghymwys a wneir i Ymddiriedolaethau, yn amrywio rhwng 44% a 64% yn dibynnu ar faint y grant dan sylw. Dangosodd hefyd i rhwng 63% a 85% y ceisiadau cymwys gael eu hariannu. Mae nifer y ceisiadau anghymwys yn golygu llawer iawn o wastraff amser a buddsoddiad gan y rhai'n gwneud ceisiadau am grant.

Mae grŵp darogan NCVO yn dweud y daeth cyllid benthyca i'r amlwg fel yr opsiwn cyllido pwysig ar gyfer y dyfodol a bod ei ddefnydd yn debygol o gynyddu wrth i'r wladwriaeth geisio cynyddu galluedd y cyrff

⁸⁰ The agenda setter Datganiad i'r wasg NCVO Ebrill 2009

⁸¹ Y trydydd dimension: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol
Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

⁸² Grantmaking by UK Trusts and Charities
The Association of Charitable Foundations (ACF) (2007).

gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym a hefyd adennill peth o'r arian a fuddsoddwyd er mwyn ei ail-fuddsoddi (a gaiff ei alw yn ailgylchu cyfalaf).

Fel y nodwyd yn Y Trydydd Dimensiwn, ychydig iawn o ffynonellau cyllid benthycia sydd ar gael i'r Trydydd Sector yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn ymarferol o leiaf ymddengys fod Lloegr a'r Alban wedi datblygu mwy gyda chynlluniau o'r fath.

Mae gwahanol ymagweddau at gyllid benthycia a buddsoddi. Ar un pen y sbectrwm mae cyllidwyr strategol ac ymrwymedig sy'n ystyried eu cyfraniad yn llai fel rhodd, ac yn fwy fel buddsoddiad y maent yn ceisio "elw cymdeithasol" amdano. Gall cyllidwyr ymrwymedig gynnig gwahanol fathau o gefnogaeth i gyrff. Enghraifft eithafol o gyllid ymrwymedig yw "dyngaredd menter" lle mae unigolion yn cymryd ymagwedd ymarferol iawn at wella perfformiad cyrff tra ar ben arall y sbectrwm caiff cynlluniau benthycia mwy confensiynol eu gweithredu weithiau.

3.11 Lefelau Boddhad

Er y polisïau sydd ar waith ar draws y Deyrnas Unedig, nid yw cyrff sector gwirfoddol yn gyffredinol yn fodlon gyda'r cyfleoedd ar gyfer ariannu tair blynedd un ai ar lefel llywodraeth genedlaethol na llywodraeth leol. Mae cyrff mwy yn debycach o ddweud eu bod yn fodlon gyda'u mynediad i gyllid tair blynedd, megis cyrff mewn rhai is-sectorau. Ymddengys fod y dystiolaeth yn sicr yn awgrymu na chaiff cyllid tair blynedd ei ystyried fel arfer safonol hyd yma.⁸³

⁸³ Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009 (data crai)

Ffigur 19: Canran cyrff Trydydd Sector y DU sy'n fodlon gyda'r chyfleoedd am gyllid 3 blynedd yn ôl maint sefydliad 2009

	Dan £100k	£100k - £1m	Dros £1m
Cyllid lleol	12%	21%	24%
Cyllid cenedlaethol	10%	20%	27%

Ffynhonnell: NCVO

Dengys y tabl dilynol y lefelau boddhad, fel canrannau, gyda chyllid tair blynedd yn ôl gwahanol themâu sefydliad. Dengys fod lefelau llawer uwch o anfonlonrwydd nag o fonlonrwydd. Mae'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn fonlon yn gweithredu yn y maes tai, tra bod y rhai sydd debycaf o fod yn anfonlon yn gweithredu o fewn hyfforddiant a lles economaidd.

Ffigur 20: Boddhad gyda chyfleoedd am gyllid 3 blynedd yn ôl thema 2009 NCVO

	Bodlon	Anfonlon
Llety/tai	20	43
Iechyd a lles	16	53
Lles economaidd	14	57
Dibenion elusenol, cymdeithasol neu gymunedol eraill	13	43
Datblygu cymunedol a chymorth cydfuddiannol	12	49
Eraill	12	52
Addysg a dysgu gydol oes	12	45
Hyfforddiant	11	56
Diwylliant a hamdden	10	46
Gweithgaredd crefyddol/ffydd	5	32

Ffynhonnell: Swyddfa'r Trydydd Sector/ NCVO⁸⁴

⁸⁴ OTS/NCVO yn Clark J, Dobbs J, Kane D, Wilding K, The State and the Voluntary Sector: Recent trends in government funding and public service delivery NCVO 2009

3.12 Casgliadau

Yn gryo, dangosodd yr adolygiad data bod:

- Tueddiadau ariannu diweddar ar draws y DU yn dangos bod cyllid o ffynonellau statudol i'r Trydydd Sector wedi cynyddu'n gyson dros y degawd diwethaf;
- Rhwng 2005 a 2007, y data diweddaraf yn dangos, cyn i'r DU fynd i ddirwasgiad a chyfyngiadau arfaethedig ar wariant y sector cyhoeddus, fod gwariant statudol drwy'r Trydydd Sector wedi cynyddu'n gyflymach na chyfanswm gwariant y Llywodraeth;
- Cyllid statudol i'r Trydydd Sector wedi ei ledaenu'n anwastad. Mae cyrff mwy yn y Trydydd Sector yn fwy dibynnol ar gyllid sector cyhoeddus ac yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o wariant sector cyhoeddus ar a thrwy'r Sector. Mae hyn yn wir yng Nghymru ac ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.
- Cyllid fesul pen o boblogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru yn is nag yw yn yr Alban ac am y Deyrnas Unedig gyfan, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon;
- Cyfran y gwariant sector cyhoeddus drwy'r Trydydd Sector yng Nghymru yn fras debyg i'r hyn yw yn yr Alban. Mewn gwir dermau, mae gwariant fesul corff Trydydd Sector yn uwch yng Nghymru (ar gyfartaledd o £17,000 fesul corff) nag yw yn y DU gyfan (ar £13,700 fesul sefydliad) ond yn is nag yn yr Alban (ar gyfartaledd o £24,850 fesul corff);
- Cyfran gymesurol lai o gyrff mawr (trosiant o £1m a mwy) yn y Trydydd Sector yng Nghymru nag sydd yn Lloegr;
- Cymysgedd cyllid gan y Sector Cyhoeddus i'r Trydydd Sector yn newid ar lefel y DU. Mae incwm grant cyhoeddus ar gyfer y sector yn gostwng tra bod refeniw o gontractau a ariennir yn gyhoeddus (caffaeliad) yn cynyddu. Hyd yma, fodd bynnag, ychydig sydd o ran data caled i awgrymu fod y newid yn neilltuol o amlwg yng Nghymru;

- Amrywiad gofodol amlwg fodd bynnag yn nhermau lefel incwm sector cyhoeddus ymysg cyrff Trydydd Sector yng Nghymru. Ar gyfartaledd cyrff Trydydd Sector yng Ngwynedd sy'n derbyn y lefelau isaf o gyllid cyhoeddus tra mai rhai yn Wrecsam yn derbyn mwyaf ar gyfartaledd;
- Rhan fwyaf o wariant awdurdodau lleol gyda'r Trydydd Sector yn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol gyda mwyafrif yr arian hwnnw yn wariant ar wasanaethau ar gyfer pobl ifanc.
- Yn nhermau'r DU, mae cyllid Ewropeaidd yn gyfran fechan iawn o gyfanswm refeniw ar gyfer y sector. Fodd bynnag, mae Cymru yn fwy dibynnol ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd na'r Deyrnas Unedig gyfan i ariannu'r Trydydd Sector, gan godi pryderon y medrai'r sector wynebu diffyg sylweddol mewn cyllid pan ddaw rhaglenni presennol yr UE i ben yn 2013;
- Yn gyffredinol, y meysydd gwasanaeth gwariant mwyaf o fewn y Trydydd Sector yng Nghymru yw: cyflogaeth a hyfforddiant, cyfraith ac eiriolaeth, tai a gwasanaethau unigol;
- Yn nhermau rhoddi unigol, mae Cymru'n perfformio'n dda ac yn mwynhau cyfran gyfartalog uwch o gyfranwyr yng nghyswllt y boblogaeth na'r DU. Mae cyfraniadau fesul pen y mis hefyd yn debyg i gyfartaledd y DU;
- Ymddengys mai ychydig iawn o ffynonellau cyllid benthyca a buddsoddi sydd ar gael i'r Trydydd Sector yng Nghymru;
- Yn gyffredinol, ymddengys fod cyrff Trydydd Sector (ar lefel y DU) yn anfodlon gyda'r opsiynau ariannu a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

4.0 CANFYDDIADAU - YMCHWIL ANSODDOL

Yn yr adran hon, adroddwn ar ganfyddiadau o'n trafodaethau gyda chyllidwyr, hysbyswyr strategol a chyrrff Trydydd Sector. Mae'r Adran yn ymdrin â:

- Y berthynas rhwng cyllidwyr a derbynwyr cyllid;
- Arferion ariannu presennol;
- Y berthynas rhwng ariannu a deilliannau;
- Pwysigrwydd monitro;
- Gweithredu codau ymarfer, canllawiau a chompactau;
- Effaith y dirwasgiad a chyfyngiadau ar wariant sector cyhoeddus;
- Mater adeniliad cost llawn;
- Trefniadau cydweithio;
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannu.

4.1 Y Berthynas rhwng Cyllidwyr a Derbynwyr Cyllid

4.1.1 Lefelau Ariannu Cyffredinol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyllidwyr y gwnaethom eu cyfweld fod cyllid i'r Trydydd Sector yn eu profiad hwy (ac yn unol gyda'n dadansoddiad data yn Adran 3) wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Dywedodd un cyllidwr mai'r man cychwyn ar gyfer unrhyw drafodaeth yng nghyswllt cyllid Trydydd Sector yw *"Ein bod wedi gweld cynnydd ar draws y bwrdd."*

Teimlai eraill (cyn y dirwasgiad) *"mae pethau wedi bod yn dda iawn yn gyffredinol"* ac *"mae'n debyg ei bod yn deg i ddweud fod pob ffordd o ariannu'r sector wedi gweld cynnydd, ond mae'n ymddangos fod awdurdodau lleol yn troi'n gynyddol at drefniadau math contract"*. Dywedodd yr ymatebydd hwn, er ei bod yn debyg bod dyfarnu grantiau

wedi cynyddu mewn blynyddoedd diwethaf, y bu caffaeliad yn cynyddu yn gyflymach (yn unol â data lefel y DU a ymchwilir yn Adran 3 uchod).

Teimlai nifer o randdeiliaid fod rhan helaeth o'r cyllid mewn cyllid a ddyrennir i'r Trydydd Sector (ar draws y Deyrnas Unedig) i raddau helaeth yn cael ei *“yrru'n wleidyddol”* a dilyn hyn drwy awgrymu *“medrwch yn rhwydd weld hyn yn newid os gwelwn lywodraeth San Steffan yn newid yn y flwyddyn nesaf.”*

Roedd nifer o gyllidwyr hefyd yn frwd i ddweud y medrid priodoli'r patrwm twf yn nhermau cyllid i'r Trydydd Sector yn rhannol iawn i well systemau o ddyraniadau ariannol a gwariant. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd fod eu systemau monitro cyllid a ddyrannwyd i'r Trydydd Sector wedi gwella'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bod y soffistigeiddrwydd cynyddol hwn wedi galluogi meintoliad ehangach o wariant (e.e. ar draws adrannau). Yn flaenorol, roedd y person yma wedi dweud *“nid oedd gennym unrhyw ffordd gronnus o olrhain y gwariant, heblaw'r hyn a wnaed drwy'r system BACS⁸⁵”*.

Yn unol gyda chanfyddiadau ein hadolygiad data, roedd sawl ymatebydd hefyd yn awyddus i ddweud nad oedd pob sefydliad Trydydd Sector wedi mwynhau'r un raddfa o gynnydd cyllid. Y goblygiad yma, fel y dywedodd un ymatebydd, oedd bod *“elusennau cenedlaethol mawr wedi gwneud yn well - ac wedi ymateb yn well i gyflenwi contract”*. Yn ddiddorol, teimlai'r ymatebydd yma hefyd *“mai'n debyg bod y rhai bach iawn hefyd yn iawn, yn seiliedig ar danysgrifiadau aelodaeth a chyfraniadau”* sy'n golygu *“yr hyn a welsom yw gwasgfa go iawn yn y canol lle mae cyrff wedi ei chael hi'n gynyddol anodd rhoi tystiolaeth o effaith”*.

4.1.2 Manteision gweithio gyda'r Trydydd Sector

⁸⁵ Banker's Automated Clearing Services.

Dangosodd ein gwaith maes gyda chyllidwyr werthfawrogiad manwl o'r buddion penodol a all ddod yn sgil gweithio gyda'r Trydydd Sector. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn ddiddorol fod nifer sylweddol o'r cyllidwyr sector cyhoeddus y gwnaethom eu cyfweld wedi gweithio'n flaenorol ac *"wedi torri eu dannedd"* yn y Trydydd Sector. Roedd y manteision a ddynodwyd o weithio gyda'r Trydydd Sector yn lluosog ac amrywiol, ond daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg a chânt eu hymchwilio yn y paragraffau dilynol.

Soniodd nifer o gyllidwyr fod sefydliadau'r Trydydd Sector yn cynnig lefelau uchel o brofiad ac arbenigedd mewn cyflenwi gwasanaethau i'r sector cyhoeddus. Credid ei bod yn fantais allweddol yn yr ystyr hwn fod gan y Trydydd Sector yn aml gysylltiadau agosach ac affinedd gyda'u cymunedau lleol neu gymunedau penodol o ddiddordeb. Er enghraifft, dywedodd un cyllidwr *"os siaradwch am wasanaethau eiriolaeth ar gyfer yr henoed, yna gall cyrff fel Help the Aged ddarparu'r gwasanaethau hyn yn well nag a all y sector cyhoeddus. Felly nid dim ond mater fod gan y Trydydd Sector gysylltiadau da gyda'r gymuned yw hi ond hefyd, yn symlach, y byddai'r Trydydd Sector yn darparu gwell gwasanaeth mewn llawer achos"*.

Gwelodd ystod o gyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy fod manteision cryf mewn gweithio gyda chyrff Trydydd Sector yn seiliedig o fewn ac wedi cysylltu gyda chymunedau amddifadus - yn aml lle mae *"cleientiaid targed"* wedi'i lleoli yn hytrach na bod mewn *"swyddfeydd newydd sbon danlli"*.

Dyweddodd un cyllidwr *"mae gwreiddiau cyrff Trydydd Sector yn y gymuned ac maen nhw'n gwybod yn well beth yw craidd y materion a'r anghenion dilynol"*. Ychwanegodd bod y Trydydd Sector yn neilltuoel o dda ar *"ddynodi bylchau neu ddiffygion mewn darpariaeth statudol"*.

Soniodd nifer o gyllidwyr hefyd fod contractau cyflenwi gwasanaeth yn gynyddol yn cynnwys gofynion cryf i ddarparwyr fod â phresenodeb

parhaol mewn lleoliadau allweddol, yn hytrach na gweithredu drwy fodel allgymorth. Yn ymarferol, teimlid fod y ffordd hon o weithio yn debygol o ffafrio *“chwaraewyr sefydledig”* yn neilltuol rai o fewn y Trydydd Sector, yn hytrach nag unrhyw newydd fynediad posibl. Roedd hefyd beth tystiolaeth i awgrymu, er enghraifft gydag ail-gyflunio Byrddau Iechyd Lleol, y byddai nerth cyrff Trydydd Sector lleol oedd yn medru *“plygio mewn”* yn dod hyd yn oed yn bwysicach.

Ystyriwyd bod defnydd gwirfoddolwyr yn fantais arall o weithio gyda'r Trydydd Sector. Roedd medru defnyddio sylfaen gwirfoddolwyr yn ddeniadol iawn i nifer o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy. Roedd un enghraifft benodol yn cynnwys cyllidwr a welai bod gan sylfaen gwirfoddolwyr darparwyr Trydydd Sector rôl hollbwysig i'w chwarae wrth *“ddidoli a chyfeirio cleientiaid”* ar yr aelodau staff cymwys mwyaf addas (a chyflogedig). Roedd y cyfleuster hwn yn rhoi mantais gystadleuol allweddol i'r cyrff Trydydd Sector dan sylw gan fod hyn yn ffordd dra effeithiol a chost-effeithlon o sicrhau fod buddiolwyr cymwys yn cael eu trin yn briodol ac yn broffesiynol mewn ffordd strwythuredig. Ymhellach, roedd y ffaith y medrai gwirfoddolwyr hefyd gynnig cymorth atodol i fuddiolwyr heb fod yn gymwys hefyd yn *“bwynt gwerthu”* allweddol i'r cyllidwr dan sylw.

Teimlai nifer o gyllidwyr fod cyrff Trydydd Sector mewn safle cystal ag unrhyw gystadleuwyr yn y sector preifat i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac y medrent yn aml ychwanegu gwerth drwy wasanaethau atodol a gaiff eu darparu drwy ffrydiau cyllid eraill. Soniodd un cyllidwr am y ffaith nad oedd ganddynt *“unrhyw wrthwynebiad o gwbl”* i gyrff Trydydd Sector yn defnyddio incwm contract fel arian cyfatebol i dynnu lawr a datgloi ffrydiau cyllid ychwanegol.

4.1.3 Canfyddiadau ac Agweddau

Er bod cyllidwyr yn glir iawn am yr ystod manteision y medrai gweithio gyda'r Trydydd Sector eu rhoi, dywedodd nifer hefyd fod angen i'r

Trydydd Sector fod yn fwy craff yn y ffordd y maent yn ymgysylltu gyda hwy.

Pwynt allweddol a godwyd gan gyllidwyr oedd bod trefniadau gyda chyrff y Trydydd Sector yn amlwg yn rhai hir-sefydlog a hanesyddol o ran natur. I lawer o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy, arweiniodd hyn at ddiwylliant o *“ddisgwyl cyllid drwy hawl”*. Roedd hwn yn fater pwysig i rai cyllidwyr a deimlai nad oedd yr ymagwedd o *“ni sy'n gwneud hyn ac rydym eisiau cyllid i barhau i wneud hynny”* bellach yn dderbyniol ar nifer o lefelau. Aeth un cyllidwr ymlaen i ddweud *“yr hyn y dylai'r Trydydd Sector ei wneud yn y dyfodol yw dweud: gadewch i mi ddod â siarad gyda chi am yr hyn rydych ei angen ar hyn o bryd, a'ch blaenoriaethau presennol, a gweld os medrwn ddod â rhai ohonyn nhw at ei gilydd.”* Pwysleisiodd y person yma fod *“angen ffordd wahanol o feddwl”*.

Soniodd eraill nad yw dod atynt gyda'u cap yn eu llaw am gyllid ar gyfer gwasanaeth newydd yn ymagwedd effeithlon iawn. Dywedwyd *“Mae angen i'r Trydydd Sector fod yn ymwybodol iawn beth yw'r blaenoriaethau yn y meysydd sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae'n beth dwy ffordd – ydi, mae'n rhaid i'r sector statudol lledaenu gwybodaeth ar eu blaenoriaethau a'u hanghenion ond hefyd, mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol ganfod cyfleoedd ac nid dim ond dod atom ni gyda'u cap yn eu llaw.”*

Yn y cyd-destun hwn, soniodd nifer o randdeiliaid am yr angen i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y sector statudol a'r Trydydd Sector yng nghyswllt ymgynghori ar a lledaenu blaenoriaethau allweddol polisi a chyflenwi gwasanaeth cyn comisiynu.

Dywedodd nifer o gyrff Trydydd Sector wrthym hefyd yn eu profiad hwy fod y berthynas orau rhwng cyllidwr/Trydydd Sector yn digwydd pan oedd cyllidwyr yn penderfynu a chydweithio gyda hwy cyn comisiynu prosiectau neu wasanaethau. *“Mae'n gweithio orau pan maent yn*

siarad gyda ni ymlaen llaw, yn trafod beth sydd ei angen, y ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi a beth yw'r canlyniadau". Soniodd yr unigolyn yma am y rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd a oedd, drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru, wedi defnyddio model *"Brocer Cymunedol"* i ddarparu rhaglen grant cynhwysiant digidol a gostiodd filiynau o bunnau gyda chyrff Trydydd Sector.

Mewn gwrthgyferbyniad, soniodd corff arall o'r Trydydd Sector eu bod yn ddiweddar wedi cael y profiad *"torcalonnus"* o ddefnyddio tri aelod o staff am 80% o'u hamser yn paratoi cais beichus oedd yn aflwyddiannus yn y pen draw.

"Fe gymerodd fwy na thri mis i ni roi'r holl bethau roedden nhw eisiau yn y cais, yna fe gymerodd chwe mis arall iddyn nhw benderfynu ... mae'r cyfnodau hyn o chwe, naw mis ar gyfer ceisiadau yn amhosibl".

Gwelsom hefyd gydnabyddiaeth eang nad yw'r Trydydd Sector yn grŵp unffurf. Soniodd nifer o sylwedyddion fod gan rai cyrff o fewn y Trydydd Sector amcanion *"dyngarol iawn"* a medrid dweud eu bod yn debyg i'r sector cyhoeddus yn nhermau eu nodweddion (e.e. ffynonellau cyllid a llywodraethu) a *"ni fydd y cyrff yma byth yn newid felly mae'n rhaid i arianwyr benderfynu p'un ai ydynt yn gwerthfawrogi hynny ai peidio ac os ydynt eisiau parhau i'w hariannu".*

Yn wir, tybiai un ymatebydd: *"Os ydych yn dibynnu ar arian cyhoeddus - yn arbennig lefelau sylweddol a hirdymor o arian cyhoeddus - ydych chi o ddifrif yn gorff Trydydd Sector neu ydych chi'n gorff sector cyhoeddus?"*

Yn yr un cyd-destun, roedd cyllidwr arall yn bryderus bod *"perygl weithiau y gall cyrff Trydydd Sector ddod yn rhy frodorol"*. Codwyd y pryder hwn gan nifer o ymatebwyr, gydag un yn disgrifio'r mater fel

*“isomorffiaeth”*⁸⁶ h.y. bod ymddygiad a strwythurau cyrff Trydydd Sector yn adlewyrchu rhai'r asiantaethau statudol sy'n eu hariannu. Mewn nifer fach o achosion, roedd hyn wedi arwain at bryderon difrifol am i ba raddau yr oedd rhai cyrff Trydydd Sector yn medru cadw eu hannibyniaeth o'r sector statudol.

Roedd gan y cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy hefyd farn gymysg am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd tybiedig y Trydydd Sector ac yn neilltuoallu rheolaeth ac arweinyddiaeth. Holodd sawl cyllidwr os oedd rhai cyrff Trydydd Sector yng Nghymru wedi dod yn or-ddibynnol ar *“un neu ddau unigolyn allweddol”* ac awgrymu fod hyn wedi arwain at i'r sector *“ddod braidd yn ddiflach”* fel canlyniad *“fawr o newid ar y brig ers cryn nifer o flynyddoedd.”* Awgrymodd y cyllidwyr hyn hefyd efallai fod angen edrych ar ddatblygu *“y genhedlaeth nesaf”* ac annog mwy o arloesi. Awgrymodd nifer o gyllidwyr a chyrff Trydydd Sector hefyd nad oedd y berthynas rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol bob amser mor glir ac y medrai fod gydag un yn crynhoi hyn drwy ddweud *“dyw'r tirlun bob ddim yn hollol glir yn nhermau arweinyddiaeth y sector”*.

Awgrymodd rhai cyllidwyr fod cwmpas sylweddol i'r Trydydd Sector godi ei gêm wrth ganfod ffyrdd newydd o fynd i'r afael â hen broblemau, er bod hefyd gwynabyddiaeth fod hyn yn anodd iawn yng ngoleuni *“slog llwyr ceisio gweithio allan o ble mae'r grant nesaf yn dod ac anhawster torri allan o'r cylch ariannu blynyddol”*.

Credai eraill fod gormod o ddibyniaeth mewn rhai rhannau o'r sector am *“hoff brosiectau”* a hyd yn oed dueddiad i annog diwylliant o ddibyniaeth ar y rhai oedd yn cael eu cynorthwyo: *“drysu gwneud*

⁸⁶ *“Informally, an isomorphism is a kind of mapping between objects, which shows a relationship between two properties or operations. If there exists an isomorphism between two structures, we call the two structures isomorphic. In a certain sense, isomorphic structures are structurally identical, if you choose to ignore finer-grained differences that may arise from how they are defined”*. Ffynhonnell: Wikipedia.

rhywbeth ar gyfer bobl anghenus gyda gwneud gwaith da". Eto, medrid dadlau fod y cylch ariannu grantiau yn annog parhad hyn.

Awgrymodd ein hymchwil fod rhai pryderon gwirioneddol ymysg cyrff Trydydd Sector am agwedd rhai cyllidwyr tuag atynt.

"Mae gwir berygl fod cyllidwyr yn awr yn gweld y Trydydd Sector yn fwy fel y sector preifat. Mae hynny'n addas ar gyfer rhai, ond nid ar gyfer eraill sy'n fwy cydnaws â'r sector cyhoeddus, mae'n peryglu dibrisio natur hollol ddyngarol eu bodolaeth a'u hamcanion".

Dangosodd eraill o fewn y sector bryder, yn neilltuol yn ystod dirwasgiad ac mewn cyfnod o gyfyngu ar wariant sector cyhoeddus, y medrai'r sector cyhoeddus yn gynyddol ystyried y Trydydd Sector fel yr *"opsiwn rhad"* ac y byddai ymrwymiad o fewn y sector yn gynyddol yn cael ei seilio ar fod eisiau sicrhau costau is yn hytrach na gwell cyflenwi gwasanaeth neu werth cyffredinol.

Dadleuodd un corff Trydydd Sector mai ychydig o gysondeb sydd o fewn neu ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad os dylid gweld y Trydydd Sector fel grŵp o gyrff annibynnol sy'n gwneud gwaith da mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus (fel y gall darparwyr eraill) neu os gwelir y sector yn ymarferol yn llwyr ac yn unig fel cyfrwng ar gyfer gweithredu darpariaeth gyhoeddus - ac os felly, medrai fod amheuan difrifol am ei hannibyniaeth.

"Mae'r dryswch yn y Cynulliad yn sylfaenol gan ei bod ychydig bach yn sgitsoffrenig pan ddaw i'r Trydydd Sector.... dydyn nhw ddim yn gwybod os ydyn nhw eisiau economi gymysg o ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus neu dim ond darpariaeth sector cyhoeddus".

Yn eu tro roedd gan gyllidwyr hefyd bryderon fod y Trydydd Sector yn parhau i *"bledio'r achos arbennig"* er eu bod yn cyfaddef mai rhan o'r broblem yn y cyswllt hwn oedd *"yn anffodus, mae'r ymagwedd bowlen*

gardota'n dal i ymddangos fel petai'n gweithio". Cytunodd un arall "Rwy'n credu ei bod yn or-optimistaidd i feddwl y caiff y fowlen gardota ei rhoi o'r neilltu yn y dyfodol agos".

4.2 Arferion Ariannu Presennol

4.2.1 Amserlenni Ariannu

Soniwyd efallai mai mater amserlenni ariannu oedd y pryder mwyaf sylweddol o fewn papur "*Funding Paradigms*" Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gwnaeth y papur hi'n glir nad yw'r Cyngor yn ystyried bod tair blynedd yn gyllid hirdymor⁸⁷, tra bod Cod Ymarfer Cyllido'r Trydydd Sector Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu y dylai ymrwymadau tymor hwy, yn amodol ar berfformiad, gyda hyd at bump neu saith mlynedd ar gyfer cyllid craidd strategol fod yn egwyddor graidd.

Gwelsom beth cefnogaeth ar gyfer y safbwynt hwn ymysg nifer o gyllidwyr a gymerodd ran yn ein hymchwil. Roedd un cyllidwr wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'u trefniadau cyllido ac un o argymhellion allweddol y gwaith oedd cyhoeddi canllawiau y dylai pob perthynas gontract fod "*o leiaf dair blynedd*" ar y sail y byddai ymarferion ail-dendro blynyddol yn mynd â gormod o amser ac adnoddau swyddogion. Dynodwyd hefyd fod contractau o'r fath yn cael eu hystyngiadau "*flwyddyn ar ôl blwyddyn*", gan arwain at y risg y medrai symiau contract cronus mewn rhai achosion fod yn uwch na throthwy rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd.

Ystyriai nifer o gyllidwyr hefyd fod cyllid tymor byr yn tanseilio sefydlogrwydd cyrff Trydydd Sector, yn neilltuoel yng nghyswllt staffio. Tanlinellwyd hyn gan y rhan fwyaf o gyrff Trydydd Sector yn ein grwpiau ffocws. "*Mae cyllid tymor byr nid yn unig yn ei gwneud hi'n*

⁸⁷ Tudalen 5.

anodd i ni gadw ein staff presennol, ond pan mai dim ond contractau tymor byr yr ydych chi'n medru eu cynnig, mae ganddo hefyd ddylanwad uniongyrchol ar galibr yr ymgeiswyr yr ydych yn eu denu yn y lle cyntaf".

Cytunodd nifer o arianwyr, yn ddelfrydol, ei bod yn ddymunol gweithio tuag at gytundebau tymor hwy, cyn belled bod cymalau toriad priodol. Dywedwyd fod yr enghraifft o dair blynedd gydag opsiwn i ehangu am ddwy flynedd arall yn dibynnu ar fonitro perfformiad yn *"agwedd gall"*.

Dywedodd un cyllidwr fod cyllid tymor hwy (a ystyrir gan y person yma i fod rhwng pump a saith mlynedd) *"yn gwneud synnwyr, petai ond oherwydd bod cyrff gwirfoddol da yn gweithio'n galed i feithrin eu gallu dim ond i ganfod eu bod dan bwysau cyson am p'un ai a gânt eu hariannu y tro nesaf."*

Amlinellodd cyllidwr arall eu bod yn awr yn cael eu cyllido am gyfnodau o dair i bum mlynedd fel arfer safonol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y cyllidwr yma *"rydyn ni'n ei gwneud yn glir nag ydyn ni'n ffynhonnell cyllid parhaus"*. Roedd y sefydliad neilltuol yma wedi dod i'r casgliad *"os ydych chi'n ariannu am dair blynedd, rydych chi'n colli'r flwyddyn gyntaf yn sefydlu'r prosiect ac yn colli'r flwyddyn olaf gyda'r gweithgareddau cynllunio gadael. Drwy gyllido am bum mlynedd rydych chi'n cael tair gwaith faint o wir allbwn am ddim ond 1.66 gwaith y cyfanswm cost"*.

Pwysleisiodd cyllidwyr hefyd fod angen i fater amserlenni cyllido gael eu cysylltu'n agos gyda datblygu trefniadau mwy cadarn a'u monitro. *"Os yw dangosyddion perfformiad sefydliad gwirfoddol yn dangos 'golau gwyrdd' drwy'r amser, ac y rhagwelir y bydd yr angen am y gwasanaeth a ddarparant yn parhau yn y dyfodol, yna pam lai cytuno ar gyfnod cyllido tymor hwy?"*

Fodd bynnag, cododd cyllidwyr nifer o faterion allweddol oedd yn ymarferol yn gweithio yn erbyn cytuno i ymrwymadau cyllid tymor hwy. Yn bennaf yn eu plith oedd y ffaith fod cylchoedd gwleidyddol yn gweithio ar sail pedair neu bum mlynedd *“a does neb eisiau clymu eu hunain i rywbeth hirach na hyn”* ar y sail y medrai newid gwleidyddol ddod â blaenoriaethau hollol wahanol.

Mewn gwirionedd, ystyriai cyllidwyr fod y cylch gwleidyddol yn gymaint - os nad mwy - o rwystr i osod cytundebau cyllid tymor hwy ar waith na chyfyngiadau cyllideb, rheoliadau caffaeliad neu gylchoedd cynllunio busnes.

Awgrymodd un cyllidwr, ar gyfer unrhyw beth mwy na thair blynedd *“rydych i mewn i bob math o broblemau gydag amserlenni gwleidyddol a gwneud ymrwymadau efallai na fyddai llywodraethau'r dyfodol eisiau cadw atynt”*. Cytunodd eraill gyda'r farn hon ac awgrymu *“rydyn ni'n gwybod am y drafodaeth am gyllid tymor hwy ond credwn fod ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol fwy neu lai yn iawn”*.

Credai eraill fod contractau tair blynedd yn ddigon hir i roi rhywfaint o sefydlogrwydd i gontractwyr a heb fod yn rhy hir i glymu'r cyllidwr (yn gweithio yn yr achos hwn ar gylch cyllideb flynyddol) am gyfnod rhy hir.

Dywedodd un ymatebydd *“does dim mewn damcaniaeth o safbwynt caffaeliad a fyddai'n rhwystro cyllid tair neu bedair blynedd. Mae'r materion i gyd yn rhai ymarferol: sut mae awdurdod lleol yn gwybod pa gyllid sydd ar gael am y cyfnod hwn, beth sy'n digwydd pan fo strategaethau a blaenoriaethau yn newid, beth yw effaith y cylch gwleidyddol?”*

Clywsom fod rhai cyllidwyr yn ymwybodol iawn o'r effaith y gall trefniadau ariannu byrrach eu cael ar gyrff Trydydd Sector ac yn frwd i ymchwilio ffyrdd y medrid mynd i'r afael â hyn. Dywedodd un *“Byddwn*

wrth fy modd yn meddwl y medrem symud i gyllid pedair neu bum mlynedd neu ryw fath o ffordd arall o fynegi ein hunain”.

Soniodd y cyllidwr dan sylw am y trefniadau sydd gan y DCLG⁸⁸ gyda chyrff partner allweddol yn Lloegr ac awgrymu *“byddai’n dda ceisio ffordd o sefydlu’r math yma o ddisgwyliad yng Nghymru.”*

Fel pwynt cyffredinol o egwyddor, aeth y cyllidwr yma ymlaen i awgrymu, wrth gynllunio ar gyfer llywodraeth newydd, y dylai swyddogion weithio ar y sail y bydd *“y rhan fwyaf o bethau yn cario ymlaen a byddwn yn newid y pethau y dywedwyd wrthym am eu newid”*, yn hytrach na thybio y dylid ymrwymo i gyn lleied ag sy’n bosibl o ymrwymadau parhaus.

Gwelsom hefyd beth cydymdeimlad ymysg cyllidwyr am y farn fod angen deilliannau tymor hir weithiau o ddulliau cyllido tymor byr. Awgrymodd un *“mae gormod o’r systemau cyllido yn rhai tymor byr neu flynyddol o gymharu gyda’r hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni mewn gwirionedd... nid yw’n ymddangos fod llawer o berthynas rhyngddynt”* ac un arall *“mewn llawer ffordd damwain hanesyddol yw beth gaiff ei ariannu’n llawn drwy’r wladwriaeth a beth gaiff ei adael yn bennaf i weithredu gwirfoddol a chymunedol”*.

Er y gall peth cydymdeimlad fod wedi bod yng nghyswllt amserlenni cyllid ymysg cyllidwyr, dadleuodd nifer o’r rhai a gyfwelwyd fod hefyd realaeth braidd yn llym oherwydd y dirwasgiad a lefelau parhaus dyled y Llywodraeth *“nid nawr yw’r amser gorau i fod yn dadlau am amserlenni llawer hirach”*. Awgrymodd un arall, fodd bynnag, nad oedd unrhyw rheswm mewn egwyddor pam na fedirid ymrwymo o leiaf rai cyllidebau dros nifer fwy o flynyddoedd ymlaen llaw *“mae’n fater o reoli eich ymrwymadau”* – cyn belled nad oedd y cyfanswm cronrus yn gostwng yn ormodol i ymdopi gyda newid mewn amgylchiadau. O’r

⁸⁸ Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

safbwynt hwn, mae'n glir fod y cyrff statudol neu adrannau hynny sy'n sianelu'r cyfrannau uchaf o'u cyllid eu hunain drwy'r Trydydd Sector neu drwy gomisiynu yn debygol o fod yn fwyaf gochelgar o ymrwymo i drefniadau tymor hir fel y rheol gyffredinol.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyrff Trydydd Sector yn ein grwpiau ffocws yn croesawu'r math yma o ymagwedd, ond awgrymodd un neu ddau mai eu profiad hwy oedd y dylai ymrwymiad *"mewn egwyddor"* fod yn rhwymo gan fod cyllidwyr yn aml yn *"ofni rhoi ymrwymadau mewn egwyddor i lawr mewn ysgrifen"*.

Un o'r pryderon allweddol a amlygwyd gan y Trydydd Sector yn ein grwpiau ffocws oedd bod cyllidwyr *"yn newid eu meddyliau o hyd ar fympwy"* a *"mae'r hyn sy'n hollbwysig un diwrnod yn hen newyddion y diwrnod nesaf"*. Roedd y mater yn aml wedi'i gysylltu yn y bôn gyda chylchoedd ariannu byr iawn (un flwyddyn) a theimlai cyrff Trydydd Sector fod hynny yn dadsefydlogi ac yn arwain at *"angen cyson i ailddyfeisio ein hunain a'r ffordd yr ydym yn pecynnu ein gwasanaethau"*.

4.2.2 Systemau Ariannu

Cadarnhaodd ein gwaith maes gyda chyllidwyr a'r grwpiau ffocws gyda chyrff Trydydd Sector y caiff ystod eang o arferion a systemau eu defnyddio ar hyn o bryd i ariannu'r sector.

Roedd yn glir y medrai amrywiaeth o wahanol ymagweddau fod ar waith hyd yn oed o fewn adrannau sector cyhoeddus, yn cynnwys:

- Trefniadau ariannu craidd;
- Cytundebau lefel gwasanaeth;
- Cynlluniau grant cystadleuol;
- Cylchoedd bidio prosiect/rhaglen;
- Caffaeliad agored;

- Trosglwyddo asedau (er dim ond mewn nifer fach iawn o achosion).

Roedd hefyd gymysgedd yn nhermau i ba raddau yr oedd systemau ariannu wedi'u cyfyngu i'r Trydydd Sector neu ar agor yn ehangach i eraill gystadlu amdanynt. Er bod trefniadau cyllid craidd yn fwy tebygol o fod wedi'u cyfyngu neu eu neilltuo i gyrff Trydydd Sector, roedd rhaglenni cystadleuol a phrosesau caffaeliad yn gyffredinol yn golygu ymagwedd fwy agored ac felly'n ymhlyg lefel uwch o gystadleuaeth ar gyfer cyflenwyr Trydydd Sector.

Soniodd nifer o gyrff Trydydd Sector ei bod yn bwysig iawn sicrhau cymysgedd o gronfeydd wedi'u cyfyngu a heb eu cyfyngu a bod mynychder cyllid wedi'i gyfyngu yn broblem. *“Os yw’ch arian cyfyngedig wedi’i gyfyngu’n llwyr i rai gweithgareddau ac os nad ydych am ba bynnag reswm wedi gwario cymaint â hynny, mae mor gyfyngedig fel ei bod bron yn rhwystro’r hyn rydych eisiau ei wneud”*. Cyfeiriodd nifer o gyrff a dderbyniodd gyllid fod un cynllun grant genedlaethol yn neilltuo o broblematig yn y cyswllt hwn. *“Mae cymaint o gyfyngiadau arno. Mae wedi’i gyfyngu i faint o bunnoedd a warir ar bob llinell yn y gyllideb. “Mae bob amser bethau rydych yn anghofio amdanynt wrth wneud cyllideb, pethau bach ... ac yn y grant arbennig yna nid oes dim hyblygrwydd o gwbl ... yn lle medru dweud y byddai’n llawer gwell arnom i’w symud o fan hyn i fan draw i gael y canlyniadau rydyn ni gyd eisiau”*.

Canfyddiad i’w nodi o’n gwaith maes gyda chyllidwyr a derbynwyr Trydydd Sector oedd y diffyg arbrofi gyda dulliau seiliedig ar asedau, gwaddol neu fuddsoddiad. Soniodd nifer o ymatebwyr fod *“llawer iawn o nerfusrwydd”* am ddulliau seiliedig ar asedau a bod *“pobl yn bryderus iawn”* am fynd yn groes i reoli Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd. Roedd hefyd bryder y medrai trosglwyddo asedau fod yn fendith gymysg o safbwynt y Trydydd Sector, gydag un ymatebydd yn

dweud wrthym “*mae ased un person yn aml yn rwymedigaeth i berson arall*”.

Roedd dau eithriad i hyn. Yn gyntaf, roedd llawer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi eu ffurfio drwy drosglwyddo stoc i'r sefydliad, gyda'r asedau hyn yn rhan hanfodol o'r model ariannol yn galluogi buddsoddiad mewn uwchraddio'r stad.

Yn ail, roedd y Gronfa Loteri Fawr yn ddiweddar wedi lansio rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol gan ddod â chyllid cyfalaf a refeniw ynghyd i gefnogi trosglwyddo tir ac adeiladau a dan-ddefnyddiwyd o'r sector cyhoeddus i berchnogaeth a rheolaeth y gymuned. Mae hon yn rhaglen grant partneriaeth sy'n cyfuno cyllid cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad a chyllid refeniw y Loteri Fawr yn gyfanswm o £13 miliwn i'w gweinyddu drwy un broses gais.

Amlinellodd un o'r cyllidwyr y gwnaethom eu cyfweld eu bod yn gweithio ar hyn o bryd ar rai cynigion i ddatlbygu Bond Tai Cymru a fyddai'n galluogi LCC i godi arian ar y marchnadoedd ariannol dros gyfnod llawer hwy na'u cyllid presennol seiliedig ar forgais. Roedd hyn wedi'i seilio'n llac ar fodel Dŵr Cymru. Enghraifft arall o ddatblygiad yn cynnwys trosglwyddo asedau oedd ym maes prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol, lle'r oedd y cyllidwr dan sylw yn cyrchu cyllid yr Undeb Ewropeaidd i greu mentrau cymdeithasol a fyddai'n manteisio o ac aildefnyddio'r ffrwd refeniw a grëwyd fel canlyniad i fuddsoddiad cyfalaf wrth gynhyrchu capasiti yn ogystal â gwireddu manteision amgylcheddol.

Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, ychydig iawn o ddealltwriaeth neu brofiad a welsom o ddulliau gwaddol at gyllid Trydydd Sector yng Nghymru a soniodd nifer fechan o randdeiliaid fod hyn yn achos o bryder allweddol ac yn faes y dylai Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill fynd ag ef ymlaen yn strategol.

Soniodd un cyllidwr (er wedi'i gyfyngu i nifer fach o achosion), fod cyllid weithiau'n cael ei "*roi fel sop*," fel ffordd o ddangos peth pryder ar bethau cynhenid anodd, yn hytrach nag mewn unrhyw ddisgwyliad y byddai'n neilltuol o effeithlon wrth fynd i'r afael â phroblem sylfaenol. Credai'r person yma fod hyn yn aml yn arwain at greu prosiectau peilot lle nad oedd unrhyw allu neu fwriad i ymestyn neu brif ffrydio unrhyw ddulliau llwyddiannus yn fwy eang. Mewn modd tebyg, soniodd cyllidwyr eraill am rwystredigaeth fod ffyrdd presennol o weithio'n golygu anallu i adeiladu ar ac atgynhyrchu pethau oedd yn gweithio'n dda a bod "*pawb bob amser yn ôl i'r cychwyn*" ar ôl cynlluniau prosiect llwyddiannus.

Roedd hefyd yn wir nad oedd dim o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy yn gweithio ar sail dyrannu neu neilltuo cyfran wedi'i rag-bennu o'u cyllidebau yn benodol ar gyfer y Trydydd Sector. Dywedodd un cyllidwr bod "*nodau ein cyllideb yn wahanol i hynny*". Ni welai dim o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy unrhyw botensial am symud tuag at osod targedau ar gyfer lefelau gwariant gyda'r Trydydd Sector (neu unrhyw sector arall o ran hynny) gan y byddai dull o'r fath yn groes i'r angen am gynyddu tryloywder. Roedd hyn yn wir pa bynnag system gyllido a fabwysiadwyd, ond roedd yn neilltuol o wir yng nghyd-destun cyllidwyr yn ymwneud â chaffael gwasanaethau a gododd bryderon sylfaenol y byddai dull o'r fath yn cael ystyried fel un gwrth-gystadleuol.

4.2.3 Y Cymysgedd Cyllid a Rôl Caffaeliad

Dangosodd ein hymchwil farn wahanol rhwng cyllidwyr a'r Trydydd Sector yng nghyswllt y gwahanol ddulliau cyllid a ddefnyddir gyda ac sydd ar gael i'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Felly, credai un cyllidwr fod y data yn dangos shiftt mewn patrymau cyllid o blaid caffaeliad ac i ffwrdd o gyllid grant craidd yn "*bendant yno*" ac yn arwain at gwestiynau difrifol am "*gydbwysedd amrywiaeth cyllid*" i'r Trydydd Sector ar draws y Deyrnas Unedig.

Cytunai nifer o gyllidwyr gyda'r safbwynt yma:

- *“Rydyn ni’n symud ymaith o gyllid craidd. Roedd gennym wyth trefniant yn arfer bod yn eu lle ac rydyn ni lawr i ddau. Mae’r ddau sydd ar ôl i ddod i ben dros y tair blynedd nesaf. Rydyn ni’n deall fod hynny’n sioc i’r system ond mae’n bendant y peth iawn i wneud”.*
- *“Yn y gorffennol roedden ni’n defnyddio cytundebau partneriaeth oedd yn rhy amwys ac nad oedd cyfiawnhad drostynt. Doedden nhw ddim yn foddhaol”.*

Awgrymodd nifer o gyllidwyr hefyd fod y tueddiad tuag at gaffaeliad yma i aros a:

- *“Mae ethos caffaeliad yn gryf o fewn Llywodraeth y Cynulliad y dyddiau yma. Mae tendro neu gystadlu am bopeth mewn rhyw ffordd”.*
- *“Fe gawson ni ein cyhuddo o ddangos ffafriaeth yn y gorffennol. Dydi hynny ddim yn dderbyniol. Dyma’r unig ffordd o wneud pethau”.*
- *“Mae gan y Trydydd Sector ddewis. Maent un ai’n cytuno ar hyn a’i weld fel cyfle - a dyna yw e oherwydd ein bod ni’n cynyddu’n sylweddol faint rydyn ni’n ei gael o’r tu allan. Neu - maen nhw’n cael eu gadael ar ôl.”*

Cytunodd cyllidwr arall fod yn *“bendant iawn”* dueddiad cryf o fewn Llywodraeth y Cynulliad i fynd lawr llwybr caffaeliad yn nhermau gwasanaethau a oedd yn y gorffennol wedi eu darparu gan Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff penodol. Roedd hyn yn *“cael ei yrru’n gorfforaethol - yn amlwg iawn, rydyn ni’n cael*

cyfarwyddyd clir iawn ar lefel gorfforaethol mai dyma'r llwybr y dylem fod yn ei ddilyn".

Dywedodd cyllidwyr wrthym fod y prif ddadleuon dros gynyddu'r defnydd o gaffaeliad a gostwng grantiau craidd yn ymwneud â'r angen i gynyddu tegwch a thrylowydr. Dywedodd un cyllidwr wrthym:

"Mae egwyddor sylfaenol o degwch ar waith yma sy'n rhoi cyfle i bobl eraill ddweud – o ba bynnag sector – y medrwn wneud yr un gwaith gystal am lai o arian."

Dywedodd cyllidwr arall wrthym fod uwch reolwyr o fewn eu sefydliad yn awr yn anghymeradwyo'n gryf berthynas ariannu *"lled-gontractiol"* megis Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar y sail y dylai perthynas un ai gael eu seilio ar sail contract - ac os felly bod tybiaeth gref o blaid tendro cystadleuol - neu'n seiliedig ar grant, ac os felly y dylai fod *"cytundeb ariannu"* yn nodi'r hyn y bwriedid i'r cyllid ei gyflawni ac yn gosod y berthynas gyda'r Trydydd Sector ar sail gontractiol gryfach.

Ar y llaw arall, ychydig iawn o'r cyrff Trydydd Sector y gwnaethom siarad â hwy oedd yn meddwl y bu'r newid tuag at gaffaeliad yn neilltuol o amlwg hyd yma. Er y dywedodd nifer wrthym fod cyllid grant craidd yn anodd iawn ei gael y dyddiau hyn a bod cystadleuaeth am grantiau wedi cynyddu'n sylweddol iawn, neges allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd nad oeddent wedi gweld tueddiad go iawn hyd yma tuag at fwy o gaffaeliad.

Soniodd cyrff eraill o'r Trydydd Sector fod y gostyngiad yn y grant sydd ar gael yn golygu eu bod yn gorfod dibynnu mwy ar eu gweithgareddau codi arian eu hunain. Dywedodd un corff eu bod yn ei chael yn wirioneddol anodd yn yr hinsawdd bresennol a'u bod yn gorfod gofyn i lawer o fusnesau bach a chanolig lleol.

Soniodd nifer o gyllidwyr hefyd fod cyllid Ewropeaidd â rhan wrth gyflymu proses symud tuag at gaffaeliad, ond mewn gwirionedd fod popeth yn anelu yn y cyfeiriad hwnnw beth bynnag. Soniodd rhai cyllidwyr hefyd fod gofynion cynyddol caffaeliad dan Raglenni 2007-13 sy'n gweithredu yng Nghymru'n golygu fod nifer o gyrff mawr yn y Trydydd Sector yn awr yn gorfod bod yn llawer mwy tryloyw yn y ffordd y cyflwynent brosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, gan orfod dibynnu eu hunain ar ddefnyddio prosesau caffaeliad ffurfiol a bod y sefyllfa *“potsiwr wedi troi'n gipar”* yn iach iawn ac wedi arwain at iddynt weld eu safbwynt hwy am y tro cyntaf.

Roedd gan rai o'r cyllidwyr y buom yn siarad gyda hwy bryderon am effaith y llwybr caffaeliad ar seilwaith datblygu cymunedol. *“Mewn rhai achosion, mae achos dros ddweud ein bod wirioneddol eisiau seilwaith cymunedol ... ac y dylem fod yn ofalus rhag i hynny ddiflannu yn ddiwriad oherwydd pwysau cyson caffaeliad, a all alluogi rhai cyrff a werthfawrogwn i gael eu gwrthio o'r neilltu”*.

Er bod dadleuon cryf dros gaffaeliad o safbwynt tegwch ac effeithiolrwydd, cododd rhai cyllidwyr hefyd gwestiynau pa mor addas oedd y dulliau a ddefnyddiwyd. Dywedodd un ymatebydd y credent fod *“perygl gwirioneddol”* wrth ddefnyddio caffaeliad pan efallai nad dyna'r dull mwyaf addas. Cododd cyrff Trydydd Sector hefyd bryderon yn ein grwpiau ffocws nad yw arferion caffaeliad bob amser yn addas iawn ar gyfer y gwasanaethau dan sylw. Roedd peth cydymdeimlad gyda'r farn hon ymysg cyllidwyr, gyda nifer yn cydnabod fod rhai prosesau caffaeliad anaddas a gynlluniwyd ar gyfer cwmnïau adeiladu neu beirianeg strwythurol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyrff bach yn y Trydydd Sector. Fel canlyniad, dywedodd un cyllidwr fod *“perygl fod cyrff llai yn cael eu gwasgu allan”*, er fel y nodwyd yn gynharach, ni ddaeth hyn trwodd yn gryf o safbwynt y Trydydd Sector (neu hyd yma o leiaf) yn ystod ein hymchwil.

Dywedodd cyllidwr arall *“mae diffyg cyfatebiaeth llwyr. Nid yw systemau a gafodd eu sefydlu ar gyfer un peth yn ffitio'r math o beth rydyn ni'n ei wneud o gwbl. Mae'n rhaid i ni sylweddoli hynny a gwneud rhywbeth amdano cyn mynd yn llwyr i lawr y llwybr caffaeliad”*.

Er y gwahanol Godau Ymarfer a'r dogfennau canllaw oedd ar gael, roedd tystiolaeth hefyd i awgrymu nad oedd cyllidwyr bob amser yn glir pa ddull ariannu y dylent ei ddewis neu ba un fyddai fwyaf addas mewn unrhyw sefyllfa benodol. Dywedodd un cyllidwr wrthym *“fe fyddwn i'n dyfalu fod peth dryswch yn dal i fod rhwng pethau sy'n cael cyllid grant a phethau contractiol a dwi ddim yn meddwl ein bod ni byth wedi cael hynny'n iawn yn y graddau rydyn i'n ymateb i'r galw o'r gwaelod i fyny neu osod darpariaeth gwasanaeth”*.

Roedd cyllidwyr hefyd yn cydnabod fod y cyrch tybiedig am fwy o dryloywder a bod yn broffesiynol yn golygu'n troi'n gynyddol at gaffaeliad fel y sefyllfa ragosod pan mewn gwirionedd efallai nad hyn oedd y dull mwyaf effeithiol o ymrwymo. Mewn sawl achos, roedd hyn hefyd wedi golygu fod cyllidwyr wedi cynyddu ffurfioldeb y prosesau ymrwymo (gydag, er enghraifft, lai o allu i ymgynghori a gweithio'n anffurfiol gyda chyrff y Trydydd Sector a oedd yn cael eu hariannu ar hyn o bryd ar ddiffinio natur y gwasanaeth oherwydd ofn cael eu gweld yn rhoi mantais iddynt), gydag un yn cyfaddef *“rydyn ni'n dda iawn am fiwrocratiaeth”*.

Roedd teimlad ymysg rhai rhanddeiliad fod cynyddu'r defnydd o gaffaeliad mewn rhai achosion yn rhoi mwy o sicrwydd cyllid ar gyfer cyrff Trydydd Sector a hefyd fod y berthynas rhwng cyllid a chanlyniadau yn fwy eglur a chymesur.

“Yr arfer safonol dan ein rheolau caffaeliad yw tair blynedd gydag opsiwn i ymestyn. Gyda'r hen drefniadau cyllid craidd, roedden ni'n gorfod cytuno talu'r rheini yn flynyddol. Felly fe fyddwn i'n dadlau y gall caffaeliad gynnig mwy o sicrwydd”.

Dadleuodd rhai hefyd fod caffaeliad yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon am lefelau cyllid grant cyfyngedig gan ddadlau fod contractio yn aml yn ddewis eithaf deniadol gan ei fod yn galluogi cyrff i weithio'n greadigol i gynhyrchu gwargedion: h.y. pe medrid cynhyrchu allbynnau gyda lefel is o fewnbynnau, ni fyddai'r arbedion hyn yn cael eu hadfachu dan delerau contract yn yr un ffordd ag y byddent gyda dull seiliedig ar grant.

Fodd bynnag, cwestiynodd rhai'r farn fwy calonogol yma o gaffaeliad, gydag un yn dweud *“fy mhrofiad i o gaffaeliad yw mai dim ond pan maent eisiau newid pethau y mae cyllidwyr yn defnyddio caffaeliad fel arfer ... yn hytrach nag oherwydd egwyddor, er a bod yn deg, mae hynny'n newid. Ond os nad yw pobl eisiau defnyddio caffaeliad, mae ffordd arall o'i chwmpas hi fel arfer”*.

Ychydig o dystiolaeth a welsom gan un ai'r cyllidwyr neu'r cyrff Trydydd Sector y gwnaethom gyfweld â hwy i awgrymu fod caffaeliad wedi arwain at fwy o ddiddordeb neu gystadleuaeth gan cyrff trydydd sector. Dim ond un achos o sefydliad *“am elw”* a welsom yn ennill contract gwasanaethau cymunedol a oedd wedi achosi peth gofid ymysg y Trydydd Sector yn lleol. Heblaw hyn, soniodd cyllidwyr bod cystadleuaeth fel canlyniad i dendrau bron yn anochel yn gystadleuaeth o fewn y Trydydd Sector.

Tanlinellodd nifer o randdeiliaid hefyd nad yw'r Trydydd Sector yn achos arbennig mewn unrhyw ffordd wrth wynebu'r her o gaffaeliad cynyddol. *“Mae busnesau bach hefyd i raddau helaeth yn wynebu'r problemau caffaeliad y mae'r Trydydd Sector yn eu hwynebu.”*

4.2.4 Cefnogaeth Caffaeliad – Trydydd Sector

Soniodd nifer o ymatebwyr am gynnydd yn lefel y gweithgaredd cefnogaeth caffaeliad a gynigir i'r Trydydd Sector. Roedd

enghreiffiau'n cynnwys gweithdai “*sut i fidio*” a gweithgaredd cefnogaeth mentora a drefnwyd ar y cyd gan Gwerth Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer darpar contractwyr.

Tanlinellodd nifer o gyllidwyr bwysigrwydd gweithgaredd o'r fath a chytuno gydag un cyllidwr a gredai fod cyrff Trydydd Sector yn wael iawn am werthu eu hunain.

“Mae'n bendant fod angen i'r Trydydd Sector godi eu safonau. Mae eu brwdfrydedd am eu gwaith yn wych. Does dim dau am hynny. Ond mae angen iddynt gefnogi hynny gyda phroffesiynoldeb. Mae hynny'n golygu fod angen i ni yn y sector cyhoeddus fod yn fwy agored am yr hyn a ddisgwyliwn ganddynt. Mae hefyd yn golygu cystadleuaeth mewn rhyw ffordd neu'r llall ac mae'n rhaid i'r Trydydd Sector ddysgu peidio cymryd hynny'n bersonol.”

Dywedodd nifer o gyrff Trydydd Sector fod dynodi a chyfathrebu eu cryfderau allweddol yn her wirioneddol iddynt.

“Er ein bod yn dal i fyny dipyn erbyn hyn, rydyn ni'n dal i beidio ei chael yn arbennig o naturiol i weiddi am yr hyn rydyn ni'n wneud”.

Fodd bynnag, nid dyma'r farn ymhlith pawb, gyda rhai cyllidwyr yn dweud mai eu profiad hwy oedd bod cyrff y Trydydd Sector yn llawer gwell am dendro na chyrff y sector preifat fel arfer: *“maent ben ac ysgwydd uwchben y sector preifat”*. Nid oedd y cyllidwr neilltuol yma'n gweld hyn yn syndod gan gredu nad oedd llawer iawn o wahaniaeth rhwng cyflwyno cais am grant ac ysgrifennu tendr. Aeth y person yma ymlaen i ddweud fod unrhyw bryderon ar ran cyrff o fewn y Trydydd Sector am gael eu gwasgu allan gan y sector preifat wedi'u *“gorddweud yn ddifrifol.”*

Dywedodd rhai bod angen pwyll rhag disgwyl canlyniadau ar unwaith o gynnig cefnogaeth drwy weithdai tendro. Credai un ymatebydd

“oherwydd eich bod chi’n herio pobl i newid eu ffyrdd ... yna mae’n rhaid i chi dderbyn y bydd y newidiadau hyn yn cymryd llawer o amser”. Mae hyn yn awgrymu, os rhoddir cefnogaeth (e.e. hyfforddiant), gall fod angen iddo gael ei strwythuro, bod yn hirdymor a chael ei ddarparu yng nghyswllt meysydd eraill o gefnogaeth, megis canllawiau ysgrifenedig safon uchel ar gael ar y rhyngwrdd. Yn ôl yr un ymatebydd, “ddylai cyllidwyr ddim disgwyl i ddigwyddiadau hyfforddiant unigoli gael llawer o effaith ar eu pen eu hunain.”

Y *quid pro quo* i hyn oedd bod yn rhaid cael ymateb cadarnhaol gan y Trydydd Sector wrth gymryd y gefnogaeth oedd ar gael. Dywedodd un ymatebydd *“mae’n rhaid i’r Trydydd Sector ymwneud gyda’r gefnogaeth”* ac ychwanegodd ymatebydd arall *“rhaid hefyd fod onws ar y sector gwirfoddol i baratoi eu hunain i fedru ymateb i ofynion comisiynu”*. Yn ôl rhai o’r bobl y gwnaethom eu cyfwelid, mae *“peth tystiolaeth eu bod nhw ond mae’n amrywio llawer”*. Yn y cyswllt hwn, roedd rhai pryderon nad oedd y cyrff lleiaf oll yn y Trydydd Sector yn ymrwymo gymaint ag y dylent neu y medrent. Fodd bynnag gall y ffaith nad oes staff cyflogedig gan lawer o gyrff bach iawn fod yn gyfyngiad sylweddol ar eu gallu i fanteisio’n llawn ar gefnogaeth o’r fath.

Roedd hefyd enghreifftiau da o gyrff comisiynu oedd wedi gweithio’n effeithol gyda phartneriaid Trydydd Sector. Felly roedd un Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol wedi ffurfio *“triwriaeth”* gyda’r Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol oedd wedi gweithio i *“gasglu a lledaenu gwybodaeth yn dda iawn. Mae gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol bwyllgorau cydlynu sector gwirfoddol ac ymddengys eu bod yn gweithio’n dda wrth sicrhau fod y sector yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf.”*

Pwysleisiodd cyrff Trydydd Sector hefyd yr angen i gomisiynwyr fod yn fwy rhagweithiol a chyfrifol wrth roi adborth adeiladol ac amserol yng nghyswllt cynigion tendr a cheisiadau am grant llwyddiannus a hefyd aflwyddiannus. Roedd rhai cyrff Trydydd Sector wedi cael profiadau

cadarnhaol yn y cyswllt hwn. Dywedodd un *“Yr un peth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ardderchog amdano yw bod yn onest gyda ni ... Felly fe fyddwn nhw’n dweud, mae hyn yn sbwriel llwyr ond does dim llawer y medrwn ei wneud amdano ... maen nhw wedi gwneud gwaith gwych ... does gen i ddim gair gwael i ddweud am y bobl yr ydyn ni’n delio gyda nhw”*.

Cawsom sawl enghraifft, fodd bynnag, o gyllidwyr yn dweud fod *“adborth yn araf iawn a phoenus i’w gael”* a phan ddaeth adborth, nad oedd o fawr o gymorth yng nghyd-destun dynodi pa welliannau oedd eu hangen. Amlygwyd hyn fel consyrn allweddol i gyrff Trydydd Sector ac roedd y dylid cynyddu ymdrechion gan gyllidwyr sector cyhoeddus i sicrhau y gwelir adborth adeiladol yn rhan hanfodol o’r comisiynu yn neges allweddol a anelwyd at wella profiad ac agwedd fasnachol pob cyflenwr, nid dim ond y Trydydd Sector.

4.2.5 Cefnogaeth Caffaeliad – Y Sector Cyhoeddus

Neges glir a ddaeth o’n hymchwil yw tra bod cefnogi’r Trydydd Sector i’w galluogi i gynnig am contractau yn hanfodol, bod mwy fyth o angen hyfforddiant a chefnogaeth i’r rhai o fewn y sector statudol sy’n ymwneud â chomisiynu neu gaffael gwasanaethau er mwyn sicrhau y caiff arferion addas a chymesur eu defnyddio. Credai nifer o gyrff Trydydd Sector a ddaeth i’n grwpiau ffocws fod cyllidwyr yn aml yn defnyddio agwedd *“cŷn i agor cneuen”*.

Consyrn allweddol yn y cyd-destun hwn yw bod swyddogion caffaeliad yn rhoi cyngor addas i gomisiynwyr y Trydydd Sector i sicrhau y caiff y dulliau a phrosesau ariannu mwyaf addas eu defnyddio. *“Mae’n hollbwysig bod gwell dealltwriaeth o’r Trydydd Sector yn llifo trwodd i swyddogion caffaeliad”*.

Mae arwyddion fod y mater hwn yn cael ei gymryd o ddifrif yng Nghymru, gyda Gwerth Cymru er enghraifft yn datblygu Cynllunydd

Llwybr Caffaeliad sydd fe ymddengys yn anelu i hyrwyddo dull mwy strwythuredig cam-wrth-gam at gaffaeliad ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n debyg i'r Cynllunydd gael ei ddatblygu ar dystiolaeth fod cyrff llai (preifat a Trydydd Sector) yn ei chael yn anodd ymdopi gyda newidiadau yn y tirlun caffaeliad.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder nad yw systemau caffaeliad yn caniatáu disgresiwn gyda bidwyr yn cael eu *"marcio ar yr hyn a gyflwynant"* gan awgrymu fod angen mwy o hyblygrwydd (gan gadw lefelau priodol o dryloywder a thrylwyrdd) o fewn y system. Dywedodd un ymatebydd:

"Rwyf wedi clywed am achosion pan oedd Paneli Asesu yn gwybod yn iawn y medrai corff Trydydd Sector wneud hyn neu'r llall, ond oherwydd nad oedden nhw wedi dweud hynny yn y tender, chawson nhw ddim unrhyw farciau amdano".

Roedd hyn yn broblem, yn neilltuol o gofio am ddiwylliant o fewn llawer o gyrff Trydydd Sector o beidio bod, fel y dywedodd un ymatebydd, *"mor agored wrth ddweud bobl yr hyn y maent wedi'i wneud a'r hyn y gallant ei wneud"*.

Mater arall a ddaeth i'r amlwg o'n trafodaethau yw nad yw cyllidwyr bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng comisiynu a chaffaeliad ac yn rhy aml o lawer bod cyllidwyr yn disgyn i'r trap o dybio mai caffaeliad yw'r unig ffordd i gomisiynu. Nododd cyrff Trydydd Sector yn hollol gywir y gall y sector cyhoeddus gomisiynu gwasanaethau heb o reidrwydd fynd allan i dendr agored a chystadleuol a bod angen i swyddogion caffaeliad wneud hyn yn gliriach yn eu cyngor i gomisiynwyr.

4.3 Y Berthynas rhwng Cyllid a Deilliannau

Thema allweddol o'n hymchwil gyda chyllidwyr a chyrff Trydydd Sector fu'r graddau y caiff y seilwaith cyllido Trydydd Sector yng Nghymru ei yrru gan ddeilliannau (neu beidio).

Cydnabu cyllidwyr a hefyd gyrff y Trydydd Sector yn hanesyddol na fu'r broses o ddiffinio a monitro deilliannau'n gysylltiedig ag ariannu'r Trydydd Sector yn gryfder neilltuol yng Nghymru. Soniodd cyllidwyr a derbynwyr yn aml am dueddiad i gymysgu allbynnau gyda deilliannau ac mewn rhai achosion hyd yn oed gyda mewnbynnau. Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr nad oedd Cymru ar ei phen ei hun yn hyn o beth a bod y darlun yn Lloegr yn debyg iawn. Yn y cyswllt hwn, dywedodd un sylwedydd nad oedd *"iaith deilliannau"* yn cael ei deall yn neilltuol o dda yng Nghymru.

Dywedodd un cyllidwr nad oedd fframwaith y llywodraeth ar gyfer cynlluniau grant yn neilltuol wedi datblygu yn gydwastad gyda'r cynnydd cyflym yn yr adnoddau a ddyrannwyd iddynt *"mae'n debyg ein bod yn aml yn rhoi sbectol uchel ar y darn cywir ... mae'r system yn ein gwthio i fod yn fwy biwrocrataidd"* gan ddadlau fod hyn yn llesteirio arloesedd.

Yn gyffredinol, teimlai'r cyllidwr yma fod systemau ariannu yn dal i fod â gormod o ffocws ar fewnbynnau *"y sut"* a dim digon o ffocws ar y deilliannau *"yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni ar y diwedd"*. Ar yr un pryd, ni chredai rhai cyllidwyr ei bod bob amser yn well gweithio ar sail rhagnodi deilliannau'n unig. Yn y cyswllt hwn, roedd cyllidwyr yn sicr ei bod, ar adegau, yn hollol dderbyniol i'r sector cyhoeddus ddiffinio gwasanaethau oedd wedi'i diffinio a'u manylu'n dda (er enghraifft lle'r oedd angen lefelau uchel o gysondeb a rheoli ansawdd ar sail Cymru-gyfan). Mewn amgylchiadau o'r fath, dadleuodd cyllidwyr ei bod yn hollol resymol i fanylu'r dull (mewnbynnau) yn ogystal â'r canlyniad terfynol (deilliannau).

Fodd bynnag, cwynodd eraill – yn cynnwys cyrff Trydydd Sector – fod dangosyddion perfformiad a systemau monitro cysylltiedig yn aml yn gymhleth, anghymesur ac felly'n orfeichus yng nghyswllt y lefelau cyllid dan sylw.

Neges allweddol yn y cyswllt hwn oedd bod angen gwella'r ffordd y mae cyllidwyr yn blaen-ddiffinio mesurau deilliant a bod y rhain yn cael eu cadw mor syml ag sydd modd ac yn hollbwysig “yn gymesur” â'r lefelau cyllid. Credai nifer o'n hymatebwyr fod canolbwyntio ar fewnbynau neu allbynau yn aml yn symptom o gyllidwr nad oedd yn gwybod neu nad oedd yn glir am ddeilliannau ymyriad cyn ei gomisiynu. Dywedodd un ymatebydd:

“Mae angen iddynt wybod, neu o leiaf gael peth syniad am, y math o ddeilliannau y maen nhw eisiau o'r cyllid. Nid dim ond mater o gyflwyno arian fel y gall gwasanaeth gael ei ddarparu yw hi. Bydd angen iddyn nhw farnu os gall y dulliau y mae ymgeiswyr Trydydd Sector yn ei gynnig yn realistig gyflawni'r deilliannau a ddymunir”.

Mewn ymateb, roedd cyllidwyr hefyd yn awyddus iawn fod cyrff Trydydd Sector yn “gwella’u gêm” wrth gysylltu gydag a “chymryd perchnogaeth” systemau deilliannau a monitro gan ar hyn o bryd, fel y dywedodd un ymatebydd, “yn hanesyddol agwedd y rhai sy’n derbyn cyllid oedd rydyn ni’n gwneud X a Y ac yn cael cyllid Z am hynny. Roedd y canlyniadau bron yn fonwsau ychwanegol”

Dywedodd un ymatebydd wrthym fod y symud o “yr hyn rydyn ni wedi ei wneud” i “yr hyn rydyn ni wedi ei gyflawni” yn amlwg yn un anodd i lawer yn y Trydydd Sector oherwydd (fel gyda'r sector cyhoeddus) mae angen sgiliau ac adnoddau ychwanegol nad ydynt efallai ar gael yn rhwydd. Roedd y diffyg arbenigedd mewn mesur deilliannau yn neilltuol o glir er enghraifft mewn gwasanaethau iechyd a gofal canlyniadau lle mae angen monitro “deilliannau meddalach” sy’n anos eu mesur

(megis newidiadau mewn ymddygiad, newid mewn agweddau, newidiadau mewn ansawdd bywyd).

Mater y soniwyd amdano yn ystod y grwpiau ffocws gyda chyrrff Trydydd Sector oedd nad oedd hi bob amser yn glir os yw corff sector cyhoeddus yn gyllidwr deilliannau. Cyfwelwyd ag un cyllidwr a ddisgrifiodd ei hunan felly, gyda'r cyllidwr dan sylw yn dweud *“mae'n rhywbeth y mae rhai ymgeiswyr yn ei gael yn anodd”*. Yn ôl y cyllidwr yma, roedd un o'r prif broblemau'n ymwneud â mesur deilliannau cymdeithasol (neu feddal). *“Sut ydych chi'n mesur perfformiad mewn ffordd gadarn? Pethau fel ansawdd bywyd ar gyfer person hyn sy'n mynd allan ddwywaith yr wythnos pan nad oedd yn mynd allan o'r blaen”*.

Awgrymodd un cyllidwr fod hefyd angen i ddeilliannau ar gyfer gwirfoddolwyr gael eu cydnabod yn fwy ffurfiol o fewn y mesurau a ddynodwyd gan gyllidwyr, gan fod hyn yn aml yn ddeiliant gwerthfawr iawn ond sydd mewn gwirionedd yn aml heb gael cydnabyddiaeth ddigonol.

Dywedodd rhai cyllidwyr wrthym, er bod llawer o le i wella wrth ddiffinio a monitro deilliannau, y gwnaed peth cynnydd cadarnhaol mewn blynyddoedd diweddar. Dywedodd un cyllidwr wrthym ei fod yn sicr y byddai enghreifftiau ddwy neu dair blynedd yn ôl o berthynas cyllid grant lle'r oedd cyrrff Trydydd Sector wedi cael cyllid oherwydd eu bod bob amser wedi cael hynny neu oherwydd bod ganddynt berthynas gref gyda gwleidyddion, ond yn fwy diweddar bu symud i ffocws llawer cliriach ar fanylu'r hyn a ddisgwyd o gyllid (deilliannau) a chydabyddiaeth fod cyllid *“yno i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn bennaf oll .. nid i gynnal bodolaeth corff neilltuol fel diben ynddo'i hun”*.

Pwysleisiodd un cyllidwr eu bod yn gweithio'n gynyddol agos gyda derbynwyr cyllid er mwyn cysylltu gweithgaredd gydag anghenion a

ddynodwyd. Medrai anghenion a ddynodwyd fod wedi ei seilio ar arolwg lleol a gwblhawyd cyn gwneud cais ac mae deilliannau penodol ar gyfer y prosiect yn cael eu datblygu wedyn, yn cynnwys lle bo angen, ddeilliannau meddalach megis gwelliannau mewn ansawdd bywyd.

Dywedodd rhai eraill hefyd fod tueddiad cynyddol, hyd yn oed mewn cytundebau cyllid grant, i fod “*yn wynebgaled*” am ddiffinio a manylu canlyniadau priodol.

Dywedodd un ymatebydd y bu tueddiad amlwg iawn i ganolbwyntio ar ddeilliannau gyda Gweinidogion yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007 wedi mynnu bod yn rhaid cael ffocws ar ddeilliannau a chydabyddiaeth na fu digon o feithrin gallu.

Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr wrthym (yn gyllidwyr a hefyd yn gyrff Trydydd Sector), yn rhannol oherwydd y symiau mawr o gyllid Ewropeaidd fu ar gael yng Nghymru ers 2000, y bu gormod o ffocws ar feintoli. Yn ôl rhai, roedd hyn wedi gwaethygu'r dosbarthiad cyffredinol gan y dywedwyd fod gan gyrff mawr fwy o allu i gymryd rhan yn y gêm ddeilliannau.

Yn wir, awgrymodd rhai ymatebwyr y gwneir gormod o'r ffaith nad yw'r Trydydd Sector yn neilltuol o gryf wrth gadw at ymagwedd a gaiff ei gyrru gan ddeilliannau.

Dywedodd un:

“Byddai’n deg i ddweud fod ofn o fewn y ‘Trydydd Sector am fynd yn rhy bell gydag agwedd yn seiliedig ar ddeilliannau yn arbennig mewn pethau fel gofal cymdeithasol, lle gall fod yn anodd iawn i fesur deilliannau. Ond yn rhy aml o lawer, mae awdurdodau lleol ac eraill mor rhagnodol yn nhermau'r gwasanaethau y maen nhw eisiau fel y caiff y Trydydd Sector eu digalonni rhag byth feddwl mewn ffordd sy’n

cael ei gyrru gan ddeilliannau. Mae'n ymddangos fel bod y cyfan am broses".

Teimlai eraill o fewn y sector cyhoeddus ei bod hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai cyrff Trydydd Sector yn bodoli ar gyfer dibenion mordaingarol fel na fyddent mewn gwirionedd yn cael eu gyrru gan ddeilliannau ac y medrai fod angen i gyllidwyr mewn rhai amgylchiadau penodol ac eithriadol iawn, roi ystyriaeth i hyn o fewn eu prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

4.4 Pwysigrwydd Monitro

Roedd mater systemau monitro yn thema oedd â chysylltiad agos gyda chyllid a yrrir gan ddeilliannau. Dywedodd cyllidwyr a hefyd gyrff Trydydd Sector wrthym fod systemau monitro cadarn a chymesur yn rhan hanfodol o unrhyw ddull ariannu a yrrir gan ddeilliannau. Heb systemau monitro cywir, ni fedrir mesur deilliannau mewn unrhyw ffordd ystyrlon sydd yn ei dro yn amlwg yn cyfyngu'r gallu i ffurfio barn seiliedig ar werthoedd ar y gwasanaethau a ddarperir.

Un o'r materion allweddol yn y cyd-destun hwn o safbwynt Trydydd Sector yw yr ymddengys fod rhywfaint o ddryswch rhwng ar y naill law sicrhau y caiff cyrff eu rhedeg gyda diwydrwydd dyladwy a chywirdeb ariannol (y medrir ei wirio drwy archwiliadau ac arolygiadau) ac ar y llaw arall ddangosyddion mesur perfformiad a chanlyniadau sydd mewn gwirionedd yn weithrediadau hollol ar wahân.

Credai'r rhan fwyaf o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy fod y prosesau sydd ar waith yn y cyrff Trydydd Sector y maent yn ymwneud â hwy yn dderbyniol a chadarn. Fodd bynnag, soniodd nifer o gyllidwyr at brofiadau gwael gyda chyrff Trydydd Sector lle nad oedd gofynion monitro perfformiad yn gysylltiedig â chyllid wedi eu cyflawni. Dywedodd un cyllidwr wrthym:

“Nid wyf yn meddwl fod yna ddiwylliant o fonitro a gwerthuso o fewn y sector gwirfoddol. Mae’n fwy fel ‘rydyn ni’n darparu’r gwasanaeth, rhowch yr arian i ni a pheidio holi gormod”.

Dywedodd un arall:

“Nid wyf yn credu fod y sector gwirfoddol yn ymwybodol eu bod yn gwario arian cyhoeddus, o gymharu â’r hyn a welwch yn y sector statudol”.

Dywedodd nifer o gyllidwyr hefyd y credent hwy nad oedd cyrff Trydydd Sector yn aml yn gwerthfawrogi gwerth posibl systemau monitro cadarn. Neges allweddol gan y cyllidwyr hyn oedd bod systemau monitro a gwerthuso da yn cefnogi hyrwyddo gweithgaredd Trydydd Sector *“nid yn unig oherwydd eu bod yn medru dangos tystiolaeth o’r hyn maent wedi’i wneud a’i gyflawni ond hefyd oherwydd ei fod yn dangos lefel o ymwybyddiaeth am sut maen nhw’n gwario’r hyn sy’n arian cyhoeddus. Mae hefyd yn dangos lefel o broffesiynoldeb, lefel o aeddfedrwydd”.*

Beirniadaeth allweddol o safbwynt y Trydydd Sector, fodd bynnag, oedd bod y systemau monitro yn aml yn ymddangos yn anghydnaws â’r gwasanaeth neu brosiect dan sylw ac yn anghymesur i’r lefelau o gyllid oedd ar gael. Arweiniodd hyn yn ei dro at bryderon nad oedd gan sefydliadau Trydydd Sector (yn neilltuol gyrff llai) y gallu i ymateb i a chynnal systemau monitro. Dywedodd un corff, *“Mae tybiaeth awtomatig fod ganddon ni’r capasiti i’w wneud”.*

Soniodd rhai cyrff Trydydd Sector oedd wedi dadlau eu bod wedi gwneud ymdrechion helaeth i gydymffurfio gyda threfniadau monitro hefyd am rwystredigaeth nad oedd cyllidwyr wedyn wedi dadansoddi neu ddefnyddio’r data monitro mewn unrhyw ffordd ystyrlon. *“Rydych chi’n gwneud eich gorau i ateb y gofynion monitro, eu llenwi i mewn ac yna dyw’r cyllidwyr ddim hyd yn oed yn trafferthu eu darllen”.*

Ymddangosai fod gan nifer o'r cyllidwyr y gwnaethom eu cyfweld gydymdeimlad gyda'r heriau a gyflwynwyd gan yr angen i fonitro perfformiad o fewn y Trydydd Sector. Cydnabu un cyllidwr fod mesur deilliannau yn y Trydydd Sector yn *"broblem go iawn"* ac amcangyfrifodd *"nid yw rhywbeth fel 90% o'n prosiectau yn mesur deilliannau i'r graddau yr hoffem ei weld."* Priodolodd y cyllidwr neilltuol yma y broblem i ddiffyg sgiliau perthnasol i lunio dulliau addas ar gyfer mesur deilliannau ond hefyd, yn fwy syml, fod *"adnoddau yn gyfyngedig o fewn y Trydydd Sector ac mae hyn yn cael ei ystyried fel baich biwrocrataidd."*

Er y cydnabu nifer o gyllidwyr fod lle i wella yng nghyd-destun eu systemau monitro, soniodd eraill am y gwaith oedd eisoes yn mynd rhagddo i deilwra systemau monitro yn nes at ddulliau ariannu penodol. Dywedodd un cyllidwr wrthym mai'r cyfan y gofynnant amdano ar gyfer cynlluniau grant bach yw adroddiad ar ddiwedd cyllid grant yn rhoi manylion yr hyn y gwariwyd cyllid arno a'r hyn a gyflawnwyd. Roedd y cyllidwr neilltuol yma wedi penderfynu y byddai monitro a gwerthuso ffurfiol a manwl ar ddeilliannau yn anaddas ar gyfer rhaglenni y cynigiwyd symiau bach iawn o gyllid iddynt.

Aeth y cyllidwr yma ymlaen i ddweud wrthym fod y gofyniad o ran monitro allbynnau a deilliannau'n cynyddu fel y cynyddai maint y cyllid. Roeddent hefyd yn gosod pwyslais cynyddol ar sicrhau fod systemau monitro yn addas i'r diben yn nhermau casglu gwybodaeth a data ar ddeilliannau. Roedd hyn yn her neilltuol yng nghyd-destun prosiectau sydd â mesurau canlyniad meddalach megis *"ansawdd bywyd"* er enghraifft.

Lle mae deilliannau meddalach yn fesur pwysig, dywedodd y cyllidwr hwn wrthym eu bod wedi dechrau gweithredu nifer o *"fesurau ansawdd bywyd"* (megis y Raddfa Rickter adnabyddus er enghraifft) gan lunio samplau o fuddiolwyr, gofyn cwestiynau penodol iddynt ac yna'n

mesur y *“pellter a deithiwyd”* drwy sgôr cyffredinol y medrir ei gymryd ar nifer o gerrig milltir allweddol yn ystod gwasanaeth neu ymyriad. Credai'r cyllidwr neilltuol yma fod cyflwyno technegau o'r fath wedi helpu i ddod ag elfen o *“fanylrwydd academaidd”* i'r broses o fesur deilliannau.

Neges allweddol yng nghyswllt systemau monitro yw y dylai fod yn hollol realistig disgwyl mwy o gynnydd a gwelliant wrth fesur canlyniadau yn fwy trwyadl. Dywedodd un cyllidwr y bydd hynny'n cymryd amser, ond eu profiad hwy oedd bod cyrff Trydydd Sector yn gynyddol yn gweld angen a gwerth mesur deilliannau yn nhermau dangos effaith parhaol eu gwaith.

4.5 Gweithredu Codau Ymarfer, Canllawiau a Chompactau

Her allweddol y soniodd cyllidwyr a hefyd y Trydydd Sector amdani yw'r angen i ennyn mwy o berchnogaeth dros Godau Ymarfer, Canllawiau a Chompactau presennol a sicrhau defnydd mwy eang a phrif ffrwd o'u hegwyddorion sylfaenol.

Er ei bod yn rhaid cydnabod fod Cod Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn ddarn cymharol ddiweddar o waith (Ionawr 2009), ychydig o dystiolaeth a welsom yn ein trafodaethau gyda chyllidwyr na chyrff Trydydd Sector i awgrymu ei fod wedi arwain eto at newidiadau sylfaenol eang ym mhatrymau ymddygiad cyllidwyr.

Er bod llawer o gyllidwyr wedi clywed am y Cod Ymarfer ac yn fras ymwybodol o'i fodolaeth, mewn gwirionedd ymddangosai mai ychydig o fewn adrannau Llywodraeth y Cynulliad a hyd yn oed lai o'r tu allan oedd wedi ei roi yn llawn ym mhreif ffrwd eu gweithrediadau dydd-i-ddydd a medrid dadlau eu bod yn ei weld yn fwy fel meincnod o arfer da yn hytrach nag amlinelliad o safonau gofynnol. Dyma hefyd oedd barn rhai cyrff Trydydd Sector oedd i ddechrau wedi croesawu

cyhoeddi'r Cod ond a oedd wedyn wedi eu siomi gan lefel yr effaith y medrodd ei gyflawni.

Roedd hyn hefyd yn wir mewn nifer o feysydd yng nghyswllt compactau Sector Gwirfoddol/Trydydd Sector Awdurdodau Lleol lle cwynodd cyrff Sector Cyhoeddus nad oedd egwyddorion arweiniol megis cyfnodau hysbysiad cyllid yn cael eu cadw a bod arfer gwael megis penderfyniadau *"unfed awr ar ddeg"* yn dal i gael eu gwneud am ariannu. Yn wir, soniodd nifer o ymatebwyr wrthym fod chwe awdurdod lleol yng Nghymru yn dal i fod heb gompact o unrhyw fath ar waith.

Dywedodd un ymatebydd wrthym fod gweithredu canllawiau presennol yn hollbwysig yn nhermau newid ymddygiad cyllidwyr a sicrhau y cyflawnir safonau gofynnol.

"Mae'r cyfeiriad polisi yn gywir - ei weithrediad sy'n anghywir. Nid gwyddoniaeth roced mohono. Mae eisoes yn y canllawiau i gyllidwyr. Mae ynglŷn â gwneud y sylfeini'n gywir".

Awgrymodd un o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy fod hefyd faterion dyfnach i gael eu datrys yn nhermau perthynas ariannu, er bod y Codau Ymarfer a'r Compactau yn sicr yn ddefnyddiol a phwysig.

"Dwi ddim yn meddwl fod fy Adran i wedi sgwario'r cylch rhwng y berthynas gyda'r Trydydd Sector a'r berthynas gyda llywodraeth leol. Dwi ddim yn credu fod ganddon ni fodel deallusol o sut yr ydyn yn ei gweld hi."

Cydnabu cyllidwyr a chyrff Trydydd Sector fel ei gilydd fod sicrhau ymwybyddiaeth ddyfnach ac yn hollbwysig, weithredu Codau Ymarfer a Chompactau Cyllid (ac yn wir ddatblygu'r rhain mewn meysydd lle nad ydynt eisoes yn bodoli) yn bwysig iawn. Yn y cyd-destun hwn mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn sefydlu tîm o Reolwyr Perthynas i gynorthwyo swyddogion ar draws holl adrannau

Llywodraeth y Cynulliad a rhoi cyngor rhagweithiol a phenodol yng nghyswllt gweithredu'r Cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector.

4.6 Effaith y Dirwasgiad a Chyfyngiadau ar Wariant Sector Cyhoeddus

Oherwydd amseriad ein hymchwil, nid yw'n syndod fod cynrychiolwyr y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector fel ei gilydd yn bryderus am effeithiau'r dirwyiad economaidd a chyfyngiadau ar wariant sector cyhoeddus.

Y neges glir gan gyrff Trydydd Sector oedd, ar adeg o ansicrwydd ariannol, fod mwy o alw nag erioed am rai o'u gwasanaethau (e.e. gwasanaethau cyngor ar ddyledion a chyflogaeth), a bod hynny yn ei dro yn creu pwysau a straen nid yn unig ar gyllidebau gweithredu ond hefyd ar staff. Mae'r neges yn cydgordio'n agos iawn gyda chanfyddiadau arolygon diweddar WCVA ar effaith y dirwasgiad fod y galw am wasanaethau wedi cynyddu yn neilltuol mewn meysydd megis y cyrff sy'n rhoi cefnogaeth gyda diweithdra, straen teuluol a dyled⁸⁹.

Credai nifer o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy ei bod mewn gwirionedd yn dal yn rhy gynnar i ddweud beth fyddai effaith lawn y dirwasgiad ar ariannu'r Trydydd Sector. Credai un cyllidwr i ryw raddau y byddai cyllid Cydgyfeirio (yn arbennig mewn meysydd megis ynni adnewyddadwy) yn glustog rhag unrhyw effeithiau ar unwaith cwtogi mewn gwariant cyhoeddus, er efallai na fyddai hyn yn wir ym mhob maes.

Fodd bynnag, roedd nifer o'r cyrff Trydydd Sector yn ein grwpiau ffocws eisoes wedi profi toriadau gwirioneddol mewn cyllid yn ystod 2009. Soniodd rhai hyd yn oed am enghreifftiau gyrff bach yn y Trydydd Sector "*ar y dibyn*" fel canlyniad i doriadau tra soniodd eraill am awdurdodau lleol a chyrff eraill yn symud gwasanaethau yn ôl i'w

⁸⁹ Arolwg Dirwasgiad WCVA, Tudalen 2.

gwneud yn fewnol. Ymddangosai cyllidwyr hefyd yn ymwybodol y medrai cyllideb dynnach olygu'r diwedd i rai cyrff yn y Trydydd Sector.

“Mae’n digwydd yn barod ac mae rhai yn syrthio o’r neilltu. Yn fy mhrofiad i serch hynny, roedd gan y rhai sy’n disgyn o’r neilltu eisoes broblemau iechyd sylfaenol.”

Dywedodd rhai cyllidwyr nad oedd rhesymoli'r sector o reidrwydd yn beth gwael, gan fod y twf enfawr yn nifer cyrff y Trydydd Sector dros y degawd diwethaf wedi arwain mewn rhai achosion at lefelau diangen o gystadleuaeth a dyblygu.

Gwelsom farn gymysg ar p'un a fyddai'r wasgfa ar wariant cyhoeddus yn golygu mwy neu lai gyrchu allanol. Credai'r un cyllidwr y medrai cyllid Ewropeaidd fod yn darian, gan gredu hefyd pan oedd y toriadau yn wirioneddol dechrau brathu y medrai awdurdodau cyhoeddus dueddu i wario llai yn comisiynu gwasanaethau gan y Trydydd Sector. *“Mae'r risg yno y bydd llai o arian yn mynd allan o'r drws ... ond bydd llawer mwy i ganolbwyntio ar un p'un ai ydym yn cael cymaint o'n cyllid ag y medrem ... gall fod cyfle i ofyn rhai o'r cwestiynau mwy anodd hynny, ond y byddwn yn gobeithio y medrwn ni wneud hynny mewn ffordd aeddfed”.*

Roedd nifer o gyrff y Trydydd Sector yn pryderu am hyn a gwelsom ofn ymhlith cryn nifer y byddai awdurdodau lleol yn ymateb yn naturiol drwy *“dorri cyllid i'r Trydydd Sector a gwneud pethau eu hunain i osgoi diswyddo pobl eu hunain.”*

Yn wahanol i'r profiadau a adroddwyd gan rai cyrff Trydydd Sector, roedd rhai cyllidwyr yn bendant y byddai gan y Trydydd Sector rôl hyd yn oed fwy pwysig i'w chwarae yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol (nid yn lleiaf oherwydd arbedion cost defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer rolau rheng flaen). Dywedodd un cyllidwr yn arbennig y byddai eu sefydliad yn ystyried cyrchu gwasanaethau yn allanol yn gynyddol a

“rydym angen i’r Trydydd Sector yn ein hardal i chwarae mwy, nid llai, o rôl yn y cyfnod anodd yma”. Esboniodd “Rydyn ni’n edrych ar wahanol ffyrdd o wario ein cyllidebau a bydd cyfleoedd gwyh, er enghraifft mewn Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cyrff Trydydd Sector sydd wedi switsio ymlaen ac yn barod amdano”.

Fel canlyniad i’r newid mewn pwyslais a ddisgwyliid, roedd y cyllidwr hwn wedi trefnu cynhadledd bwysig wedi’i hanelu at y Trydydd Sector a phartneriaid cymunedol eraill i rannu gwybodaeth am ei flaenoriaethau darparu gwasanaeth ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf a gwelid hyn fel cyfle allweddol i gyrff Trydydd Sector alinio eu hunain gyda’r blaenoriaethau a chyfeiriad teithio a amlinellid.

Credai eraill hefyd fod dadl resymegol dros awgrymu y medrai’r Trydydd Sector fod â rôl hyd yn oed fwy sylweddol mewn gwella gwerth am arian mewn cyfnod anodd. *“Mae meysydd clir lle gall y Trydydd Sector fod â rôl fawr e.e. rhyddhau o ysbyty, cefnogi pobl yn y gymuned yn arbennig pan maent wedi dod allan o ysbyty”.*

Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai y byddai angen ystyried disgwyliadau’r Trydydd Sector yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol yn ofalus ac y byddai blaenoriaethau clir yn neilltuol o bwysig mewn cyfnod o ddirwasgiad. Dywedodd un cyllidwr *“Mae angen i randdeiliaid yn y Trydydd Sector wybod beth yw’r cyfeiriad polisi ac y caiff lefelau addas o gyllid eu sianelu yn y cyfeiriad hwnnw”* ac y byddai hynny yn ei dro yn golygu fod angen help i hysbysu polisiâu a meddwl sefydliadau.

Neges allweddol o’r Trydydd Sector yng nghyswllt y cyfyngiadau arfaethedig mewn gwariant sector cyhoeddus oedd:

“Ni ddylai’r llywodraeth gymryd penderfyniadau fel canlyniad i’r dirwasgiad fydd yn achosi niwed sylfaenol i’r Trydydd Sector”.

Rhybuddiodd cyrff Trydydd Sector hefyd yn erbyn y dybiaeth y byddai lefelau gwirfoddoli'n cynyddu'n awtomatig fel canlyniad i gynydd mewn diweithdra. Roedd pryderon hefyd ar lefel ymarferol y medrai'r dirwasgiad fod eisoes yn cyfyngu ar weithgareddau cynllunio hirdymor, a fedrai yn eu tro waethygu problem amserlenni ariannu tymor byr.

4.7 Adennilliad Costau Llawn

Ymddengys fod mater adennilliad costau llawn yn achos cynnen neilltuol ymhlith cyllidwyr a chyrff Trydydd Sector fel ei gilydd.

Dywedodd cyrff Trydydd Sector wrthym fod cael cytundeb ar gyfer adenill costau llawn gyda chyllidwyr yn dod yn gynyddol anodd a bod hyn mewn gwirionedd yn achosi hyd yn oed fwy o bryder yng nghydestun y gostyngiad mewn cyllid craidd oedd ar gael. Dywedodd un corff Trydydd Sector fod cyllidwyr yn gynyddol yn eu gwasgu drwy fynnu *“adennill costau ymylol yn hytrach na llawn”*.

Ar y llaw arall, dywedodd nifer o gyllidwyr wrthym eu bod yn pwysu am fwy o eglurdeb gan gyrff Trydydd Sector am sut y dosrennir gorbenion. Dywedodd un cyllidwr wrthym fod hyn yn mynd i graidd eu pryderon am dryloywder ac asesu gwerth am arian a'u bod fel cyllidwyr yn bryderus fod gan lawer o'r cyrff Trydydd Sector y gweithient â hwy orbenion uchel oedd yn aml i'w gweld mewn cynigion cyflenwi prosiect a gwasanaeth fel lefelau ffi rheolaeth uchel iawn. Teimlai'r cyllidwr neilltuol yma nad oedd cyfiawnhad dros hyn a'i bod yn hanfodol dadgyplu gorbenion prosiect penodol o orbenion mwy cyffredinol sefydliad wrth sicrhau dosraniad cywir.

Credai cyllidwr arall nad oedd unrhyw eglurder am beth oedd ystyr *“adennill costau llawn”* yng nghydestun cyllid o'r Trydydd Sector. Er gyda darpariaeth contract credai'r cyllidwr hwn y medrai proses tendro cystadleuol dueddu i ostwng unrhyw hawliadau gormodol am orbenion, roedd yn bryderus y medrai fod tueddiad gyda chyllid grant i ariannu

ddwywaith. Yn y cyd-destun hwn, teimlid y medrai mwy o eglurder am y modd y diffinnir adennill costau llawn fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r cyngor ategol a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'r Cod Ymarfer ac yn rhywbeth y dylai compactau lleol hefyd ei gynnwys yn fanylach (yn debyg i'r modd y mae Trysorlys EM wedi diffinio Adennill Costau Llawn yn eu Canllawiau)⁹⁰.

4.8 Cydweithredu

Dywedodd llawer o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy y teimlent fod angen i gyrff Trydydd Sector weithio'n agosach gyda'i gilydd. I rai cyllidwyr, roedd hyn yn bwysig yn yr ystyr fod gormod o gyrff bach yn ceisio gwneud yr un peth yn yr un ardal ac felly'n gofyn am gyllid o'r un ffynonellau neu ffynonellau tebyg iawn. Soniodd eraill fod angen mwy o feddwl cydlynol ymysg y Trydydd Sector yn nhermau cynnig ar y cyd ar gyfer contractau darparu gwasanaeth ar raddfa fwy.

Rhoddodd un cyllidwr enghraifft ddiddorol o'r cyfleoedd posibl a all fod ar gael i gyrff Trydydd Sector a all ddefnyddio cydweithio'n effeithiol. Dywedodd y cyllidwr yma wrthym y byddai gwahanol rannau o'u gwasanaethau wedi eu contractio ar wahân yn y gorffennol ac wedi'u dyfarnu i wahanol gyflenwyr oedd wedyn yn arwain at angen am gyfeirio a dangos y ffordd. Roedd y cyllidwr yma wedi penderfynu wedyn i uno'r ddau wasanaeth i ddileu'r angen am gynnal y broses gyfeirio, gan felly gynnig "*gwasanaeth mwy diwnïad*" i ddefnyddwyr. Golygai'r broses integreiddio eu bod am y tro cyntaf yn annog bidiau ar y cyd (yn hytrach na mynnu trefniadau prif ac is-gontractwr fel y gwnaethent yn flaenorol) oedd yn rhoi cyfle gwirioneddol i gyrff Trydydd Sector gydag arbenigedd perthnasol i uno a thendro am y gwaith yn ei gyfanrwydd.

⁹⁰ Improving financial relationships with the third sector: Guidance to funders and purchasers May 2006.

“Rydym yn annog bidiau consortia sydd i ni yn gostwng y risg o fethiant, dyblygu neu gamalinio gyda blaenoriaethau statudol lleol”.

Yn fwy cyffredinol serch hynny, awgrymodd profiadau cyrff Trydydd Sector a chyllidwyr a gawsom drwy ein gwaith maes nad yw dulliau cydweithio yn ymddangos yn reddfod iawn ar hyn o bryd ac, yn debyg iawn yn yr un ffordd a'r sector microfusnes, bod angen gwneud cynnydd i symud yr agenda hwn ymlaen ar lefel ddiwylliannol yn ogystal â lefel ymarferol.

Fodd bynnag roedd peth cydymdeimlad ymysg cyllidwyr yn nhermau cydnabod nad yw cydweithio yn rhwydd ac yn anaml y mae'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol os caiff ei arosod yn artiffisial. Awgrymodd un ariannwr mai eu profiad hwy oedd bod cyrff Trydydd Sector yn awr yn cymryd mwy o ran wrth ddatblygu dulliau cydweithio a fyddai'n eu galluogi i wneud bid effeithiol am contractau. Roedd y person yma'n sylweddoli serch hynny y medrai dod i gytundebau o'r fath fod yn aml yn gymhleth yn achos y Trydydd Sector, lle medrai fod materion llywodraethu a chwestiynau anodd am ba mor briodol yw ymestyn cylch gorchwyl tu hwnt i nodau craidd corff neilltuol nad oedd ym marn y person yma wedi profi mor anodd i fusnesau preifat eu datrys. Teimlai un cyllidwr mai canlyniad mwy o gaffaeliad a sefyllfa fwy cystadleuol fyddai efallai y byddid yn gweld mwy o gyrff yn uno.

Teimlai'r cyllidwr yma fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig (e.e. drwy raglen Future Builders yn Lloegr) yn hybu'r syniad hwn, gan fod yn barod i roi cefnogaeth i gyrff Trydydd Sector ganfod partneriaid addas. Fodd bynnag, rhybuddiodd y cyllidwr yma nad oedd yn cefnogi'r farn boblogaidd fod gormod o elusennau. O'r herwydd, credai mai rôl y Llywodraeth ddylai fod i hyrwyddo ymagweddau aml-ddatrysiad/aml-sefydliad.

Credai eraill hefyd y medrid ac y dylid gwneud mwy i hyrwyddo cydweithio yn y Trydydd Sector ac y dylai hyn fod yn rhan greiddiol o

gefnogi'r sector i ymateb i'r defnydd cynyddol o dechnegau caffaeliad. Yn y cyd-destun hwn roedd cyllidwyr a nifer o gyrff Trydydd Sector yn feirniadol o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol gan awgrymu y medrent gymryd mwy o ran wrth ddod â chyrff gwirfoddol lleol llai i dendro am contractau. Dywedodd un ymatebydd, er bod bidiau gan gonsortia yn cael eu hannog ar bapur, ei bod yn aml yn amhosibl yn ymarferol i gyrff llai i ganfod modelau partneriaeth i fidio am contractau mwy, a bod y rhai oedd yn caffael gwasanaethau yn aml yn ofnus o bartneriaethau newydd y teimlent na fyddai'n goroesi oes y contract. Awgrymodd y person yma y medrai Cynghorau Gwirfoddol Sirol fod â rôl fwy gweithgar fel *"prif gontractwyr"*, gan is-gontractio cyflenwi i gyrff penodol oedd yn barod i gydweithio.

Tanlinellodd cyllidwyr hefyd fod gan gyrff thematig, ymbarél ac aelodaeth (megis Cartrefi Cymunedol neu Mudiad Ysgolion Meithrin er enghraifft) rôl sylfaenol i'w chwarae drwy ddod â chyrff gwirfoddol llai dan eu hadain ac efallai eu cefnogi drwy gynlluniau cydweithredu (er enghraifft i sicrhau cyllid neu i wneud tendr ar y cyd ar gyfer contractau cyflenwi gwasanaeth).

Serch hynny dywedodd nifer o ymatebwyr na ddylid gweld cydweithio fel rhywbeth yn neilltuol ar gyfer y Trydydd Sector ac y dylai cyllidwyr hefyd fod yn cymryd camau ymarferol i sicrhau comisiynu mwy cydlynol ar wasanaethau. *"Mae gwirioneddol angen iddynt ddod at ei gilydd a gwneud mwy o waith sylfaenol ar y cyd fel eu bod yn sefydlu sefyllfa llinell sylfaen iawn ac osgoi dyblygu fel canlyniad i gomisiynu wedi'u gynllunio'n wael."* Ystyriwyd fod y berthynas barhaus rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn enghraifft allweddol o le roedd angen dynesiad mwy strategol at gomisiynu gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, soniodd yr adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan

Gymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys⁹¹ am nifer o heriau a datrysiadau ymarferol yn cynnwys ymagwedd fwy cydlynol at adolygiadau contract a systemau monitro.

Dywedodd un corff Trydydd Sector wrthym *“mae’r cyllidwyr yn disgwyl themâu trawsbynciol yn yr hyn a wnewch, ond pan ofynnwch iddynt am gyllid, wel “mae’n rhaid iddo ddod o un Adran” a dydyn nhw ddim yn gwybod i le mae’n ffitio.”*

Pwysleisiodd cyrff eraill o’r Trydydd Sector nad oedd cyllidwyr yn ymarferol yn neilltuol o dda wrth gyfleu eu blaenoriaethau i’r Trydydd Sector. *“Mae lledaenu gwybodaeth am gyllid ac yn fwy cyffredinol ar flaenoriaethau yn fympwyol iawn”.* Yn gyffredinol, nid oedd cyrff Trydydd Sector ychwaith yn tybio fod symudiadau i gomisiynu gwasanaethau yn fwy ar sail isranbarthol (e.e. o fewn llywodraeth leol) wedi symud ymlaen gydag unrhyw argyhoeddiad hyd yma. *“Dwi ddim yn meddwl fod yr athroniaeth honno wedi ennill ei lle eto”.*

Roedd nifer o gyllidwyr hefyd yn ymwybodol iawn y medrant yn rhwydd fod yn gweithio ar eu pen eu hunain ac o’r herwydd nad ydynt efallai yn gwybod am enghreifftiau o arfer da neu arloesi sy’n digwydd mewn arall a fedrai fod yn neilltuol o berthnasol i’w hamgylchiadau. Awgrymodd un cyllidwr y byddai fforwm ar gyfer cyfnewid syniadau ac arfer da yn rheolaidd gyda chomisiynwyr eraill y Trydydd Sector yn ddefnyddiol.

4.9 Sicrhau Cynaliadwyedd

Mae’r her o sicrhau cynaliadwyedd yn hollbwysig i lawer o gyrff Trydydd Sector yng Nghymru ac mae maint y mater hwn yn amlwg yn

⁹¹ Papur TSPC (09) 20 i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Datblygu Trefniadua Comisiynu ac Ariannu gyda Chyrff Trydydd Sector ym Mhowys.

glir ym mhapur Funding Paradigms Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cadarnhaodd cynrychiolwyr y Trydydd Sector yn ei grwpiau ffocws fod hon yn her barhaus ac un sydd yn eu barn hwy yn dod yn gynyddol anodd ei chyflawni, gan fod ffynonellau cyllid gradd grant yn dod yn gynyddol brin. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd cyrff Trydydd Sector wrthym hefyd ei bod yn gynyddol anodd sicrhau portffolio refeniw cytbwys.

Gwraidd y broblem, yn ôl llawer, yw'r ffaith fod amserlenni ariannu yn dal yn rhy fyr yng Nghymru, sy'n golygu bod cyrff Trydydd Sector yn ymdrechu'n barhaus i oroesi.

Soniodd un corff Trydydd Sector am brofiad diweddar yn y cyswllt yma.

“Cawsom gynllun peilot anhygoel o lwyddiannus yn gweithio gyda phobl ifanc yng nghymoedd y De. Roedd yn anhygoel o lwyddiannus, roeddem yn siarad gyda Phrif Weinidog y Cynulliad y dydd o'r blaen ac fe soniodd amdano, ond doedd neb eisiau mynd ag ef ymhellach ... mae'n broblem ac mae'n disgwyl i chi ddal ati i'w wneud.”

Roedd cyrff Trydydd Sector yn hallt eu beirniadaeth o agweddau llawer o gyllidwyr at strategaethau gadael ar hyn o bryd.

Dywedodd un corff Trydydd Sector wrthym *“mae'r dull presennol o ysgrifennu strategaethau gadael yn sbwriel”* a bod angen cydnabyddiaeth y dylai cyllid gael ffocws ar *“o leiaf gymaint ar yr hyn a ddigwyddodd ar ôl y cyfnod ariannu gwreiddiol ag a fyddai'n digwydd yn y ddwy neu dair blynedd gyntaf.”*

“Maent i gyd yn gofyn cwestiwn yma am gynaliadwyedd - sut fyddwch chi'n cynnal y gweithgaredd ar ddiwedd y prosiect ac rwyf bob amser eisiau ysgrifennu ‘Fydd e ddim’. Chi'n gwybod, dim arian, dim prosiect.

Rydyn ni gyd yn rhoi geiriau nad ydyn nhw'n eucedu'n llawn ond mae'n rhaid i chi eu hysgrifennu nhw beth bynnag."

I rannau helaeth, dadleuodd cyrff y Trydydd Sector fod hyn yn rhoi mwy o bwysau byth ar yr angen i gyllidwyr gynllunio gwasanaethau a rhaglenni ymhellach ymlaen llaw, gan ymrwymo mewn egwyddor i leiaf o'r hyn sy'n bwysig a'r hyn y dymunant ei wneud am gyfnodau hirach fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad.

Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn awyddus iawn i nodi fod menter gymdeithasol yn aml yn cael ei weld, yn anghywir, gan lawer fel yr *"ateb i bopeth"* at gynaliadwyedd cyllid. Dywedodd un ymatebydd:

"Dydych chi ddim yn ariannu ysgol am dair blynedd ac wedyn yn dweud, mae hynna'n ddiddorol iawn, nawr ewch i ffurfio menter gymdeithasol, ond rydych chi'n dweud hynny wrth ganolfan galw heibio iechyd meddwl".

Rhybuddiodd ymatebydd arall er bod y diddordeb ac ymrwymiad i'r sector menter gymdeithasol yng Nghymru yn dilyn datganoli i'w ganmol yn fawr a bod hynny wedi datblygu'r sector yn ddibendraw, bod rhaid bod yn ofalus iawn am y disgwyliad a roddir ar fenter gymdeithasol fel strategaeth i'r dyfodol. Dywedodd ymhellach er y gall menter gymdeithasol fod weithiau'n opsiwn blaen-strategaeth dda weithiau, ei bod yn bwysig nad ydym yn twyllo ein hunain am allu mentrau cymdeithasol i ymateb.

Roedd hefyd rai rhybuddion moel fod cyllid Ewropeaidd hefyd yn rhoi heriau cynaliadwyedd i'r Trydydd Sector. Rhybuddiodd un cyllidwr *"pan ddaw 2013, bydd problem enfawr gyda'r Trydydd Sector yng Nghymru. Does dim ond rhaid edrych beth ddigwyddodd yn Iwerddon."*

Un o'r materion allweddol a godwyd yn ein hadolygiad o ddeunydd yw mai ychydig iawn o ddulliau ariannol seiliedig ar fuddsoddiad sydd wedi

datblygu'n ddigonol yng Nghymru ac yr ymddengys bod Cymru'n llusgo tu ôl i Loegr yn neilltuol yn y cyswllt hwn. Er y sonnir am y mater hwn ym mhapur Funding Paradigm y WCVA (a chyn hynny soniwyd amdano yn y Trydydd Dimensiwn ac yn Adroddiad Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru), mae ein gwaith maes gydag arianwyr a chyrrff Trydydd Sector yn awgrymu fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth “*ar lawr gwlad*” o ddulliau cyllido seiliedig ar fuddsoddiad yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd.

Dywedodd un ymatebydd wrthym, er bod nifer fach o gyllidwyr (e.e. y Gronfa Loteri Fawr) yn awyddus i ymchwilio'r llwybrau hyn a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i Gronfa Buddsoddi i Wasanaethu, y realaeth oedd mai ychydig iawn o awydd am ddulliau seiliedig ar waddol. “*Mae'r cyllidwyr yn ei gasáu, mae'r sector yn ei gasáu*”. Dywedodd fod hyn oherwydd diffyg dymuniad i symud ymlaen gyda gwaddoliadau oherwydd bod cyrrff Trydydd Sector yn canolbwyntio mwy ar oroesiad a gweithgaredd tymor byr yn hytrach na sicrwydd ariannol tymor hwy. “*Mae'r sector yn cynllwynio, mae'n cynllwynio gyda gwleidyddion, mae'n cynllwynio gyda'r wladwriaeth am agwedd tymor-byr at bethau. Mae'n hoffi cael staff, mae'n hoffi adeiladu ei sefydliad, nid yw'n meddwl llawer yn yr hirdymor*”.

Neges allweddol yn y cyswllt hwn oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth, egluro a chynyddu cefnogaeth i ddulliau seiliedig ar fuddsoddiad yng Nghymru a'r Trydydd Sector gyda golwg ar gynyddu eu defnydd fel ffynonellau cyllid tymor hwy, a fedrai ym marn WCVA helpu i greu cyrrff cymunedol mwy annibynnol.

4.10 Casgliadau

I grynhoi, dangosodd y gwaith maes gyda chyllidwyr a chyrrff Trydydd Sector:

- Yn unol gydag ystadegau a gyhoeddwyd, mae rhanddeiliaid yn cytuno fod cyfanswm cyllid i'r sector wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf (hyd at y dirwasgiad diweddar);
- Mae gan y rhan fwyaf o gyllidwyr werthfawrogiad a pharch amlwg at waith y Trydydd Sector a'r gwerth ychwanegol a rydd y sector yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol ardderchog;
- Er y gwnaed cynnydd wrth ddatblygu'r berthynas rhwng y cyllidwr-derbyniwr cyllid yng Nghymru, mae gwaith i'w wneud o hyd i wneud agweddau cyllidwyr a chyrrff Trydydd Sector yn fwy proffesiynol mewn nifer o feysydd allweddol. Yn sylfaenol i hyn mae'r angen i sicrhau y gwneir cynnydd ar y ddwy ochr wrth ddeall a bod eisiau goresgyn rhwystrau a heriau;
- Mae amserlenni ariannu byr yn parhau'n rhwystr allweddol i sefydlogrwydd a gallu i oroesi llawer o gyrff Trydydd Sector yng Nghymru. Er gwaethaf ymdrechion gwahanol haenau o lywodraeth (gyda Chodau Ymarfer, canllawiau a compactau), mae tystiolaeth i awgrymu nad yw cyfnodau cyllid tair blynedd yn dal i gael eu trin gan rhai fel isafswm ac mae'r angen yn parhau i gael gwared yn llwyr ag arfer gwael (e.e. cymryd penderfyniadau ariannu ar yr unfed awr ar ddeg);
- Mae amrywiaeth eang o ddulliau ariannu'n cael eu defnyddio i ariannu a chomisiynu gwasanaethau a gweithgareddau gan y Trydydd Sector yng Nghymru. Cytunai pawb bod grantiau craidd yn gostwng ond er bod cyllidwyr yn siarad am gynnydd amlwg mewn gweithgaredd caffaeliad, nid oedd hyn wedi ymdreiddio i brofiadau dydd i ddydd llawer o gyrff Trydydd Sector.
- Nid yw dewis y dulliau ariannu mwyaf addas bob amser yn ymarferiad syml i gyllidwyr. Mae risg dryswch eang ar ran cyllidwyr rhwng comisiynu a chaffaeliad. Gall rhai cyllidwyr fod yn dehongli'r angen i gomisiynu fel bod yr un peth â chaffaeliad pan eu bod mewn gwirionedd yn brosesau ar wahân. Mae angen i'r cyngor gan weithwyr caffaeliad i gomisiynwyr adlewyrchu hyn yn llawnach;

- Mae hefyd bryder, wrth symud tuag at fwy o dryloywder a phroffesiynoldeb, y caiff caffaeliad ei weld fel y sefyllfa rhagosod. Roedd rhoi'r berthynas rhwng cyllidwr a derbyniwr cyllid ar safle contractiol cryfach yn rhywbeth a groesawyd gan bawb, ond nid caffaeliad yw'r unig ffordd i gyflawni hyn;
- Nid yw cyllidwyr yn hoff o gwbl o'r cysyniad o neilltuo cyllideb neu ddyrannu cyfran o'u cyllideb i unrhyw un sector penodol. Nid oedd neb ohonynt wedi gwneud hyn hyd yma ac roedd amheuon sylfaenol fod dynesiad o'r fath yn groes i'r angen am dryloywder;
- Yn ymarferol, mae'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r Trydydd Sector yng nghyswllt caffaeliad yn debyg iawn i rai busnesau micro a busnesau bach ac mae angen cynyddu ymdrechion i helpu'r Trydydd Sector i "werthu ei hunan" yn fwy effeithiol;
- Mae angen i gomisiynwyr wneud yn sicr pan fyddant yn caffael, eu bod yn defnyddio technegau addas sy'n hyblyg, hylaw a chymesur. Nid yw hyn yn wir bob amser ar hyn o bryd ac mae'n awgrymu fod angen gwneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad a Gwerth Cymru ar egwyddorion caffaeliad cyfeillgar i'r Trydydd Sector;
- Ni fu diffinio deilliannau yn gysylltiedig â chyllid Trydydd Sector yn gryfder yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arwyddion fod hyn yn digwydd a bod cyllidwyr a'r Trydydd Sector yn awr yn cymryd hyn yn fwy o ddifrif. Mae'r broses o ddiffinio deilliannau'n gweithio orau pan fo cyllidwyr yn ymgynghori ar y deilliannau a ddymunir ar y cyfnodau cynllunio, cyn gweithgaredd comisiynu;
- Mae'n hollol dderbyniol i'r sector cyhoeddus gaffael gwasanaeth sy'n nodi mewnbynnau "y sut" yn ogystal â deilliannau mewn rhai amgylchiadau, ond dylai hyn fod yn eithriad yn hytrach na'r rheol;
- Mae systemau monitro yn sylfaenol i berthynas ariannu lwyddiannus sy'n cymryd deilliannau o ddifrif. Mae arwyddion fod cyllidwyr a'r Trydydd Sector yn ymroddedig i wella eu harferion. Mae'n rhaid i ffocws ar gadw systemau'n syml, perthnasol, cymesur

ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd eisoes fod yn ysgogydd allweddol yn y cyswllt hwn.

- Mae tystiolaeth i awgrymu fod angen gwneud llawer mwy i ledaenu, a sicrhau gweithrediad Cod Ymarfer a chanllawiau ariannu Llywodraeth y Cynulliad. Dylai llywodraeth leol hefyd gynyddu ei waith yn y maes hwn. Ystyrir bod hyn yn sylfaenol i newid ymddygiad cyllidwyr a sicrhau safonau gofynnol ac arferion. Ni fedrir cyflawni hyn mewn seminarau “unigol” neu sesiynau hyfforddiant yn unig, mae angen ymdrech gyson a hirdymor i roi’r egwyddorion craidd a gytunwyd eisoes yn y brif ffrwd yng nghamau gweithredu beunyddiol comisiynwyr;
- Mae negeseuon cymysg am effaith y dirwasgiad. Mae’n ddi-os yn achos o bryder sylweddol i’r Trydydd Sector yng nghyd-destun lefelau cynyddol o alw am rhai gwasanaethau a chanlyniadau a ofnir yn dilyn y cyfyngiadau arfaethedig ar wariant sector cyhoeddus. Mae rhai yn y Trydydd Sector eisoes wedi profi toriadau sylweddol, ac eraill yn gwybod am wasanaethau eraill y mae’r sector cyhoeddus yn gwneud eu hunain yn awr. Fodd bynnag, mae hefyd dystiolaeth i awgrymu y bydd rhai cyllidwyr yn ceisio cyrchu mwy o waith yn allanol fel canlyniad i’r dirwasgiad. Yn y cyd-destun yma, bydd yn bwysig peidio gweld y Trydydd Sector fel “*dewis rhad*” yn unig neu gymryd penderfyniadau a fedrai effeithio ar egni’r sector yn y tymor hwy;
- Mae cyfleoedd sylweddol ac enillion effeithiolrwydd ar gael i gyllidwyr a’r Trydydd Sector drwy gynyddu dulliau cydweithredu. Mae angen i gyllidwyr weithio’n agosach gyda’i gilydd wrth baratoi llinellau sylfaen a thystiolaeth o angen ac wrth gomisiynu gwasanaethau yn fwy strategol. Mae angen i gyrff trydydd sector gydweithio’n fwy effeithiol i ostwng cystadleuaeth a dyblygu diangen a chynnig datrysiadau mwy blaengar i gyllidwyr yn seiliedig yn gadarn ar symleiddio darpariaeth gwasanaeth;
- Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddulliau cyllido eraill, sydd wedi’i seilio’n helaethach ar fuddsoddiad yng Nghymru.

Ymddengys fod cyllidwyr a chyrff Trydydd Sector yn nerfus iawn hefyd am eu hyfywedd posibl a'r risgiau cysylltiedig. Yn y cyddestun hwn, mae canfyddiad yr adolygiad deunydd fod Cymru'n llusgo ar ôl yr Alban yn y cyswllt hwn yn sicr yn taro tant "*ar lawr gwlad*" ac ymddengys fod angen a chyfle clir i egluro a datblygu'r cysyniadau hyn yn fwy egniol yn y cyfnod agosaf.

5.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae'r adran hon yn dod i gasgliadau yn seiliedig ar y gwahanol feysydd ymchwil a gynhaliwyd ac yn canolbwyntio ar oblygiadau'r prif syniadau ar gyfer ailstrwythuro cyllid a amlinellwyd ym mhapur *Funding Paradigms* Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Dan bob is-bennawd, caiff y casgliadau hyn eu dilyn gan argymhellion sy'n anelu i wneud newidiadau ymarferol i wella'r ffordd y caiff y Trydydd Sector yng Nghymru ei ariannu yn y dyfodol.

5.1 Amserlenni Ariannu

Mae prif fyrddwn y papur *Funding Paradigms* yn canolbwyntio ar yr angen i drafod mater cylchoedd ariannu tymor byr, gyda phedwar o'i chwe argymhelliad allweddol yn cyfeirio'n benodol at yr agenda yma⁹².

Er y bu cynnydd cadarnhaol yn nhermau gosod y cyfeiriad polisi a gwneud ymrwymadau lefel uchel (e.e. gyda chyhoeddi Cod Ymarfer a Chanllawiau Arfer Da Llywodraeth y Cynulliad), bu'r cynnydd ar lawr gwlad yn nhermau ymddygiad ac arferion comisiynu cyllidwyr yng nghyswllt amserlenni cyllid yn siomedig. Ymddengys bod cylchoedd ariannu tymor byr yn parhau i gael eu defnyddio'n helaeth ac maent yn parhau i achosi problem gan ddadsefydlogi cyrff Trydydd Sector, creu gorbenion diangen o uchel a hyd yn oed wastraff. Yn ymarferol o leiaf, ymddengys mai'r cylch gwleidyddol, yn hytrach na chyfyngiadau cyllidebol neu statudol, yw'r prif rwystr i newid ymddygiad ac arferion llawer o gyllidwyr.

Mae'r ffaith na fu cyllidwyr na chyrrff Trydydd Sector yn dda iawn wrth ddiffinio deilliannau neu weithredu systemau monitro canlyniad effeithiol wedi gostwng parodrwydd cyllidwyr i gymryd yr hyn a welant weithiau fel y risg o ymrwymo i gytundebau ariannu tymor hwy. Mae

⁹² Pwyntiau 1 – 4 ar dudalen 6.

angen mynd i'r afael â'r diffygion hyn fel bod digon o ymddiriedaeth ar y ddwy ochr i alluogi perthynas ariannu tymor hwy i ffynnu a llwyddo.

Y mae, fodd bynnag, rai arwyddion calonogol fod cyllidwyr yn gynyddol sicr am fanteision cynllunio tymor hwy ac ymrwymo mewn egwyddor i ariannu gwasanaethau ar y sail y caiff union ddyraniadau ariannol eu cytuno ar sail gylchol, yn ôl cylchoedd cyllideb a chynllunio busnes. Mae angen cyfleu manteision profedig dull o'r fath (gydag enillion effeithiolrwydd ac arbedion maint heb fod y lleiaf ohonynt) yn llawer mwy eang ac yn fwy egniol, ac mae angen i swyddogion comisiynu ar bob lefel o lywodraeth yn ogystal ag mewn cyrff cyhoeddus eraill gael cefnogaeth eu harweinwyr gwleidyddol a'u huwch reolwyr i weithredu'r ymrwymiad hwn. Mae hefyd yn hollbwysig pan fo cyllidwyr yn ymrwymo "*mewn egwyddor*", bod hyn yn ymrwymiad ystyrion ac yn rhoi eglurdeb a sefydlogrwydd i'r berthynas rhwng y cyllidwr a'r derbynnydd. Ni all ymrwymiad mewn egwyddor fod yn esgus dros beidio gwneud rhywbeth neu bydd yn ddiwerth a chaiff yr holl gysyniad ei ddibrisio.

Er mwyn hwyluso cynnydd yn y math yma o gynllunio tymor hwy, mae angen i gyllidwyr gydweithio i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn llawer mwy strategol. Mae angen iddynt hefyd fod yn fwy rhagweithiol wrth adael i'r Trydydd Sector wybod beth yw eu blaenoriaethau strategol a'u hamcanion ymlaen llaw, ymgynghori a thrafod datrysiadau a deilliannau posibl cyn comisiynu. Mae'n hanfodol na chaiff y broses o ymgynghori'n fanwl gyda chyrff sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth ei gweld fel bod yn anghydnaws gyda chomisiynu mwy proffesiynol.

Yn ei dro, mae angen i'r Trydydd Sector symud o'r agwedd "*cap mewn llaw*" at ffordd fwy deinamig a chyfrifol o weithio sydd â'i ffocws ar ddynodi cysylltedd gyda blaenoriaethau cyllidwyr ac arddangos sut y gall ychwanegu gwerth.

Medrid dadlau wrth gwrs nad oes dim byd yn newydd yn hyn. Mae'r materion hyn eisoes yn gyfarwydd iawn ac mewn gwirionedd bydd llawer o'r datrysiadau wedi eu nodi a'u cytuno ers peth amser yn y Cod Ymarfer. Yr hyn a ddengys ein hymchwil, fodd bynnag, yw nad yw'r teimladau a datrysiadau wedi llifo eto hyd yma i feddwl ac arferion prif ffrwd, bob dydd. Mae ein hargymhellion yn nhermau amserlenni cyllid felly'n anelu i ***gynyddu cyflymder cynnydd*** tuag at batrymau ariannu tymor hwy.

Argymhelliad 1

Lle mae angen tymor-canol clir (pump i saith mlynedd) ar gyfer gwasanaeth neilltuol a ddarperir gan y Trydydd Sector, lle mae darpariaeth y gwasanaeth hwnnw'n cyd-fynd yn dda â pholisi sefydledig a lle mae consensws gwleidyddol clir am bwysigrwydd mynd i'r afael â'r angen a phriodolder y gwasanaeth wrth wneud hynny, dylai cyllidwr ymrwymo mewn egwyddor (h.y. drwy gontract sy'n rhwymo) i roi sefydlogrwydd dros y cyfnod. Dylid derbyn y bydd angen penderfynu ar ddyraniadau cyllideb manwl ar sail gylchol (efallai flynyddol neu ddwywaith y flwyddyn) o dan yr ymrwymiad tymor hwy yma. Dylid cynyddu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol a chyllidwyr eraill i sicrhau fod yr hyn sydd mewn gwirionedd yn egwyddor y cytunwyd arni eisoes yn dod yn ymarfer prif ffrwd.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynyddu ei hymdrechion i ledaenu a hyrwyddo Cod Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector ar draws adrannau mewnol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac yn fwy eang yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol barhau i arwain yn y cyswllt hwn, gan gynnig cyngor ac arweiniad yn rhagweithiol i gomisiynwyr gwasanaethau a'r Trydydd Sector i atodi'r Cod ei hunan ac yn neilltuol i ganolbwyntio ar weithredu ei hargymhellion yng nghyswllt amserlenni cyllid.

Argymhelliad 3

Mae angen i gyllidwyr gytuno, cyflwyno a gweithredu arferion monitro mwy effeithiol, gyda chymalau torri yn gysylltiedig â pherfformiad (e.e. tair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy arall) wedi'u cynnwys a'u cytuno ymlaen llaw gan y cyllidwr a'r derbynnydd. Yn ei dro, mae angen i'r Trydydd Sector finio'r ffordd y mae'n ymateb i ofynion monitro.

Argymhelliad 4

Lle mae cyfiawnhad dros gyllid tymor byrrach (e.e. cynlluniau peilot), mae angen i'r paramedrau a disgwyliadau deilliannau, a osodir gan gyllidwyr, pa bynnag dull cyllido a ddewiswyd, fod yn gymesur ac mae angen i gyllidwyr roi eglurdeb am sut y bwriedir rhoi dulliau llwyddiannus yn y brif ffrwd.

5.2 Diffinio Deilliannau

Nid yw pob cyllidwr yn neilltuol o dda am ddiffinio deilliannau ac mae ein hymchwil yn ychwanegu pwysau i'r ddamcaniaeth y gall fod tueddiad naturiol ymysg rhai i nodi "*sut yr ydym eisiau iddo gael ei wneud*" yn hytrach na "*yr hyn rydym eisiau gyflawni yn y diwedd*". Gwaethygir hyn oherwydd efallai nad yw cyllidwyr eu hunain yn glir bob amser am yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

Yn yr un modd, nid yw pob corff yn y Trydydd Sector yn neilltuol o dda am ddeall deilliannau ac weithiau'n gwrthwynebu cymryd perchenogaeth a all arwain at amharodwydd i roi gwybodaeth fonitro drwyadl.

Dylai bod yn glir am ganlyniadau a gwella lefel dealltwriaeth am "*iaith deilliannau*" gael ei weld fel rhan hollbwysig o wella'r seilwaith ariannu yng Nghymru. Mae hyn yn wir pa bynnag ddull comisiynu a ddefnyddir a'r gwelliannau sydd eu hangen ar ran cyllidwyr a'r Trydydd Sector. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol fod y Trydydd Sector yn coleddu

cyllid deilliannau ac yn gwrthwynebu'r temtasiwn i'w weld fel bygythiad. Mae'r un mor bwysig bod cyllidwyr yn gwneud defnydd cywir o wybodaeth monitro ansawdd da pan y'i darperir i wneud dyfarniadau gwybodus a seiliedig ar werthoedd, fel arall ni fydd derbynwyr cyllid yn gweld fawr o bwynt mewn cydymffurfio.

Mae rhai arwyddion calonogol y gwneir cynnydd, er y medrid dadlau y bydd hynny'n weddol araf, ac ymddengys fod symudiad amlwg ymysg cyllidwyr tuag at ymddygiad mwy proffesiynol, gan ddodi perthynas ariannu ar sylfaen contractiol cryfach, ac mae hyn yn cyflymu'r broses o ddiffinio'n well yr hyn y mae cyllid i fod i'w gyflawni.

Er y bu nifer fawr o alwadau i gyllidwyr egluro os ydynt yn seiliedig ar ddeilliannau (neu beidio), mae'n dal i fod llawer o amwysedd am hyn ac mae angen ei drin a'i glirio. Mae ein canfyddiadau'n cadarnhau'r cysyniad fod y berthynas rhwng cyllidwr-derbyniwr yn gweithio orau pan gaiff canlyniadau eu diffinio ar y cyd ar y dechrau. Mae angen i'r broses hon gael ei hymwreiddio'n llawer mwy mewn gweithgaredd prif ffrwd a chael ei gweld fel bod yn sylfaen i'r ymgyrch i broffesiynoli trefniadau cyllido.

Argymhelliad 5

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau eraill a chyllidwyr eraill y Trydydd Sector gynyddu eu hymdrechion i sicrhau fod comisiynwyr yn deall egwyddorion dull ariannu seiliedig ar ddeilliannau a nodwyd eisoes yn y Cod Ymarfer. Ni fydd dim llai na newid sylfaenol yn y cyswllt hwn yn ddigon i adfywio ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng cyllidwr-derbynnydd a'i phroffesiynoli. Nid oes angen comisiynu unrhyw waith newydd ar gyfer hyn gan fod yr egwyddorion eisoes wedi eu cytuno gan y rhanddeiliaid ac maent ar waith. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar weithredu rhaglen gyfathrebu yn gyson a rhagweithiol a lledaenu cyngor ac arfer da i gomisiynwyr sydd wedi'i hanelu'n benodol at gyflymu newid.

Argymhelliad 6

Lle mae cyllidwyr yn penderfynu eu bod yn cael gyrru gan ddeilliannau, dylent osgoi'r demtasiwn i or-fanylu **sut** mae pethau i gael eu cyflenwi. Dylid hefyd gofio fodd bynnag y gall fod yn ddilys a derbyniol i gyllidwyr gaffael gwasanaethau wedi'u diffinio'n dda sydd angen mewnbynnau penodol yn ogystal â deilliannau. Ni ddylid camddehongli hyn fel fod yn rhwystro arloesedd.

5.3 Dulliau Ariannu

Ymddengys yn glir fod cyllid grant, yn neilltuol gyllid grant craidd yn gostwng yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd y tueddiad yma eisoes wedi sefydlu, ond mae canlyniadau'r dirwasgiad presennol a'r cyfyngiadau dilynol ar wariant sector cyhoeddus yn debygol o olygu fod hyn yn ennill mwy o fomentwm. Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae siarad am "newid pendil" ymaith o grantiau o blaid caffaeliad ac mae ffynonellau data yn cadarnhau fod caffael yn bendant iawn yn cynyddu fel dull ariannu. Yng Nghymru, mae cyllidwyr yn cyfeirio at ysgogwyr "*diatal*" tryloywder a phroffesiynoli sy'n golygu fod mwy o gaffaeliad yn "*anochel*".

Hyd yma, fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth gadarn sydd i ddangos fod y Trydydd Sector yng Nghymru yn credu y bu cynnydd amlwg yn y defnydd o gaffaeliad. Gall hyn yn rhannol fod oherwydd oedi mewn data, gyda'r sefyllfa, yn ôl llawer o'r cyllidwyr y gwnaethom siarad â hwy, yn newid yn eithaf cyflym er enghraifft fel canlyniad i'r cynnydd yn y gofynion ar gaffaeliad sy'n rhan o raglenni 2007-13 yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'n achosi mwy o bryder, fodd bynnag, y medrai fod yn arwydd o gyfnodau cynnar gostyngiad cyffredinol mewn gwariant gyda'r sector.

P'un ai yw'r siarad am dwf mewn caffaeliad yn cyfateb â phrofiad ar lawr gwlad, mae'n rhaid dweud fod rhai pryderon gweddol eang ymysg cyllidwyr a hefyd y Trydydd Sector y gall caffaeliad fod yn cael ei

ddefnyddio mewn modd amhriodol yn lle grantiau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth.

Soniwyd eisoes bod cymhlethdod systemau caffaeliad a fabwysiadwyd gan rai comisiynwyr a'r angen i ddefnyddio arferion hyblyg a hylaw yn faterion allweddol, nid yn lleiaf yng Nghanolawiau Llywodraeth y Cynulliad a hefyd yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Diwylliant a Chymunedau'r Cynulliad. Mae ein canfyddiadau unwaith eto yn cadarnhau'r ddadl nad yw teimlad bob amser yn cael ei ddilyn gydag arfer da ac ymddengys yn glir fod agwedd "*cŷn i agor cneuen*" yn dal i'w gweld mewn gormod o arferion caffaeliad sy'n cael yr effaith o un ai ddiystyru neu godi ofn ar rai, yn arbennig grwpiau gwirfoddol llai, i gytuno.

Mae'n amlwg fod rhai cyllidwyr yn ystyried bod caffaeliad yn ddefnyddiol wrth ehangu dewis a chyflwyno cystadleuaeth a dylid derbyn hyn fel cymhelliant hollol ddilys ar gyfer ei ddefnyddio. Yn y cyd-destun hwn, nid oes fawr o amheuaeth fod y Trydydd Sector yn gweld caffaeliad fel bygythiad. Yn ôl llawer o gyllidwyr, nid oes sail i hyn gan y dadleuant fod y Trydydd Sector mewn lle da i ennill contractau mewn amgylchedd cystadleuol lle mae cystadleuaeth o'r sector cyhoeddus yn annhebygol iawn.

Ar y llaw arall, mae pryderon clir ac yn ddi-os gyda sail da nad yw'r Trydydd Sector yn gwneud gwaith da wrth werthu ei hunan ac yn cael caffaeliad yn anodd. Mae hyn yn sefyllfa ryfedd i rai ac maent yn holi pa mor wahanol neu faint mwy anodd y dylai fod i baratoi cynnig tendr safon uchel yn hytrach na llenwi cais cryf am grant (er y medrid dadlau bod angen ffocws cliriach ar gyflawni gofynion y cyllidwr ar gyfer ymateb i dendr yn hytrach na dim ond dangos gwerth gweithgaredd a gyflwynir gan gorff – a medrai'r dystiolaeth fod cyfran uchel o geisiadau grant i gronfeydd ymddiriedolaeth yn anghymwys fod yn arwydd nad yw'r sector bob amser yn gryf ar y llwybr ariannu hwn ychwaith). Yn ymarferol, mae'r heriau sy'n wynebu'r Trydydd Sector a grwpiau

gwirfoddol llai yn arbennig wrth ymateb i dwf caffaeliad yn debyg iawn i rai a wynebwr gan lawr o fusnesau micro yng Nghymru. Mae'n dilyn felly fod angen i'r dulliau cefnogaeth sydd ar gael greu gwelliant sylweddol yn y ffordd y mae'r Trydydd Sector yn trin yr hyn sy'n dal i fod yn ffordd cymharol newydd o weithio.

Mae hefyd ddadleuon, a medrid dadlau fod sylfaen dda drostynt, fod yr asiantaethau sector cyhoeddus yn gweld caffaeliad fel yr unig ffordd i wella tryloywder ac i fanylu ar ddeilliannau. Mae angen osgoi hyn fel tybiaeth awtomatig a dylai'r cyngor a roddir i gomisiynwyr adlewyrchu buddion (i'r cyllidwyr a'r derbynnywyr) o gael portffolio cytbwys o ddulliau cyllid ar y gweill. Yn y cyd-destun hwn, mae dadl gref fod grantiau'n dal i fod â rhan bwysig yn seilwaith cyllid y dyfodol. Yn yr un modd, lle mae tystiolaeth i awgrymu fod caffaeliad yn helpu cyflymu'r broses o ddiffino canlyniadau cyllid yn well, nid dyma'r unig ddull o gyflawni'r nod yma.

Mae'r rhan fwyaf o seilwaith ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru ar hyn o bryd yn draddodiadol iawn a medrid dadlau ei fod yn osgoi risg. Nid oes unrhyw amheuaeth fod Cymru'n llusgo ar ôl gwledydd tebyg, yn arbennig yr Alban pan ddaw i ddefnyddio dulliau ariannu sy'n seiliedig yn fwy ar fuddsoddiad. Er bod ymrwymiad i ymchwilio defnydd dulliau seiliedig ar fuddsoddiad a gwaddol yng Nghymru fel rhan o bortffolio ehangach o ddulliau ariannu⁹³, nid oes hyd yma lawer o frwdfrydedd ar gyfer hyn ymysg un ai'r cyllidwyr na llawer o gyrrff Trydydd Sector. Bu hefyd brofiadau cymysg gyda dulliau dynesiadau seiliedig ar asedau, sydd i lawer o'r ymatebwyr y gwnaethom siarad â hwy wedi'u gadael yn llyfu eu bysedd ar ôl eu llosgi. Roedd cyllidwyr hefyd yn amheus iawn am ddefnyddio unrhyw ddull yn cynnwys dyrannu cyfran a bennwyd ymlaen llaw neu benodol o'u cyllidebau cyffredinol i'r Trydydd Sector.

⁹³ O fewn y Trydydd Dimensiwn a gyda'r cyhoeddiad am y Gronfa Buddsoddi i Wasanaethu gan Lywodraeth y Cynulliad.

Yn ei bapur Funding Paradigms, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - yn hollol iawn yn ein barn ni, yn dweud bod angen i Lywodraeth y Cynulliad a chyllidwyr eraill y Trydydd Sector yng Nghymru gynyddu eu hymchwil o ddulliau ariannu seiliedig ar fuddsoddiad. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd yn gryn her i gyflawni hyn, gan fod cyllidwyr ac yn hollbwysig y Trydydd Sector ei hunan yn ymddangos yn ddigon hapus gyda pharth cysur dulliau ariannu mwy traddodiadol a ddefnyddir ar hyn o bryd ac nid oes ganddynt yr wybodaeth na'r profiad er mwyn datblygu'r agenda seiliedig ar fuddsoddiad. Medrid hefyd ddadlau fod yr amseriad yn llai na delfrydol o gofio am yr hinsawdd economaidd bresennol ac mae'r papur Funding Paradigm yn cydnabod y bydd gan gyllidwyr yn ddi-os amheuan am y lefelau cynhenid o risg.

Fodd bynnag, gyda chyllid strwythurol graddfa fawr o'r Undeb Ewropeaidd yn dod i ben yng Nghymru yn 2013, mae achos cryf - nid yn unig dros ymchwilio mewn ffordd cyffyrddiad ysgafn - ond mynd ati yn rhagweithiol i wthio ymlaen i ddatblygu dulliau ariannu eraill. O'r herwydd, mae angen ymdrech gref gan Lywodraeth y Cynulliad a chyllidwyr eraill i godi ymwybyddiaeth, egluro a gweithredu dulliau buddsoddi er mwyn gallu cael Trydydd Sector egniol, gwerthfawr, annibynnol a chynaliadwy yng Nghymru. Bydd angen newid y ffordd o feddwl ymhlith cyllidwyr a hyd yn oed ymysg sgeptigiaid o fewn y Trydydd Sector ei hunan i gyflawni hyn.

Argymhelliad 7

Gan dderbyn fod tryloywder yn hanfodol, dylai cyllidwyr osgoi ymateb difeddwl o ddefnyddio caffaeliad fel y dull rhagosod ar gyfer ymwneud gyda'r Trydydd Sector. Er bod caffaeliad yn helpu i hybu arferion ariannu seiliedig ar ddeilliannau, ni ddylid ei weld fel yr unig ffordd o gyflawni'r nod yma. Dylid defnyddio canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn llawnach i helpu i hysbysu'r ffordd orau o ddewis y dulliau ariannu mwyaf addas. Mae angen i swyddogion caffaeliad gydnabod hyn a

dylent adlewyrchu hynny'n llawnach yn y cyngor a roddant i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau gan y Trydydd Sector.

Argymhelliad 8

Lle mae caffaeliad yw'r dull ymrwymo mwyaf addas, mae angen i gyllidwyr ddefnyddio technegau addas sy'n gymesur a pherthnasol i'r math o wasanaethau sy'n cael eu comisiynu. Mae hyn yn golygu nad yw un maint yn ffitio pawb ac mae angen i swyddogion caffaeliad sicrhau fod y cyngor a roddant i gomisiynwyr gwasanaethau gan y Trydydd Sector yn adlewyrchu'n gywir natur a maint y gwasanaethau hynny sy'n cael eu caffael.

Argymhelliad 9

Mae angen i'r Trydydd Sector wella ei ymateb i'r agenda caffaeliad ac yn arbennig y ffordd y mae'n gwerthu ei hunan i gomisiynwyr a phwrcaswyr. Yn y cyswllt hwn, mae angen i gyrff ymbarél y sector ac asiantaethau eraill (megis Gwerth Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth) sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cefnogaeth y sector ac y caiff dulliau cefnogaeth eu defnyddio gan y Sector. Mae angen i'r gefnogaeth hon fod â ffocws cynyddol ar gael y sector i gydweithredu wrth gystadlu am a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ychydig o werth sydd mewn disgwyl canlyniad dull ennill cyflym o'r gwaith hwn. Mae angen cysondeb ac ymroddiad diamwys y Trydydd Sector i chwarae ei ran lawn. Heb hyn, caiff y Trydydd Sector ei adael ar ôl gan yr agenda caffaeliad.

Argymhelliad 10

Mae cadw portffolio cytbwys o gyllid yn bwysig i gyllidwyr a hefyd y Trydydd Sector ac mae angen i gyllidwyr gydnabod fod grantiau'n dal i fod â rôl hanfodol i'w chwarae yn y tirlun cyllid ar gyfer y dyfodol. Lle'n bosibl, dylai cyllidwyr allweddol unrhyw gorff penodol sicrhau fod llinellau cyfathrebu a threfniadau cydweithredu da rhyngddynt (yn cynnwys penodi cyllidwr arweiniol lle mae hynny'n addas), fel bod lefel

uchel o ymwybyddiaeth strategol a chynllunio effeithlon yng nghyswllt comisiynu gwasanaethau.

Argymhelliad 11

Mae angen i gyllidwyr, yn cynnwys rhai sy'n gweithredu grantiau a Chronfeydd Ymddiriedolaeth, ystyried sut y medrant ostwng y nifer o geisiadau anghymwys neu amhriodol a gyflwynir - gan ddefnyddio modelau blaengar sy'n rhoi cefnogaeth datblygu i ddarpar ymgeiswyr. Mae angen gwneud mwy hefyd i helpu paratoi a hysbysu ymgeiswyr ymlaen llaw (er enghraifft drwy roi manylion deilliannau a disgwyliadau yn nhermau'r broses gwneud cais) fel bod y ceisiadau yn fwy perthnasol ac o ansawdd uwch.

Argymhelliad 12

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyllidwyr allweddol y Trydydd Sector a'r sector ei hunan ymchwilio dulliau ariannu seiliedig ar fuddsoddiad gyda mwy o awch a theimlad o frys. Dylai dirprwyaeth fechan yn cynnwys swyddogion allweddol o Lywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill (efallai fel is-grŵp i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector) drefnu a chynnal ymweliad astudio ymarferol i'r Alban i ymchwilio a dysgu gwersi y dulliau seiliedig ar fuddsoddiad a gwaddol at ariannu a fabwysiadwyd yno. Dylid manteisio'n llawn hefyd ar weddill cyfnod cyllid yr Undeb Ewropeaidd dros yr ychydig fisoedd nesaf, ynghyd â ffynonellau eraill (megis cyllid o gyfrifon banc segur) i ysgogi dynesiadau seiliedig ar fuddsoddiad gyda'r amcan clir y dylent ddod yn hunanddigonol fel rhan o seilwaith ariannu ehangach. Dylai Llywodraeth y Cynulliad osod amcanion clir a chael rhaglen weithgaredd i fynd â'r gweithgaredd hwn rhagddo a ddylai gynnwys enwebu swyddog arweiniol o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i hyrwyddo'r agenda ac i roi adroddiadau rheolaidd i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar y cynnydd.

Atodiad 1

Rhestr Ymgynghoreion

Cyrff Ariannol ac Ymatebwyr Strategol (tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru)

Enw	Sefydliad
Colleen Bright	BILI Caerffili
Pat Mowll	BILL Sir Ddinbych
Mike Walsh	Cronfa Loteri Fawr
Yr Athro Pete Alcock	Canolfan Ymchwil Trydydd Sector (Lloegr)
Yr Athro Jenny Harrow	Canolfan Rhoddi Proffesiynol a Dyngarwch
Martin Brooks	Philanthropy Capital
Nick Capaldi	Cyngor Celfyddydau Cymru
Karl Wilding	NCVO
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Paul Charkiw	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Wendy Walters	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Chris Girvan	Cyngor Bwrdeisdrestref Sirol Wrecsam
Nicola Southall	Gwerth Cymru
Gunther Kostyra	Gwerth Cymru
Nick Starkey	Swyddfa'r Cabinet, Swyddfa'r Trydydd Sector
Kevin Curley	NICVA
Martin Sime	SCVO
Tiana Pathmanathan	Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Graham Benfield	WCVA
Bryan Collis	WCVA
Neil Caldwell	Neil Caldwell Associates

Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Enw	Sefydliad
Neil Surman	Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol
Matthew Quinn	Cyfarwyddwr – Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
	Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Paul Dear	– Cymunedau yn Gyntaf
Damien O'Brien	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Sioned Rees	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (Menter)
Emma Jenkins	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (Gorllewin Cymru)
Jayne Stokes	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (Gorllewin Cymru)
Trish Fretten	Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Swyddog
Janet Whiteman	Cymunedol a Trydydd Sector
Carys Evans	Uned Cynllun Gofodol
	Materion Gwledig, Treftadaeth, Diwylliant, Iaith Gymraeg,
Marie Knox	Chwaraeon ac ati
Mike Daly	Adran Gwaith a Phensiynau
Katie Whittaker	Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Heulwen Blackmore	Adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Cyrff/Cynrychiolwyr Trydydd Sector

Enw

Gwyneth Jones
Richard Jones
Tracy Elliott
Linda Grace
Peter Loughran
John Yates
Glenys Campbell
Tanya Cliffe
June Brady
Anne Forbes
Tony Priestley
Cynrychiolydd⁹⁴
Russel Hobson
David Bridges
Tony Potts
Lorraine Miles
Tanya Buchanan
Owen Burt
Pam Dodd
Owen Thomas
Fran Targett
Nia Jones
Simon Harris

Corff

Age Concern Ceredigion
CAM-FAN Cyf
Home Start
Canolfan Plant Jigso
Age Concern Sir Gar
Cam Ymlaen
Gweithredu Dros Blant
Rhieni Cymunedol Sir y Fflint
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Cymdeithas Gymunedol Trecwm
Cymdeithas Gymunedol Trecwm
Autism Cymru
Cadwraeth Gloynnod Byw Cymru
Cadwraeth Gloynnod Byw Cymru
Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot
ASH Wales
Shelter Cymru
Sefydliad Codi Arian Cymru
RSPB Cymru
CAB Cymru
Datblygu Cymunedol Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru

⁹⁴ Ni ddymunai'r person yma gael ei enwi.